



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales
(The Official Record)**

Dydd Iau 21 Mehefin 2001

Thursday 21 June 2001

Cynnwys
Contents

3	Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg <i>Questions to the Minister for Culture, Sport and the Welsh Language</i>
12	Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig <i>Questions to the Minister for Rural Affairs</i>
21	Cwestiynau i'r Trefnydd <i>Questions to the Minister for Assembly Business</i>
29	Datganiad ar Ffatri Dunlop Semtex <i>Statement on the Dunlop Semtex Factory</i>
49	Pwynt of Drefn <i>Point of Order</i>
51	Deddf Llywodraeth Leol 2000 <i>The Local Government Act 2000</i>
74	Pwynt o Drefn <i>Point of Order</i>
75	Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchymynion Llywodraeth Leol <i>Composite Motion: Approval of Local Government Orders</i>
78	Dadl Fer: Swyddi i Bawb <i>Short Debate: Jobs for All</i>

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 9.05 a.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 9.05 a.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg Questions to the Minister for Culture, Sport and the Welsh Language

Y Llywydd: Yn absenoldeb y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg, galwaf ar y Trefnydd, a gaiff ddiwrnod prysur heddiw, i ateb cwestiynau ar ei rhan.

The Presiding Officer: In the absence of the Minister for Culture, Sport and the Welsh Language, I call on the Minister for Assembly Business, who will have a busy day today, to answer questions on her behalf.

Hyrwyddo Golff yng Nghymru Promoting Golf in Wales

Q1 David Melding: What is the administration doing to promote golf in Wales and will the Minister make a statement? (OAQ12023) [R]

C1 David Melding: Beth mae'r weinyddiaeth yn ei wneud i hyrwyddo golff yng Nghymru ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hyn? (OAQ12023) [R]

I declare an interest as an incompetent golfer and a member of Neath Golf Club.

Datganaf fuddiant fel golffwr anfedrus ac aelod o Glwb Golff Castell Nedd.

The Minister for Assembly Business (Andrew Davies): The National Assembly for Wales and the Cabinet are working closely with those involved in the Ryder Cup bid committee to promote the game of golf in Wales.

Y Trefnydd (Andrew Davies): Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Cabinet yn cydweithio'n agos â'r rhai sydd yn ymwneud â phwyllgor y cais i ddenu Cwpan Ryder i hyrwyddo chwarae golff yng Nghymru.

The bid is based predominantly on the issue of golf development. Plans are in place to help promote the concept of 'golf for all' to the people of Wales, targeted at all levels. In conjunction with partners, the Sports Council for Wales is developing and implementing a range of initiatives, which include appointing golf development officers, establishing centres of excellence, increasing the number of facilities, and promoting golf as a participatory sport in schools, colleges and universities. The majority of such initiatives will be introduced regardless of the outcome of the bid process.

Seilir y cais yn bennaf ar ddatblygu golff. Mae cynlluniau ar y gweill i helpu i hyrwyddo'r cysyniad o 'golff i bawb' i holl bobl Cymru, wedi eu targedu at bob lefel. Mewn cydweithrediad â phartneriaid, mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn datblygu ac yn gweithredu amrywiaeth o fentrau, sydd yn cynnwys penodi swyddogion datblygu golff, sefydlu canolfannau rhagoriaeth, cynyddu nifer y cyfleusterau, a hyrwyddo golff fel camp gyfranogol mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion. Cyflwynir y mwyafrif o'r mentrau hyn waeth beth fydd canlyniad y cais.

David Melding: Does the Minister agree that the Assembly can greatly aid the Ryder Cup bid by endorsing the moves to ensure that this wonderful event comes to Wales in 2009?

David Melding: A gytuna'r Gweinidog y gall y Cynulliad fod o gymorth mawr i gais Cwpan Ryder drwy gymeradwyo'r camau i sicrhau y daw'r digwyddiad gwych hwn i Gymru yn 2009?

Andrew Davies: The Cabinet—and I think that I also speak for the whole Assembly—fully supports the bid to host the Ryder Cup.

Andrew Davies: Mae'r Cabinet—a chredaf fy mod yn siarad ar ran y Cynulliad cyfan—yn llwyr gefnogi'r cais i groesawu Cwpan

Jenny Randerson, my ministerial colleague, has attended several meetings to discuss the bid, and the First Minister met Tony Lewis yesterday regarding this issue. The Minister also intends to visit the World Professional Golf Association championship in Porthcawl next month. That is an example of the impact that the bid is already having on the game of golf in Wales.

Owen John Thomas: Golf may have had an image problem in the past, which limited its appeal in some sections of society. However, the construction of golf courses, as well as providing valuable new sporting facilities, could offer an economic lifeline by giving farmers the opportunity to diversify. Can you offer any help in this regard?

Andrew Davies: As I outlined in my response to David Melding's first question, we are doing a great deal in working with the Sports Council to develop concept of 'golf for all'. Your point about the need for diversification in the rural economy was well made. Carwyn Jones and Jenny Randerson have already done work on that issue and will bring forward proposals on it.

Ryder. Mynychodd Jenny Randerson, fy nghyd-weinidog, nifer o gyfarfodydd i drafod y cais, a chyfarfu Prif Weinidog Cymru â Tony Lewis ddoe ynglŷn â'r mater hwn. Bwriada'r Gweinidog hefyd ymweld â phencampwriaeth Cymdeithas Golff Proffesiynol y Byd ym Mhorthcawl fis nesaf. Mae hynny yn enghraifft o'r effaith a gaiff y cais ar golff yng Nghymru eisoes.

Owen John Thomas: Efallai bod golff wedi dioddef o broblem delwedd yn y gorffennol, a gyfyngodd ei apêl i rai carfanau o gymdeithas. Fodd bynnag, yn ogystal â darparu cyfleusterau chwaraeon newydd, gallai adeiladu cyrsiau golff fod yn achubiaeth economaidd i ffermwyr drwy gynnig y cyfle iddynt arallgyfeirio. A allwch gynnig unrhyw help yn hyn o beth?

Andrew Davies: Fel yr amlinellais wrth ymateb i gwestiwn cyntaf David Melding, yr ydym yn cydweithio llawer â'r Cyngor Chwaraeon i ddatblygu'r cysyniad o 'golff i bawb'. Yr oedd eich pwynt am yr angen i arallgyfeirio yn yr economi wledig yn un da. Mae Carwyn Jones a Jenny Randerson eisoes wedi gweithio ar y mater hwnnw a byddant yn cyflwyno argymhellion arno.

Hyrwyddo Celfyddydau Perfformio y Tu Allan i Gaerdydd Promoting Performing Arts Outside Cardiff

Q2 Peter Black: How is the Minister promoting the performing arts in areas of Wales outside of Cardiff? (OAQ12038)

Andrew Davies: The Cabinet's aim is to ensure that the National Assembly's policies offer help and encouragement to enable people in all parts of Wales to enjoy the arts. The Arts Council of Wales's expenditure on performing arts outside Cardiff for 2000-01, in terms of lottery and grant-in-aid moneys, was £9.7 million. That involved approximately 300 clients or projects. We will provide an additional £2 million for the arts outside Cardiff to ensure that the development of the Wales Millennium Centre does not occur at the expense of artistic provision elsewhere in Wales.

Peter Black: In light of the commitment to

C2 Peter Black: Sut mae'r Gweinidog yn hyrwyddo'r celfyddydau perfformio mewn ardaloedd o Gymru sydd y tu allan i Gaerdydd? (OAQ12038)

Andrew Davies: Nod y Cabinet yw sicrhau bod polisiau'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnig help ac anogaeth i alluogi pobl o bob rhan o Gymru i fwynhau'r celfyddydau. Yr oedd gwariant Cyngor Celfyddydau Cymru ar y celfyddydau perfformio y tu allan i Gaerdydd yn 2000-01, yn nhermau arian y loteri a chymorth grant yn £9.7 miliwn. Yr oedd hynny yn cwmpasu tua 300 o gleientiaid neu brosiectau. Byddwn yn darparu £2 filiwn yn ychwanegol ar gyfer y celfyddydau y tu allan i Gaerdydd er mwyn sicrhau na ddatblygir Canolfan Mileniwm Cymru ar draul darpariaeth gelfyddydol arall yng Nghymru.

Peter Black: Yng ngoleuni'r ymrwymiad i

promoting the performing arts in areas of Wales outside Cardiff, will you confirm that it is your understanding that the £2.9 million core funding for the Welsh National Opera, together with any stabilisation money that it might receive, is intended to enable it to tour large scale opera in Wales? Will you also confirm that the fortnight of large scale opera that Swansea has enjoyed for many years should be reinstated as a priority, as part of the stabilisation revenue proposals? Further, are you aware that, despite the current level of funding and the potential additional funding, the Welsh National Opera does not intend to visit Swansea until November 2002, which means some 20 months without large scale performance in that city? Will you indicate whether you are happy with that?

Andrew Davies: As Swansea's Grand Theatre is in my constituency, I have a vested interest, which I declare. Detailed negotiations regarding stabilisation and work with the Arts Council of Wales are ongoing. Part of those negotiations will deal with the touring programme. Swansea is included as part of that programme, as it always has been.

Elin Jones: Cyfeiriasoch at y £2 miliwn a fydd ar gael ar gyfer canolfannau perfformio ar hyd a lled Cymru yng ngoleuni'r buddsoddiad posibl yng Nghanolfan y Mileniwm yma yng Nghaerdydd. A gytunwch y dylai'r arian hwnnw fod ar gael cyn gynted ag y bo modd i ganolfannau ar hyd a lled Cymru, ac y dylai canllawiau fod ar gael i'r canolfannau hynny i'w cynorthwyo i gyflwyno ceisiadau am yr arian?

Andrew Davies: Our intention is that the money should go to the appropriate venues. My colleague Jenny Randerson is working with the Arts Council of Wales, the agency responsible for dealing with the arts in Wales, in that respect. It is a major commitment on our part and we would want to see that money spent as quickly as possible.

Tom Middlehurst: Will you ask the absent Minister to intervene in respect of the

hyrwyddo'r celfyddydau perfformio mewn ardaloedd o Gymru y tu allan i Gaerdydd, a wnewch chi gadarnhau mai eich dealltwriaeth yw mai bwriad y £2.9 miliwn o arian craidd ar gyfer Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru, ynghyd ag unrhyw arian sefydlogi a dderbynai, yw ei alluogi i deithio operâu ar raddfa fawr o fewn Cymru? A wnewch chi gadarnhau hefyd y dylai'r bythefnos o opera ar raddfa fawr a fwynheid yn Abertawe ers blynnyddoedd gael ei hailsefydlu fel mater o flaenoriaeth, fel rhan o'r cynigion refeniw sefydlogi? Ymhellach, a ydych yn ymwybodol, er gwaethaf y lefel bresennol o ariannu a'r posibilrwydd o arian ychwanegol, nad yw Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru yn bwriadu ymweld ag Abertawe tan fis Tachwedd 2002, sydd yn golygu tua 20 mis heb berfformiad ar raddfa fawr yn y ddinas honno? A nodwch pa un a ydych yn fodlon ar hynny?

Andrew Davies: Gan fod Theatr y Grand, Abertawe yn fy etholaeth, mae gennyf fuddiant personol a datganaf hynny. Mae negodiadau manwl ynglŷn â sefydlogi a gwaith gyda Chyngor Celfyddydau Cymru yn mynd rhagddo. Bydd rhan o'r negodiadau hynny yn ymwneud â'r rhaglen deithio. Cynhwysir Abertawe fel rhan o'r rhaglen honno fel erioed.

Elin Jones: You referred to the £2 million that will be available for performance venues across Wales in light of the possible investment in the Millennium Centre here in Cardiff. Do you agree that that funding should be made available as soon as possible to venues across Wales, and that guidance should be available to those venues to assist them in applying for that funding?

Andrew Davies: Ein bwriad yw i'r arian fynd i'r lleoliadau priodol. Mae fy nghydweiniad Jenny Randerson yn cydweithio â Chyngor Celfyddydau Cymru, yr asiantaeth sydd yn gyfrifol am y celfyddydau yng Nghymru, i'r diben hwnnw. Mae'n ymrwymiad pwysig ar ein rhan a byddwn yn dymuno gweld yr arian yn cael ei wario cyn gynted â phosibl.

Tom Middlehurst: A ofynnwch i'r Gweinidog sydd yn absennol ymyrryd ym

disastrous decision by the Arts Council of Wales to discontinue support for Clwyd Theatr Cymru's mobile theatre? This theatre has been extremely popular all over Wales and this year would have taken Owen Teale as Macbeth into community halls and schools. It is a production of the highest quality, which would have been seen by many people. Furthermore, the decision jeopardises a sponsorship arrangement with Edison Mission Energy worth £100,000. The decision should, surely, be revisited. Will you urge the Minister to intervene?

Andrew Davies: As Members will know, Tom is a passionate supporter of Clwyd Theatr Cymru. I will take up your concerns with Jenny Randerson. The Minister for Finance, Local Government and Communities recently announced, as I said earlier, an additional sum of up to £2 million to support arts provision outside Cardiff. We must ensure that there is a thriving base of arts venues throughout Wales capable of supporting productions of all types and sizes. The audit of arts venues by the Arts Council of Wales, which will be completed this summer, will identify what is available throughout Wales, and will serve as a useful tool to inform future policy direction. I will take up your concerns with Jenny.

mhenderfyniad trychinebus Cyngor Celfyddydau Cymru i roi'r gorau i gefnogi theatr symudol Clwyd Theatr Cymru? Bu'r theatr hon yn boblogaidd ledled Cymru ac eleni byddai wedi cyflwyno Owen Teale fel Macbeth mewn neuaddau cymuned ac ysgolion. Mae'n gynhyrchiad o'r radd flaenaf a fyddai wedi ei weld gan lawer o bobl. Yn ogystal, mae'r penderfyniad yn peryglu cytundeb nawdd o £100,000 gydag Edison Mission Energy. Oni ddylid ailedrych ar y penderfyniad hwnnw? A anogwch y Gweinidog i ymyrryd?

Andrew Davies: Fel y gŵyr yr Aelodau, mae Tom yn un o gefnogwyr brwd Clwyd Theatr Cymru. Byddaf yn trafod eich pryderon â Jenny Randerson. Fel y dywedais eisoes, cyhoeddodd y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ddiweddar hyd at £2 miliwn ychwanegol i gefnogi darpariaeth gelfyddydol y tu allan i Gaerdydd. Rhaid inni sicrhau bod sylfaen ffyniannus o leoliadau celfyddydol ledled Cymru sydd yn gallu cynnal cynhyrchiadau o bob math a maint. Bydd archwiliad Cyngor Celfyddydau Cymru o leoliadau celfyddydol, a gwblheir yr haf hwn, yn nodi beth sydd ar gael ledled Cymru, a bydd yn arf defnyddiol wrth lywio polisi yn y dyfodol. Trafodaf eich pryderon â Jenny.

Cymru'n Creu (Hybu Twristiaeth Ddiwylliannol) Cymru'n Creu (Promoting Cultural Tourism)

C3 Rhodri Glyn Thomas: Sut y bydd Cymru'n Creu yn ceisio hybu twristiaeth ddiwylliannol yng Nghymru? (OAQ12061)

Andrew Davies: The Wales Tourist Board, which is a member of Cymru'n Creu, is preparing a cultural strategy in consultation with other members of the cultural consortium. Cymru'n Creu is ideally placed to assist the WTB in this work, as its members represent virtually all those sectors that can contribute to the success of a cultural tourism strategy. The National Library of Wales, the National Museums and Galleries of Wales, the Arts Council of Wales, the Sports Council for Wales, the Welsh Local Government Association, and the film, publishing and broadcasting sectors all have membership and will support the WTB's initiative.

Q3 Rhodri Glyn Thomas: How will Cymru'n Creu seek to promote cultural tourism in Wales? (OAQ12061)

Andrew Davies: Mae Bwrdd Croeso Cymru, sydd yn aelod o Cymru'n Creu yn darparu strategaeth ddiwylliannol drwy ymgynghori ag aelodau eraill o'r consortiwm diwylliannol. Mae Cymru'n Creu mewn sefyllfa ddelfrydol i gynorthwyo Bwrdd Croeso Cymru yn y gwaith hwn, gan fod ei aelodau yn cynrychioli bron bob un o'r sectorau hynny a all gyfrannu at lwyddiant strategaeth dwristiaeth ddiwylliannol. Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r sectorau ffilm, cyhoeddi a darlledu i gyd yn aelodau a byddant yn cefnogi menter Bwrdd

Croeso Cymru.

Rhodri Glyn Thomas: Cytunaf fod Cymru'n Creu yn ffordd dda o gynorthwyo Bwrdd Croeso Cymru â'r strategaeth hon. A all y Gweinidog ddweud a oes gan adran berthnasol y Cynulliad weledigaeth ar beth yn union yw twristiaeth ddiwylliannol?

Rhodri Glyn Thomas: I agree that Cymru'n Creu is a good means by which to assist the Wales Tourist Board with this strategy. Can the Minister tell us if the relevant Assembly department has a vision of what exactly cultural tourism is?

Andrew Davies: Cymru'n Creu is unique in the way that it provides a forum for Assembly sponsored public bodies, broadcasters and other interested parties to raise matters of mutual interest. It is an initiative that the administration has supported and, as you know, the Minister for Culture, Sport and the Welsh Language yesterday presented a cultural strategy to the Culture Committee. We fully support that strategy, and will work with our partner organisations and key stakeholders to develop it.

Andrew Davies: Mae'n Cymru'n Creu yn unigryw yn y modd y mae'n cynnig fforwm i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, darlledwyr a rhai eraill sydd â diddordeb godi materion sydd o ddiddordeb cyffredin. Mae'n fenter a gefnogwyd gan y weinyddiaeth, ac fel y gwyddoch, ddoe cyflwynodd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg strategaeth ddiwylliannol i'r Pwyllgor Diwylliant. Yr ydym yn cefnogi'r strategaeth honno yn llwyr, a chydweithiwn â'n sefydliadau partner a rhanddeiliaid allweddol i'w datblygu.

Alun Pugh: Cultural tourism makes an important contribution to north Wales's economy, yet the Welsh National Opera only spends one week a year in north Wales. Will you ask the WNO to contribute a second tour as part of its annual programme?

Alun Pugh: Gwna twristiaeth ddiwylliannol gyfraniad pwysig i economi gogledd Cymru, eto dim ond un wythnos y flwyddyn y treulia Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru yng ngogledd Cymru. A ofynnwch i'r cwmni gyfrannu ail daith fel rhan o'i rhaglen flynyddol?

Andrew Davies: As I said in response to Tom Middlehurst's supplementary question earlier, I will take these issues up with Jenny Randerson and, if appropriate, she will make representations to the Arts Council of Wales and to the Welsh National Opera.

Andrew Davies: Fel y dywedais wrth ymateb i gwestiwn atodol Tom Middlehurst yn gynharach, trafodaf y materion hynny â Jenny Randerson ac, os yn briodol, fe wnaiff sylwadau i Gyngor Celfyddydau Cymru a Chwmni Opera Cenedlaethol Cymru.

9:15 a.m.

Mynediad am Ddim i Amgueddfeydd (Effaith) Free Entry to Museums (Impact)

Q4 Peter Black: Has the Minister made an evaluation of the impact of free entry to museums on other tourist attractions in Wales? (OAQ12037) [R]

C4 Peter Black: A yw'r Gweinidog wedi gwerthuso effaith rhoi mynediad am ddim i amgueddfeydd ar atyniadau twristiaid eraill yng Nghymru? (OAQ12037) [R]

Andrew Davies: Delivering free admission to museums was the realisation of a long-held ambition of the Assembly and the National Museums and Galleries of Wales. The policy has resulted in a phenomenal 90 per cent increase in visitor numbers, many of whom would not otherwise have visited the eight

Andrew Davies: Yr oedd cynnig mynediad am ddim i amgueddfeydd yn gwireddu uchelgais hir-ddisgwyliedig gan y Cynulliad ac Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru. Canlyniad y polisi hwnnw yw cynnydd syfrdanol o 90 y cant yn niferoedd yr ymwelwyr, llawer ohonynt na fyddent fel

museum sites in Wales. It is difficult, however, to isolate the underlying reasons for any reductions in visitor numbers to other tourist attractions, although the foot and mouth disease crisis may have had a significant impact. The free entry policy has only been in place for just over two months. We feel that that is not nearly long enough to evaluate its long-term effects.

Peter Black: I welcome the free entry. However, will you undertake—or approach the Minister and ask her to undertake—to talk to the organisations that have concerns about the impact of free entry on their tourist attractions? We must see if those trends can be identified and what can be done to assist them with the problems that they face.

Andrew Davies: The National Museums and Galleries of Wales has invited representatives from the tourism industry in west Wales to attend a seminar at the Museum of the Welsh Woollen Industry in Carmarthenshire in early July. The theme of the seminar will be making free admissions to museums work for museums and galleries throughout Wales. The concerns of tourist attractions in the public, voluntary and private sectors will be taken on board.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): It is undoubtedly the case that the policy of free entry, which we warmly endorse, is the right policy. However, it is having an effect on private tourist attractions. For example, if a family has the choice of visiting Big Pit or Dan yr Ogof caves, they will choose Big Pit, because of the cost. Will the administration investigate ways of providing assistance, whether by marketing or other means, for these attractions, which are undoubtedly suffering? The foot and mouth disease crisis, in particular, has compounded the problem.

Andrew Davies: As I said earlier, it is far too early to say whether free entry to the sites of the National Museums and Galleries of Wales is having a direct impact on other visitor attractions, whether in the private or public sector. We need to evaluate that situation over a period of time. There is an

arall wedi ymweld â'r wyth amgueddfa yng Nghymru. Mae'n anodd, fodd bynnag, ynysu'r rhesymau sydd wrth wraidd unrhyw ostyngiad yn niferoedd yr ymwelwyr ag atyniadau twristaidd eraill, er y gallai argyfwng clwy'r traed a'r genau fod wedi cael effaith sylweddol. Dim ond ers deufis y gweithredwyd y polisi mynediad am ddim. Credwn nad yw hynny'n hanner digon o amser i werthuso ei effeithiau hirdymor.

Peter Black: Croesawaf fynediad am ddim. Fodd bynnag, a wnewch chi ymgymryd—neu a ofynnwch i'r Gweinidog a wnaiff hi ymgymryd i—siarad â'r sefydliadau sydd yn pryderu am effaith mynediad am ddim ar eu hatyniadau twristaidd? Rhaid inni weld a ellir nodi'r tueddiadau hynny a beth y gellir ei wneud i'w cynorthwyo gyda'r problemau sydd yn eu hwynebu.

Andrew Davies: Gwahoddodd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru gynrychiolwyr o'r diwydiant twristiaeth yng ngorllewin Cymru i fynychu seminar yn Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru yn Sir Gaerfyrddin ddechrau mis Gorffennaf. Thema'r seminar fydd defnyddio mynediad am ddim i amgueddfeydd ar gyfer amgueddfeydd ac orielau ledled Cymru. Ystyrir pryderon atyniadau ymwelwyr yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): Nid oes amheuaeth fod y polisi mynediad am ddim, a gymeradwywn yn wresog, yn bolisi cywir. Fodd bynnag, mae yn effeithio ar atyniadau twristaidd preifat. Er enghraifft, os oes dewis gan deulu i ymweld naill ai â'r Pwll Mawr neu Dan yr Ogof, dewisant y Pwll Mawr, oherwydd y gost. A wnaiff y weinyddiaeth ymchwilio i ffyrdd o gynig cymorth, naill ai drwy farchnata, neu ddulliau eraill, i'r atyniadau hyn, sydd heb amheuaeth yn dioddef? Mae argyfwng clwy'r traed a'r genau, yn arbennig, wedi gwaethygu'r problem.

Andrew Davies: Fel y dywedais eisoes, mae'n llawer rhy gynnar i ddweud a yw mynediad am ddim i safleoedd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn effeithio'n uniongyrchol ar atyniadau ymwelwyr eraill, pa un a ydynt yn y sector preifat neu gyhoeddus. Rhaid inni

argument that, if people do not have to pay to visit the eight sites of the National Museums and Galleries of Wales, then they will have surplus income, which could be used to pay the entrance fee of other tourist attractions. As I said, it is far too early to say what the outcome will be. However, we are talking to people, particularly those who run private sector visitor attractions, taking on board their concerns and considering how we can work with them.

Rosemary Butler: I am sure that the Minister would agree that free entry has been an enormous success. Will he ask the other Cabinet Members what processes they are putting in place to enable free access to all the Cadw ancient monuments sites owned by the National Assembly? I disagree that having free access to museums will be a disincentive to visit other tourist attractions. I think that it will have exactly the opposite effect.

Andrew Davies: I tend to agree. Having free entry to museums increases the attractiveness of Wales as a tourist destination. As I said, however, we need to evaluate the long-term repercussions. However, I will discuss your concerns about other sites, including Cadw sites, with Sue Essex, who is responsible for this area.

The Presiding Officer: Question 5 has been withdrawn.

Hybu Cyfraniad i'r Celfyddydau y Rheini sydd dros Oed Ymddeol Promoting the Contribution of those over Retirement Age to the Arts

Q6 Peter Rogers: What steps have been taken to promote the contribution of those over retirement age within the arts? (OAQ12034)

Andrew Davies: Equal opportunities and accessibility are cross-cutting themes of the Assembly and Cabinet. We firmly believe in the benefits of the arts for all, including those over retirement age. The culture strategy, which the Minister for Culture, Sport and the Welsh Language presented to the Culture Committee yesterday, reinforced the partnership agreement commitment to a long-

werthuso'r sefyllfa honno dros gyfnod o amser. Mae dadl, y bydd gan bobl incwm dros ben, y gellid ei ddefnyddio i dalu tâl mynediad i atyniadau twristaidd eraill os na fyddant yn gorfod talu i ymweld ag wyth safle Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru. Fel y dywedais, mae'n llawer rhy gynnar i ddweud beth fydd y canlyniad. Fodd bynnag, yr ydym yn siarad â phobl, yn arbennig y rhai hynny sydd yn rhedeg atyniadau ymwelwyr yn y sector preifat, gan ystyried eu pryderon a sut y gallwn gydweithio â hwy.

Rosemary Butler: Yr wyf yn siŵr y cytuna'r Gweinidog fod mynediad am ddim yn llwyddiant ysgubol. A ofynna i Aelodau eraill y Cabinet pa drefniadau a gyflwynant i alluogi mynediad am ddim i bob safle henebion Cadw sydd yn eiddo i'r Cynulliad Cenedlaethol? Anghytunaf y byddai mynediad am ddim i amgueddfeydd yn peri i bobl beidio ag ymweld ag atyniadau twristaidd eraill. Credaf y caiff effaith hollol wahanol.

Andrew Davies: Tueddaf i gytuno. Cynydda mynediad am ddim i amgueddfeydd apêl Cymru fel cyrchfan i dwristiaid. Fel y dywedais, fodd bynnag, rhaid inni werthuso'r sgil-effeithiau hirdymor. Fodd bynnag, trafodaf eich pryderon am y safleoedd eraill a safleoedd Cadw â Sue Essex, sydd yn gyfrifol am y maes hwn.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 5 yn ôl.

C6 Peter Rogers: Pa gamau a gymerwyd i hybu cyfraniad y rheini sydd dros oed ymddeol yn y celfyddydau? (OAQ12034)

Andrew Davies: Mae cyfleoedd cyfartal a hygyrchedd yn themâu trawsbynciol i'r Cynulliad a'r Cabinet. Credwn yn gryf mewn manteision celfyddydau i bawb, gan gynnwys y rhai dros oed ymddeol. Mae'r strategaeth diwylliant, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Diwylliant ddoe gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg yn atgyfnerthu ymrwymiad y cytundeb

term strategy for the arts. The Arts Council of Wales's cultural diversity strategy launched by the Minister for Culture, Sport and the Welsh Language in April 2001, promotes equality of access to a full range of arts events for people of all ages, abilities, cultures and communities. As I said earlier, the abolition of entry fees to the National Museums and Galleries of Wales has made our national treasures freely accessible to all and has led to a record number of visitors of all ages to the museums' sites.

Peter Rogers: We were grateful to have the opportunity recently to view the excellent work of those enrolled on courses in Llandrillo College. While the promotion of 'Cool Cymru' and youthful Wales is good, we ought also to recognise the excellent work of older people. Would it be possible to exhibit this work in art and craft centres throughout Wales?

Andrew Davies: Peter's suggestion is interesting. I pay tribute to Llandrillo College's work, and the exhibition that it put on in the Neuadd last week. As a governor of Swansea College, I will take a leaf out of Llandrillo's book and encourage Swansea College to respond similarly. It is an interesting suggestion and I will take it up with Jenny Randerson.

Rosemary Butler: Yesterday in the Culture Committee's meeting there was an interesting discussion on the culture strategy. I raised the point that we are giving free access to museums for senior citizens, free transport for senior citizens from next year and free television licences for people over 75 years of age, but when will we consider free classes for retired people? Peter's point was well made. Arts, crafts, languages and anything offered in adult and further education expand senior citizens' minds and helps to keep social services at bay longer. Introducing free continuing education for senior citizens would be economically viable.

Andrew Davies: As someone committed to lifelong learning when it was a minority

partneriaeth i strategaeth hirdymor ar gyfer y celfyddydau. Mae strategaeth amrywiaeth diwylliannol Cyngor Celfyddydau Cymru a lansiwyd gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg ym mis Ebrill 2001 yn hyrwyddo mynediad cyfartal i amrywiaeth lawn o ddigwyddiadau celfyddydol ar gyfer pobl o bob oed, gallu, diwylliant a chymunedau. Fel y dywedais yn gynharach, sicrhaodd diddymu tâl mynediad i Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru fod ein trysorau cenedlaethol o fewn cyrraedd pawb ac arweiniodd at y nifer uchaf erioed o ymwelwyr o bob oed i safleoedd yr amgueddfeydd.

Peter Rogers: Yr oeddem yn falch o gael y cyfle yn ddiweddar i weld gwaith ardderchog y rhai a ymunodd â chwrs yng Ngholeg Llandrillo. Er bod hyrwyddo 'Cŵl Cymru' a Chymru ifanc yn waith da, dylem hefyd gydnabod y gwaith ardderchog a wneir gan bobl hŷn. A fyddai'n bosibl arddangos y gwaith hwn mewn canolfannau celf a chreffft ledled Cymru?

Andrew Davies: Mae awgrym Peter yn ddiddorol. Talaf deyrnged i waith Coleg Llandrillo, a'r arddangosfa a gyflwynodd yn y Neuadd yr wythnos diwethaf. Fel un o lywodraethwyr Coleg Abertawe, byddaf yn dilyn arweiniad Llandrillo ac yn annog Coleg Abertawe i ymateb yn yr un modd. Mae'n awgrym diddorol a byddaf yn ei drafod â Jenny Randerson.

Rosemary Butler: Ddoe yng nghyfarfod y Pwyllgor Diwylliant bu trafodaeth ddiddorol ar y strategaeth ddiwylliant. Codais y pwynt ein bod yn cynnig mynediad am ddim i amgueddfeydd i bensiynwyr, trafnidiaeth am ddim i bensiynwyr o'r flwyddyn nesaf a thrwyddedau teledu am ddim i bobl dros 75 oed, ond pryd yr ystyriwn gynnig dosbarthiadau am ddim i bobl wedi ymddeol? Gwnaeth Peter bwynt da. Mae celfyddydau, crefftau, ieithoedd ac unrhyw beth a gynigir o fewn addysg oedolion ac addysg bellach yn ehangu meddyliau pensiynwyr ac yn helpu i atal y gwasanaethau cymdeithasol dros dro. Byddai cyflwyno addysg barhaus i bensiynwyr yn ymarferol yn economaidd.

Andrew Davies: Fel un a fu'n ymrwymedig i ddysgu gydol oes pan oedd yn ddiddordeb

pursuit under the former Conservative Government I agree with you in principle. I heartily endorse your commitment to extending access. It is an interesting idea, and I will take it up with Jane Davidson, the Minister for Education and Lifelong Learning and consider how we can build on the work of further education colleges, like mine at Swansea, and Llandrillo College, in extending access.

lleiafrifol o dan y Llywodraeth Geidwadol flaenorol, cytunaf â chi mewn egwyddor. Rhoddaf gefnogaeth twymgalon i'ch ymrwymiad i ymestyn mynediad. Mae'n syniad diddorol, a byddaf yn ei gyflwyno i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ac yn ystyried sut y gallwn adeiladu ar waith colegau addysg bellach, fel fy un i yn Abertawe, a Choleg Llandrillo, i ehangu mynediad.

Hybu'r Iaith Gymraeg Promoting the Welsh Language

C7 Elin Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr ymrwymiad i hybu'r iaith Gymraeg yn y ddogfen bartneriaeth? (OAQ12064)

Q7 Elin Jones: Will the Minister make a statement on the commitment to promote the Welsh language in the partnership document? (OAQ12064)

Andrew Davies: The partnership Government is following through its commitment for equal recognition for both languages in Wales. A language scheme is being developed for the National Assembly that will set out how this will be achieved in all our dealings with the public in Wales. The Assembly Cabinet will bring forward subordinate legislation next month to bring 25 additional bodies under the Welsh Language Act 1993. Additional resources for the Welsh Language Board are enabling it to increase its investment in the *mentrau iaith* language initiatives by 50 per cent. It will also allow the Board to extend to all of Wales over three years, its pioneering project on language transference in the family.

Andrew Davies: Mae'r Llywodraeth bartneriaeth yn dilyn ei hymrwymiad i gydnabyddiaeth gyfartal ar gyfer y ddwy iaith yng Nghymru. Datblygir cynllun iaith ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol a fydd yn nodi sut y cyflawnir hyn yn ein hymwneud â'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd Cabinet y Cynulliad yn cyflwyno is-ddeddfwriaeth fis nesaf i ddod â 25 o gyrff eraill o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae adnoddau ychwanegol ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei alluogi i gynyddu ei fuddsoddiad mewn mentrau iaith 50 y cant. Bydd hefyd yn galluogi'r Bwrdd i ymestyn ei brosiect arloesol o drosglwyddo iaith yn y teulu i bob rhan o Gymru o fewn tair blynedd.

Elin Jones: Yn y ddogfen bartneriaeth, dim ond un cyfeiriad polisi a geir at y Gymraeg, a hynny dan ddiwylliant a chwaraeon. A ydych yn cydnabod y dylai fod gan eich Llywodraeth bolisïau at hybu'r Gymraeg ar draws yr holl ystod polisïau—datblygu economaidd, tai, addysg, ac yn y blaen—os yw'r Gymraeg i barhau i fod yn iaith gymunedol, fyw ac i dyfu ar hyd a lled Cymru?

Elin Jones: In the partnership document, there is only one policy reference to the Welsh language, under culture and sport. Do you acknowledge that your Government should have policies in place for promoting Welsh across the whole range of policies—economic development, housing, education, and so on—if Welsh is to continue as a living, community language and to grow across Wales?

Andrew Davies: I have already outlined that the Cabinet and administration have a major commitment to promoting the Welsh language, and to ensuring equal status for both languages. The partnership Government has put money behind the commitment to provide adequate support to local

Andrew Davies: Yr wyf eisoes wedi amlinellu ymrwymiad y Cynulliad a'r weinyddiaeth i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, ac i sicrhau statws cyfartal i'r ddwy iaith. Mae'r Llywodraeth bartneriaeth wedi rhoi arian y tu ôl i'r ymrwymiad i ddarparu cymorth digonol i gyrff lleol. Fel y dywedais yn awr, gyda

organisations. As I just said, with a 50 per cent increase in funding, the Welsh Language Board will allocate an extra £228,000 to the local *mentrau iaith* this year. An additional £140,000 will be allocated in 2001-02, which will help to secure the language for the next generation through the project on the transference of language in families.

Eleanor Burnham: Pa waith mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod y sector preifat, Awdurdod Datblygu Cymru a busnesau yn gyffredinol yn hybu'r Gymraeg?

Andrew Davies: Wherever possible we encourage the private sector to adopt its own language schemes. I understand that the five public utilities have adopted Welsh language schemes. As I mentioned earlier, we have a major commitment in terms of the Assembly and public bodies. In terms of the private sector, we believe that encouragement rather than legislation is the way forward.

9:25 a.m.

David Davies: A gytunwch ei fod yn anodd datblygu'r iaith Gymraeg oherwydd y nifer fach o ffanatigïaid sydd yn credu bod bod o blaid y Gymraeg yn golygu'r un peth â bod yn erbyn y Saesneg? Dylem ni, fel Aelodau'r Cynulliad, wneud popeth posibl i ymwrthod â hiliaeth a chenedlaetholdeb gwrth-Saesneg.

Andrew Davies: I never thought that I would live to see the day when I agreed with David Davies. However, on this occasion, I am more than happy to support David's condemnation of xenophobia and anti-English feelings wherever they arise. Wales and the Assembly must have an international outlook. Xenophobia has no place in that vision.

The Presiding Officer: Thank you for the time being, Minister. I understand that we will see you later.

chynnydd mewn ariannu o 50 y cant, bydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn dyrannu £228,000 yn ychwanegol i'r mentrau iaith lleol eleni. Rhoddir £140,000 yn ychwanegol yn 2001-02, a fydd yn helpu i roi sicrwydd i'r iaith ar gyfer y genhedlaeth nesaf drwy'r prosiect trosglwyddo iaith yn y teulu.

Eleanor Burnham: What action is the Minister taking to ensure that the private sector, the Welsh Development Agency and businesses in general promote the Welsh language?

Andrew Davies: Anogwn y sector preifat i fabwysiadu ei gynlluniau iaith ei hun pan fo hynny'n bosibl. Deallaf fod y pum cyfleustod cyhoeddus wedi mabwysiadu cynlluniau iaith Gymraeg. Fel y soniais yn gynharach, mae gennym ymrwymiad pwysig yn nhermau'r Cynulliad a chyrrff cyhoeddus. Yn nhermau'r sector preifat, credwn mai anogaeth yn hytrach na deddfwriaeth yw'r ffordd ymlaen.

David Davies: Do you agree that it is difficult to develop the Welsh language because of a small number of fanatics who believe that being pro-Welsh language is the same as being anti-English? We, as Assembly Members, should do everything within our power to renounce racism and anti-English nationalism.

Andrew Davies: Ni feddyliais erioed y byddwn yn byw i weld y dydd pan gytunwn â David Davies. Ar yr achlysur hwn, fodd bynnag, yr wyf yn fwy na bodlon cefnogi condemniad David o senoffobia a theimladau gwrth-Seisnig pan fyddant yn codi. Rhaid i Gymru a'r Cynulliad gael ymagwedd ryngwladol. Nid oes lle i senoffobia yn y weledigaeth honno.

Y Llywydd: Diolch i chi am y tro, Drefnydd. Deallaf y byddwn yn eich gweld yn ddiweddarach.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig Questions to the Minister for Rural Affairs

The Presiding Officer: Question 1 has been **Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 1 yn ôl.

withdrawn.

Codi'r Statws Ardal Heintiedig yng Ngogledd Cymru Lifting the Infected Area Status for North Wales

Q2 Alison Halford: Will the Minister make a statement about the infected area status being lifted for north Wales? (OAQ12047)

C2 Alison Halford: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch codi'r statws ardal heintiedig yng ngogledd Cymru? (OAQ12047)

The Minister for Rural Affairs (Carwyn Jones): The infected area status on Anglesey and northern Gwynedd was lifted on 2 June. These areas, together with the rest of north Wales, have at risk area status.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Carwyn Jones): Codwyd y statws ardal heintiedig ar Ynys Môn ac yng ngogledd Gwynedd ar 2 Mehefin. Mae statws ardal mewn perygl i'r ardaloedd hyn, a gweddill gogledd Cymru.

Alison Halford: In light of the recent sad events brought about by the foot and mouth disease disaster, do you think that the Assembly is doing enough to support farmers and their families during this stressful and worrying period?

Alison Halford: O ystyried y digwyddiadau trist diweddar a achoswyd gan drychineb clwy'r traed a'r genau, a gredwch fod y Cynulliad yn gwneud digon i gynorthwyo ffermwyr a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod hwn o straen a phryder?

Carwyn Jones: During the course of the outbreak, 29 information points were established throughout the whole of Wales. Many of those were local, for example in Churchstoke and Montgomery, so that people could access information in that way. In addition to those information points, the National Assembly gave £215,000 towards a helpline in Wrexham, which people could access. I welcome the work that has been done by various voluntary organisations towards alleviating rural stress.

Carwyn Jones: Yn ystod cyfnod yr afiechyd, sefydlwyd 29 o fannau gwybodaeth drwy Gymru gyfan. Yr oedd llawer o'r rhain yn lleol, er enghraifft yn yr Ystog a Threfaldwyn, fel y gallai pobl gael gafael ar wybodaeth felly. Yn ogystal â'r manau gwybodaeth hynny, rhoddodd y Cynulliad Cenedlaethol £215,000 tuag at linell gymorth yn Wrecsam, y gallai pobl gael mynediad iddi. Croesawaf y gwaith a wnaethpwyd gan sefydliadau gwirfoddol amrywiol tuag at leddfu straen gwledig.

On the communication of information, we set up a helpline in Cathays Park so that people could receive information. The Ministry of Agriculture, Fisheries and Food veterinarians also have their own helpline in Llanishen. I encourage people to ring these helplines, particularly the Assembly's helpline in Wrexham, to discuss whatever problems that they have and receive the proper assistance.

O ran cyfathrebu gwybodaeth, sefydlwyd llinell gymorth ym Mharc Cathays fel gallai pobl gael gwybodaeth. Mae gan filfeddygon y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd hefyd eu llinell gymorth eu hunain yn Llanisien. Anogaf bobl i ffonio'r llinellau cymorth hyn, yn enwedig llinell gymorth y Cynulliad yn Wrecsam, i drafod pa broblemau bynnag sydd ganddynt a chael y cymorth priodol.

Elin Jones: Un o'r rhwystrau a gododd yn ystod yr argyfwng hwn oedd symud yr anifeiliaid i ardaloedd glân, fel Dyfed. A wnewch chi gadarnhau'r hyn a drafodasoch yn y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu

Elin Jones: One of the obstacles that arose during this crisis was the movement of animals into clean areas, such as Dyfed. Will you confirm what you discussed in the Agriculture and Rural Development

Gwledig ddoe, sef y bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud erbyn diwedd yr wythnos i sicrhau y gellir cael trwyddedau i symud anifeiliaid i ardaloedd glân? Gofynnaf yn benodol am symud anifeiliaid o dde Meirionnydd i ogledd Ceredigion, gan i'r rhwystr effeithio ar nifer o ffermwyr yn fy etholaeth i ac, yr wyf yn siŵr, yn etholaeth y Llywydd.

Carwyn Jones: Fel y dywedais, gobeithiaf y bydd datganiad erbyn diwedd yr wythnos. Rhaid cael cytundeb ar y datganiad rhyngof i ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Yr wyf yn obeithiol y byddwn yn symud ar y mater hwn erbyn diwedd yr wythnos. Mae'r sefyllfa'r un peth, felly, a deallaf y problemau sydd yn wynebu pobl Ceredigion a Meirionnydd.

Alun Pugh: Will the Minister tell the Assembly how many cases of foot and mouth disease have been caused in Wales, or anywhere else in the UK, by the activities of climbers and walkers? I know several farmers who are concerned about that.

Carwyn Jones: None, as far as we are aware.

Peter Rogers: Do you agree that, if you had read the Northumberland report on the foot and mouth disease outbreak of 1967, the lifting of the infected area status in north Wales could have been done much sooner? It would also have saved the Exchequer millions of pounds and would not have left the north Wales agriculture industry in tatters. I refer particularly to the speed of slaughter, burial of carcasses, the closing of roads, the use of the army and better communication.

Carwyn Jones: We must remember that the outbreak of foot and mouth disease in 1967 was fundamentally different to the current outbreak. It was more regionalised and less virulent. Many people were affected then, however, the spread of the disease was entirely different. The Northumberland report suggested that carcasses should have been buried on farms. That is not a viable option in 2001. It was possible in 1967; if there was no obvious watercourse near land, carcasses could be buried there. We have not buried any cattle this time in Wales. There are a

Committee yesterday, that there will be an announcement before the end of the week to ensure that licences will be available so that animals can be moved into clean areas? I ask specifically about animal movements from south Meirionnydd to north Ceredigion, as that obstacle has affected several farmers in my constituency and, I am sure, in the Presiding Officer's constituency.

Carwyn Jones: As I said, I hope that a statement can be made by the end of the week. The statement must be agreed between the Department for the Environment, Food and Rural Affairs and myself. I am hopeful that we can move on this matter by the end of the week. Therefore, the situation remains the same, and I understand the problems facing people in Ceredigion and Meirionnydd.

Alun Pugh: A wnaiff y Gweinidog ddweud wrth y Cynulliad sawl achos o glwy'r traed a'r genau a gafwyd yng Nghymru, neu unrhyw le arall yn y DU, oherwydd gweithgareddau dringwyr a cherddwyr? Gwn fod nifer o ffermwyr yn poeni am hynny.

Carwyn Jones: Dim, hyd y gwyddom ni.

Peter Rogers: A gytunwch, os byddech wedi darllen adroddiad Northumberland ar argyfwng clwy'r traed a'r genau yn 1967, y gellid bod wedi codi'r statws ardal heintiedig yng ngogledd Cymru lawer ynghynt? Byddai hefyd wedi arbed miliynau o bunnoedd i'r Trysorlys ac ni fyddai wedi gadael diwydiant amaethyddol gogledd Cymru yn y fath gyflwr. Cyfeiriaf yn arbennig at gyflymder y lladd, claddu'r carcasau, cau ffyrdd, defnyddio'r fyddin a gwell cyfathrebu.

Carwyn Jones: Rhaid inni gofio fod argyfwng clwy'r traed a'r genau yn 1967 yn sylfaenol wahanol i'r argyfwng presennol. Yr oedd yn fwy rhanbarthol ac yn llai ffyrnig. Effeithiwyd ar lawer o bobl bryd hynny, ond yr oedd lledaeniad y clwyf yn hollol wahanol. Awgrymodd adroddiad Northumberland y dylid bod wedi claddu carcasau ar ffermydd. Nid yw hynny'n opsiwn ymarferol yn 2001. Yr oedd yn bosibl yn 1967; os nad oedd dyfrffordd amlwg ger y tir, gellid claddu carcasau yno. Nid ydym wedi claddu unrhyw wartheg y tro hwn yng Nghymru. Mae nifer o

number of issues that concern cattle, particularly those over 30-months-old regarding BSE. In relation to sheep, we have disposed of them as quickly as possible. It is not simply a matter of disposing of carcasses in the ground as was done in 1967. That disposal method is no longer acceptable nor would it be environmentally friendly. We are trying to take on board the best lessons of 1967. However, we must bear in mind that the current outbreak is fundamentally different and that the disposal methods are also different.

faterion sydd yn gysylltiedig â gwartheg, yn enwedig y rhai hynny dros 30 mis oed yn ymwneud â BSE. O ran defaid, yr ydym wedi eu gwaredu cyn gynted â phosibl. Nid dim ond mater o waredu carcasau yn y ddaear ydyw fel y gwnaethpwyd yn 1967. Nid yw'r dull hwnnw o waredu yn dderbyniol bellach ac ni fyddai'n gyfeillgar i'r amgylchedd. Yr ydym yn ceisio dysgu'r gwersi gorau o 1967. Fodd bynnag, rhaid inni gofio fod yr argyfwng presennol yn sylfaenol wahanol a bod y dulliau gwaredu hefyd yn wahanol.

Trafodaethau gyda Dairy Crest Talks with Dairy Crest

Q3 Owen John Thomas: Has the Minister had further talks with Dairy Crest with a view to keeping its milk bottling plant in Wales open? (OAQ12055)

C3 Owen John Thomas: A yw'r Gweinidog wedi cael mwy o drafodaethau gyda chwmni Dairy Crest gyda golwg ar gadw ei ganolfan botelu llaeth yng Nghymru ar agor? (OAQ12055)

Carwyn Jones: I have regular talks with Dairy Crest on the future of its operational plants in Wales. It has confirmed that the bottling plant in Marshfield will close as scheduled. In the meantime, it will continue to operate in an appropriate way to ensure that the quality of products and level of service to customers is maintained. I have had discussions with Dairy Crest but it has determined the course it wishes to take.

Carwyn Jones: Caf drafodaethau rheolaidd gyda chwmni Dairy Crest ar ddyfodol ei ganolfan weithredol yng Nghymru. Mae wedi cadarnhau y bydd y ganolfan botelu llaeth ym Maerun yn cau yn ôl y bwriad. Yn y cyfamser, bydd yn parhau i weithredu mewn modd priodol i sicrhau y caiff ansawdd y cynnyrch a lefel y gwasanaeth i gwsmeriaid ei gynnal. Cefais drafodaethau gyda chwmni Dairy Crest ond nid yw wedi pennu'r llwybr y bwriada ei gymryd.

Owen John Thomas: Apart from the fact that there are nearly 250 jobs at stake, the closure decision smacks of a desire to move processing away from the source of production and promote the interests of shareholders rather than farmers. Milk is one of our major agricultural products. Most supermarkets are responding to demand by introducing Welsh labelling for milk. Is there anything that this Assembly can do to safeguard the jobs in Marshfield and at the same time promote one of our staple products?

Owen John Thomas: Ar wahân i'r ffaith fod bron i 250 o swyddi yn y fantol, mae'r penderfyniad i gau yn awgrymu dyhead i symud prosesau oddi wrth ffynhonnell y cynhyrchu a hybu buddiannau rhanddeiliaid yn hytrach na ffermwyr. Mae llaeth yn un o'n prif gynnyrch amaethyddol. Mae'r rhan fwyaf o'r archfarchnadoedd yn ymateb i'r galw drwy gyflwyno labeli Cymreig ar gyfer llaeth. A oes unrhyw beth y gall y Cynulliad hwn ei wneud i ddiogelu'r swyddi ym Maerun ac ar yr un pryd i hybu un o'n prif gynnyrch?

Carwyn Jones: We all regret any decision that results in job losses. However, we must bear in mind that these are partially balanced, though not entirely of course, by the expansion of Dairy Crest's operation in Wrexham, which means another 175 jobs.

Carwyn Jones: Mae pawb ohonom yn gresynu at unrhyw benderfyniad sydd yn arwain at gollu swyddi. Fodd bynnag, rhaid inni gofio y caiff y rhain eu cydbwyso'n rhannol, ond, nid yn gyfan gwbl wrth gwrs, drwy ymestyn gweithrediad Dairy Crest yn

Marshfield is a bottling plant not a processing plant. While none of us welcome the closure of any plant in Wales, I remain hopeful that processing can be expanded throughout Wales in the future.

Rosemary Butler: I thank you, Carwyn, for the efforts you have made to try to keep this bottling plant open and for keeping me informed about what is happening in my constituency. I think that the workers have accepted that the factory will close. However, they are concerned about training and assistance to ensure that they are well qualified to take up any other jobs that might be on offer, once this bottling factory has closed. When you next meet Dairy Crest, will you raise this issue?

Carwyn Jones: Yes. Since the closure announcement, a number of organisations have met Dairy Crest, including ELWa, the unitary authorities, and the Welsh Development Agency in order to address future employment and retraining. Through its agri-food co-ordinator and account manager, the WDA's south-east division has considered progressing a programme of events in Marshfield so that staff can identify any support that the public sector can give. That process is ongoing.

William Graham: It has been reported that Dairy Crest will relocate some of its units from Marshfield to Gloucestershire. Did you or any other Assembly Minister suggest alternative sites to keep these jobs in Wales?

Carwyn Jones: As far as Marshfield is concerned, I have met with Dairy Crest on a number of occasions and have presented the case for keeping the plant open. Dairy Crest wants to close the plant and it has made that point publicly. I want to see the future development of processing within Wales and that is something that I will continue to pursue, not only with Dairy Crest, but also with anyone who comes forward with appropriate plans.

Wrecsam, sydd yn golygu 175 yn fwy o swyddi. Canolfan botelu nid canolfan brosesu yw Maerun. Er nad oes yr un ohonom yn croesawu cau unrhyw waith yng Nghymru, yr wyf yn parhau i fod yn obeithiol y gellir ymestyn y gwaith prosesu ledled Cymru yn y dyfodol.

Rosemary Butler: Diolch, Carwyn, am yr ymdrechion a wnaethoch i geisio cadw'r ganolfan botelu hon ar agor ac am roi'r wybodaeth ddiweddaraf imi ar yr hyn sydd yn digwydd yn fy etholaeth. Credaf fod y gweithwyr wedi derbyn y bydd y ffatri'n cau. Fodd bynnag, maent yn pryderu am hyfforddiant a chymorth i sicrhau eu bod yn gymwys i gymryd unrhyw swyddi eraill a allai gael eu cynnig, unwaith y bydd y ffatri botelu wedi cau. Pan fyddwch yn cwrdd â chwmni Dairy Crest nesaf, a wnewch godi'r mater?

Carwyn Jones: Gwnaf. Ers y cyhoeddiad y bydd y gwaith yn cau, mae nifer o sefydliadau wedi cwrdd â chwmni Dairy Crest, yn cynnwys ELWa, yr awdurdodau unedol, ac Awdurdod Datblygu Cymru er mwyn mynd i'r afael â chyflogaeth ac ailhyfforddi yn y dyfodol. Drwy ei gydlynnydd bwyd-amaeth a'i reolwr cyfrifo, mae is-adran de-ddwyrain y WDA wedi ystyried cynnal rhaglen o ddigwyddiadau ym Maerun fel y gall staff gydnabod unrhyw gymorth y gall y sector cyhoeddus ei roi. Mae'r broses honno'n parhau.

William Graham: Adroddwyd y bydd cwmni Dairy Crest yn ad-leoli rhai o'i unedau o Maerun i Swydd Gaerloyw. A wnaethoch chi neu unrhyw Weinidog arall o'r Cynulliad awgrymu safleoedd amgen i gadw'r swyddi hyn yng Nghymru?

Carwyn Jones: O ran Maerun, yr wyf wedi cwrdd â Dairy Crest ar sawl achlysur ac wedi cyflwyno'r achos dros gadw'r gwaith ar agor. Mae Dairy Crest am gau'r ganolfan ac mae wedi cyhoeddi hynny. Yr wyf am weld prosesu'n cael ei ddatblygu yn y dyfodol yng Nghymru ac mae hynny'n rhywbeth y byddaf yn parhau i geisio ei gael, nid yn unig gyda Dairy Crest, ond hefyd gydag unrhyw un fydd yn cyflwyno cynlluniau priodol.

Cryfhau Ffermio Cymunedol yng Nghymru Strengthened Community Farming in Wales

C4 Cynog Dafis: A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae'n bwriadu hybu adfywiad economaidd a dyfodol cynaliadwy er mwyn cryfhau'r cymunedau sy'n ffermio yng Nghymru? (OAQ12109)

Q4 Cynog Dafis: Will the Minister outline how he proposes to promote economic renewal and a sustainable future for strengthened communities' farming in Wales? (OAQ12109)

Carwyn Jones: Mae'r Cynulliad wedi cyhoeddi cynlluniau mewn perthynas ag Amcan 1 a'r cynllun datblygu gwledig i sicrhau buddsoddiad ym musnesau gwledig Cymru ac i helpu cymunedau gwledig i dyfu yn y dyfodol. O ran amaeth a bwyd, gweithredir mesurau ar hyn o bryd er mwyn cryfhau prosesu ac yn y blaen drwy gynlluniau gweithredu'r WDA o dan y strategaeth bwyd-amaeth yn ogystal â dogfennau eraill a gyhoeddwyd. Gobeithiaf hefyd y byddaf yn gallu datgan ym mis Gorffennaf pa geisiadau ar gyfer LEADER + a oedd yn llwyddiannus.

Carwyn Jones: The Assembly has published plans in relation to Objective 1 and the rural development plan to secure investment in rural businesses in Wales, and to help rural communities to grow in future. As regards agriculture and food, measures are currently being implemented to strengthen processing and so on through the WDA action plans under the agri-food strategy as well as other documents that were published. I also hope that I will be able to announce in July which applications for LEADER + were successful.

9:35 a.m

Y mae nifer o gynlluniau eraill ar y gweill. Bydd y bartneriaeth wledig yn cyfarfod yng Ngorffennaf er mwyn ystyried problem cydbwysedd oedran mewn cymunedau gwledig. Yr oedd y bartneriaeth yn awyddus i barhau â'r thema honno. Y mae grŵp gorchwyl a gorffen y bartneriaeth wedi bod yn cyfarfod a chynhelir ei gyfarfod olaf yng Ngorffennaf er mwyn datblygu cynllun i adfywio'r ardaloedd gwledig ar ôl argyfwng clwy'r traed a genau. Yn ogystal â hynny, ymhen pythefnos bydd grŵp Dyfodol Ffermio yn cyfarfod am y tro olaf er mwyn creu gweledigaeth ar gyfer dyfodol ffermio.

Many other plans are in the pipeline. The rural partnership will meet in July to consider the problem of age balance in rural communities. The partnership was keen to continue with that theme. The partnership's task and finish group has been meeting and will meet for the last time in July to develop a scheme to revitalise the rural communities after the foot and mouth disease crisis. Also, the Farming Futures group will meet for the last time in two weeks' time to create a vision for the future of farming.

Cynog Dafis: Gwerthfawrogaf y gwaith a wneir. Pa bryd y byddwch yn datgan casgliadau'r grŵp a sefydlwyd ar gyfer mynd i'r afael â chlwy'r traed a genau? A fyddwch yn gwneud hynny cyn toriad yr haf? Pa adnoddau a fydd ar gael er mwyn gweithredu argymhellion y grŵp a pha gymorth ychwanegol a fydd yn dod o Drysorlys y Deyrnas Gyfunol er mwyn gwneud unrhyw waith angenrheidiol?

Cynog Dafis: I appreciate the work that is being undertaken. When will you announce the conclusions of the group that was set up to tackle foot and mouth disease? Will you do so before the summer recess? What resources will be made available to implement the group's recommendations and what additional assistance will come from the UK Treasury to undertake any necessary work?

Carwyn Jones: Bydd y grŵp yn cyfarfod ar 24 Gorffennaf. Yr wyf yn bwriadu cyhoeddi

Carwyn Jones: The group will meet on 24 July. I intend to publish its plan on that date

ei gynllun ar y dyddiad hwnnw, neu'n sicr cyn mis Awst. Byddwn wedyn yn ystyried pa adnoddau y bydd eu hangen arnom er mwyn gweithredu'r cynllun hwnnw.

Mick Bates: I am sure that you agree that foot and mouth disease has caused a great deal of stress in our farming communities. Do you think that our farming communities receive sufficient support given that there have been three suicides in my constituency alone? I have figures indicating that the suicide rate in Welsh farming communities has increased, whereas in England it has decreased.

Carwyn Jones: As I said last week, it is not wise to investigate why people tragically take their own lives. Suicide has a tragic effect on families. I have seen it happen. I was quite closely connected to a situation in which someone chose to take this route, which was a tragedy to the family concerned. It is difficult to understand, after the event, why people do such things. Nevertheless, we should extend our sympathies to the families involved.

Clearly, things are difficult for farmers in Wales—that is possibly an understatement. However, many support mechanisms are in place. Help, support and advice is available at the end of a telephone line. I urge people to phone the Samaritans, the ARC—Addington Fund, the Assembly's helpline or whoever they wish in order to share their concerns.

or certainly before August. We will then consider what resources we will need to implement that plan.

Mick Bates: Yr wyf yn siŵr eich bod yn cytuno fod clwy'r traed a'r genau wedi achosi llawer o straen yn ein cymunedau ffermio. A gredwch fod ein cymunedau ffermio'n derbyn digon o gymorth o ystyried y cafwyd tri hunanladdiad yn fy etholaeth i yn unig? Mae gennyf ffigurau'n nodi fod y gyfradd hunanladdiad mewn cymunedau ffermio Cymru wedi cynyddu, tra ei bod wedi gostwng yn Lloegr.

Carwyn Jones: Fel y dywedais yr wythnos diwethaf, nid yw'n ddoeth ymchwilio i baham bod pobl, yn drasig, yn lladd eu hunain. Mae hunanladdiad yn cael effaith drychinebus ar deuluoedd. Yr wyf wedi ei weld yn digwydd. Yr oedd gennyf gysylltiad cymharol agos â sefyllfa lle dewisodd rhywun y llwybr hwn, a oedd yn drasiedi i'r teulu dan sylw. Mae'n anodd deall, wedi'r digwyddiad, pam fod pobl yn gwneud pethau o'r fath. Er hynny, dylem estyn ein cydymdeimlad i'r teuluoedd dan sylw.

Yn amlwg, mae pethau'n anodd ar ffermwyr yng Nghymru a dweud y lleiaf. Fodd bynnag, mae llawer o brosesau cymorth mewn grym. Mae cymorth, cefnogaeth a chynghor ar gael ar ben arall y ffôn. Anogaf bobl i ffonio'r Samariaid, ARC—Cronfa Addington, llinell gymorth y Cynulliad neu bwy bynnag y dymunant er mwyn rhannu eu pryderon.

Helpu Ffermydd Bach yng Nghymru Assisting Small Farms in Wales

C5 Cynog Dafis: Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi eu cymryd i helpu ffermydd bach yng Nghymru? (OAQ12107)

Carwyn Jones: Y mae'r grŵp Dyfodol Ffermio yn ystyried fframwaith ar gyfeiriad tymor hir y diwydiant. Ein blaenoriaeth yw darganfod ffordd i hybu'r ffermydd teulu traddodiadol yng Nghymru. Y mae gennym ddewis ar ddyfodol ffermio. Gallwn eistedd yn ôl a gwyllo ffermydd yn tyfu'n fwy a symud tuag at system o ransio neu gallwn ystyried ffyrdd o hybu ffermydd teulu gan mai hwy yw asgwrn cefn ein cymunedau

Q5 Cynog Dafis: What actions has the Minister taken to assist small farms in Wales? (OAQ12107)

Carwyn Jones: The Farming Futures group is considering a framework for the long-term direction of the industry. Our priority is to find a way of promoting traditional family farms in Wales. We have a choice on the future of farming. We can sit back and watch farms growing larger and move towards a system of ranching or we can consider ways of promoting family farms because they are the backbone of our rural communities as

gwledig yn ogystal â diwylliant ac iaith Cymru.

Cynog Dafis: A dderbyniwch fod gan ffermydd bach rhan amser rôl bwysig i'w chwarae yn y dyfodol os yw cefn gwlad i ffynnu ac i'r boblogaeth aros yno? A gytunwch fod angen newid rheolau cynllunio i alluogi codi tai newydd yng nghefn gwlad ar gyfer ffermwyr rhan amser sydd hefyd yn creu incwm drwy ffynonellau eraill? A ydych yn fodlon trafod y mater hwn gyda'r Gweinidog sydd yn gyfrifol am gynllunio?

Carwyn Jones: Os mai'r dewis yw gadael ffermio a chefn gwlad neu ffermio rhan amser a gwneud rhywbeth arall, yna wrth gwrs, byddai'n well gennyf weld rhywun yn ffermio'n rhan amser. Ar y mater o godi tai, os ydych, Cynog, yn golygu codi tai fforddiadwy sydd yn galluogi pobl i fyw yn yr ardaloedd gwledig, yna mae'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ystyried y mater hwnnw ar hyn o bryd. Yr wyf yn sicr nad oedd y cwestiwn yn cyfeirio at godi tai er mwyn eu gwerthu a chodi arian i'r ffermwyr. Os mai bwriad y cwestiwn oedd holi am ffyrdd o ddarparu tai sydd yn ddigon rhad i alluogi pobl leol i fyw yn yr ardaloedd gwledig, yna, yr wyf yn cydymdeimlo â hynny. Mae Edwina Hart yn ystyried y mater ar hyn o bryd.

Kirsty Williams: Do you agree that, during the foot and mouth disease crisis, it was important that farmers were able to get their stock to market so that they relied heavily on the creation of stock collection centres? If this is so, will you engage in urgent discussions with the Department of Environment, Food and Rural Affairs about its intransigent attitude towards awarding a licence to Knighton market and Brecon market, the latter of which is the most modern market in Wales?

Carwyn Jones: There are six collection centres in Wales; there are none in England. You raised this matter with me privately Kirsty and, as officials promised yesterday, I will consider the case individually and we will provide you with information. Clearly, we want to encourage as many collection centres as possible.

well as the language and culture of Wales.

Cynog Dafis: Do you accept that small part-time farms have an important part to play in the future, if the countryside is to prosper and for its population to remain there? Do you agree that planning regulations need to be changed so that new houses can be built in rural areas for part-time farmers who also create income from other sources? Are you prepared to discuss this matter with the Minister responsible for planning?

Carwyn Jones: If the choice is between leaving farming and the countryside and farming part-time while doing something else, then of course, we would prefer to see people farming part time. On the issue of house building, if you mean, Cynog, building affordable houses to enable people to live in rural areas, the Minister for Finance, Local Government and Communities is considering that matter at the moment. I am sure that the question was not about building houses for sale in order to make money for farmers. If the aim of the question was to ask about ways of providing houses that are cheap enough to enable local people to continue living in those areas, then I have sympathy for that. Edwina Hart is considering the matter at the moment.

Kirsty Williams: A gytunwch, yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau, ei bod yn bwysig fod ffermwyr yn gallu mynd â'u stoc i'r farchnad fel eu bod yn dibynnu'n fawr ar greu canolfannau casglu stoc? Os felly, a gewch drafodaethau brys gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ynghylch ei agwedd cyndyn tuag at ddyfarnu trwydded i farchnad Trefyclo a marchnad Aberhonddu, a'r ail yn farchnad fwyaf modern Cymru?

Carwyn Jones: Ceir chwe chanolfan gasglu yng Nghymru; nid oes un yn Lloegr. Codasoch y mater hwn gyda mi yn breifat Kirsty ac, fel yr addawodd swyddogion ddoe, byddaf yn ystyried yr achos yn unigol a byddwn yn darparu'r wybodaeth ichi. Yn amlwg, yr ydym am annog cymaint o ganolfannau casglu â phosibl.

Nick Bourne: You spoke earlier about looking at the age profile of farmers, which is vital. I agree with you about the importance of the family farm in Wales. One way of securing the future of small farms is to encourage young entrants and to facilitate earlier retirement. Is that your policy, and if so how are you pursuing that?

Carwyn Jones: A retirement scheme is expensive and many of the schemes implemented in Europe have required for farms either to be merged or be taken out of production, which we do not want to encourage. Yesterday, the Agriculture and Rural Development Committee considered a potential new entrants' package. It was a preliminary paper, which will be brought back as a final plan to the Committee in order to find ways to help new entrants. I have always been impressed by the dynamism of younger people involved in farming and we must ensure that that dynamism is translated into help and support. That is what the new entrants' scheme is designed to achieve.

Nick Bourne: Soniasoch yn gynharach am edrych ar broffil oedran ffermwyr, sydd yn hanfodol. Cytunaf â chi ynghylch pwysigrwydd y fferm deuluol yng Nghymru. Un ffordd o ddiogelu dyfodol ffermydd bach yw annog newydd-ddyfodiaid ifanc a chymhwyso ymddeoliad cynharach. A yw hynny'n bolisi gennych, ac os felly sut ydych chi'n mynd i'r afael â hynny?

Carwyn Jones: Mae cynllun ymddeoliad yn ddud ac mae llawer o'r cynlluniau a weithredir yn Ewrop wedi gofyn naill ai i ffermydd gael eu huno neu ddileu eu cynhyrchiant, rhywbeth nad ydym am ei annog. Ddoe, ystyriodd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig becyn posibl i newydd-ddyfodiaid. Papur rhagbrofol ydoedd, a fydd yn dychwelyd fel cynllun terfynol i'r Pwyllgor er mwyn canfod ffyrdd o helpu newydd-ddyfodiaid. Yr wyf wastad wedi edmygu egni pobl ifanc sydd yn cymryd rhan mewn ffermio a rhaid inni sicrhau y caiff yr egni hwnnw ei drawsnewid yn gymorth a chefnogaeth. Dyna'r hyn y mae cynllun y newydd-ddyfodiaid yn ceisio ei gyflawni.

Ymchwil i Nifer yr Ŵyn a Laddwyd gan Lwynogod Research into the Number of Lambs Taken by Foxes

Q6 William Graham: Will the Minister make a statement on any research that has been undertaken into the number of lambs taken by foxes during the suspension of hunting because of the foot and mouth disease crisis? (OAQ12099)

Carwyn Jones: I am not aware that such research has taken place. I would not want to impose an additional financial burden on the National Assembly in terms of carrying out such a survey.

William Graham: The Farmers' Union of Wales has reported a significant increase in the numbers of lambs killed by foxes during the suspension of hunting. Will you ensure that this fact is raised in your discussions with the United Kingdom Government?

Carwyn Jones: Only one source claims that.

C6 William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw ymchwil a wnaethpwyd i nifer yr ŵyn a laddwyd gan lwynogod yn ystod cyfnod y gwaharddiad ar hela oherwydd argyfwng clwy'r traed a'r genau? (OAQ12099)

Carwyn Jones: Nid wyf yn ymwybodol y cynhaliwyd ymchwil o'r fath. Ni fyddwn am roi baich ariannol ychwanegol ar y Cynulliad Cenedlaethol o ran cynnal arolwg o'r fath.

William Graham: Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi adrodd cynnydd sylweddol yn nifer yr ŵyn a laddwyd gan lwynogod yn ystod cyfnod y gwaharddiad ar hela. A wnewch chi sicrhau y caiff y ffaith hon ei chodi yn eich trafodaethau â Llywodraeth y Deyrnas Unedig?

Carwyn Jones: Dim ond un ffynhonnell

However, at present, there is no evidence to contradict it. I would like to see a survey carried out. It is not for the Assembly to carry out research; we do not have the powers to take action on fox hunting. Therefore, I would be reluctant to use our money to fund a survey in order to control a matter that we have no control over. Nevertheless, I will pass on the suggestion to the Department of Environment, Food and Rural Affairs, which may want to consider funding such a survey to see whether the claims are correct or not.

sydd yn honni hynny. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, ni cheir tystiolaeth i wrth-ddweud hynny. Hoffwn weld arolwg yn cael ei chynnal. Nid lle'r Cynulliad yw gwneud gwaith ymchwil; nid oes gennym y pwerau i weithredu ar hela llwynogod. Felly, byddwn yn amharod i ddefnyddio ein harian i ariannu arolwg er mwyn rheoli mater nad oes gennym reolaeth drosto. Er hynny, byddaf yn trosglwyddo'r awgrym i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, a allai fod am ystyried ariannu arolwg o'r fath i weld a yw'r honiadau'n gywir ai peidio.

Cwestiynau i'r Trefnydd Questions to the Minister for Assembly Business

Y Llywydd: Trosglwyddwyd cwestiwn 1 i'w ateb yn ysgrifenedig. Tynnwyd cwestiwn 2 a chwestiwn 3 yn ôl.

The Presiding Officer: Question 1 has been transferred for written answer. Questions 2 and 3 have been withdrawn.

9:45 a.m

Defnydd o'r E-bost a Chyfleusterau'r We gan Fusnesau Bach a Chanolig eu Maint Use of E-mail and Web Facilities by Small and Medium Sized Enterprises

Q4 Alison Halford: What plans does the Minister have to increase the use of e-mail and web facilities by small and medium sized enterprises in north Wales? (OAQ12020)

C4 Alison Halford: Pa gynlluniau sydd gan y Trefnydd i gynyddu'r defnydd o'r e-bost a chyfleusterau'r we gan fusnesau bach a chanolig eu maint yng ngogledd Cymru? (OAQ12020)

Andrew Davies: A large range of projects and programmes are underway and further planned to help encourage small and medium sized enterprises to increase their use of information communications technology. Some of these are large scale and run on an all-Wales basis, such as Wales SME-Business. Some are available in the Objective 1 area, such as the Opportunities Wales, which was formally known as the Better Business Wales project. Many other valuable projects are run on a more local but long-term basis, such as the Business Connect ICT support centres, which I visited recently in Bangor and north-west Wales. Details of all these schemes can be obtained from Business Connect. Raising awareness of the potential benefits of ICT is also vital in helping businesses to become more competitive. The Assembly Cabinet and myself are wholly committed to that.

Andrew Davies: Mae ystod eang o brosiectau a rhaglenni ar waith a mwy wedi'u cynllunio i helpu i annog busnesau bach a chanolig eu maint i gynyddu eu defnydd o dechnoleg gyfathrebu gwybodaeth. Mae rhai o'r rhain ar raddfa fawr a chânt eu rhedeg ar sail Cymru gyfan, fel SME-Fusnes Cymru. Mae rhai ar gael yn ardal Amcan 1, fel Cyfleoedd Cymru, yr arferwyd ei alw yn brosiect Busnes Gwell Cymru. Caiff llawer o'r prosiectau gwerthfawr eraill eu rhedeg ar sail mwy lleol ond hir dymor, fel canolfannau cymorth TGCh Cyswllt Busnes, yr ymwelais â hwy ym Mangor a gogledd-orllewin Cymru yn ddiweddar. Ceir manylion yr holl gynlluniau hyn gan Cyswllt Busnes. Mae codi ymwybyddiaeth o fuddiannau posibl TGCh hefyd yn hanfodol wrth helpu busnesau i ddod yn fwy cystadleuol. Mae Cabinet y Cynulliad a minnau yn llwyr ymrwymedig i hynny.

Alison Halford: What progress has been made on encouraging broadband technology and establishing a supportive commercial gateway for e-business to tackle the 73 per cent of Welsh businesses that have no plans to invest in e-commerce yet?

Andrew Davies: I am committed to bringing the benefits of broadband technology to the whole of Wales. We have already taken a number of important steps in driving this agenda forward. These include supporting projects, such as the strand 6 of the Llwybr/Pathway project, which brings asymmetric digital subscriber line availability to 10 rural towns in Wales. Last year, I launched the MARAN—multi-agency rural area network—project, which is again part of the Llwybr/Pathway project, which brings broadband access to much of mid-Wales. My Cabinet colleagues and I frequently meet companies such as British Telecom and ntl: to encourage them to rollout our broadband services in Wales. That has resulted in the provision of ADSL and cable modem services in some urban areas of Wales. Nevertheless, we realise that some areas of Wales still remain unserved. The Deputy First Minister and Minister for Economic Development and myself will carefully consider the recommendations of the report commissioned by the Welsh Development Agency, of the company analysis, on the policy actions needed to facilitate further broadband rollout in Wales. Affordable broadband availability will also be a key feature of the Assembly's information age strategic framework, which I will present to Plenary on 3 July.

Janet Ryder: What measures are being taken to allow SMEs to access the fibre-optic link that runs along the A55 in north Wales?

Andrew Davies: I thought that Gareth might have asked that as a supplementary. As Members will know, the Assembly owns the fibre-optic cabling on the A55, as well as the M4, which is being used to operate its

Alison Halford: Pa gynnydd a wnaethpwyd i annog technoleg band llydan a sefydlu porth masnachol cynorthwyol ar gyfer e-fusnes i fynd i'r afael â'r 73 y cant o fusnesau yng Nghymru nad oes ganddynt unrhyw gynlluniau i fuddsoddi mewn e-fasnach eto?

Andrew Davies: Yr wyf yn ymrwymedig i gyflwyno buddiannau technoleg band llydan i Gymru gyfan. Yr ydym eisoes wedi cymryd nifer o gamau pwysig wrth weithredu ar yr agenda hon. Ymysg y rhain y mae cefnogi prosiectau, fel llinyn 6 prosiect Llwybr/Pathway, a fydd yn sicrhau argaeledd y llinell danysgrifio ddigidol anghymesur i 10 tref wledig yng Nghymru. Y llynedd, lansiais brosiect MARAN—y rhwydwaith cefn gwlad aml-asiantaeth—sydd eto'n rhan o brosiect Llwybr/Pathway, sydd yn rhoi mynediad band llydan i sawl rhan o ganolbarth Cymru. Mae fy nghyd-Aelodau Cabinet a minnau yn cwrdd yn aml â chwmnïau fel British Telecom ac ntl: i'w hannog i gyflwyno ein gwasanaethau band llydan yng Nghymru. Arweiniodd hynny at ddarparu llinell danysgrifio ddigidol anghymesur a gwasanaethau modem cebl mewn rhai ardaloedd trefol yng Nghymru. Er hynny, sylweddolwn fod rhai ardaloedd o Gymru heb wasanaeth o hyd. Bydd y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a minnau yn ystyried yn ofalus argymhellion yr adroddiad a gomisiynwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru, o ddadansoddiad y cwmni, ar y gweithredoedd polisi sydd eu hangen i hwyluso'r gwaith o gyflwyno band llydan ymhellach yng Nghymru. Bydd sicrhau bod band llydan ar gael am bris y gellir ei fforddio hefyd yn nodwedd allweddol o fframwaith strategol oes wybodaeth y Cynulliad, y byddaf yn ei gyflwyno i'r Cyfarfod Llawn ar 3 Gorffennaf.

Janet Ryder: Pa fesurau a gaiff eu cymryd i alluogi busnesau bach a chanolig eu maint i gael mynediad i'r cyswllt ffeibr-optig sydd yn rhedeg ar hyd yr A55 yng ngogledd Cymru?

Andrew Davies: Yr oeddwn yn meddwl y byddai Gareth wedi gofyn hynny fel cwestiwn atodol. Fel y gŵyr yr Aelodau, y Cynulliad biau'r ceblau ffeibr-optig ar yr A55, yn ogystal â'r M4, a gaiff eu defnyddio

transport surveillance systems. There is spare capacity in this fibre-optic cable and the Assembly recently placed an advert in the Official Journal of the European Communities seeking expressions of interest from companies willing to work in partnership to expand, exploit and make better use of the Assembly's broadband infrastructure along the A55. Thirteen expressions of interest were received by the closing date. A target implementation date for the project is 1 January 2002, although decisions have not yet been taken on how best to use the Assembly's fibre-optic cabling on the M4.

i weithredu ei systemau goruchwylio trafniadaeth. Mae capasiti gwag yn y cebl ffeibr-optig hwn ac yn ddiweddar rhoddodd y Cynulliad hysbyseb yn Nghylchgrawn Swyddogol y Cymunedau Ewropeaidd yn chwilio am ddatganiadau o ddiddordeb gan gwmnïau sydd yn fodlon gweithio mewn partneriaeth er mwyn ymestyn seilwaith band llydan y Cynulliad ar hyd yr A55, ymelwa arno a gwneud gwell defnydd ohono. Derbyniwyd 13 datganiad o ddiddordeb erbyn y dyddiad cau. Y dyddiad targed ar gyfer gweithredu'r prosiect yw 1 Ionawr 2002, er na wnaethpwyd penderfyniadau eto ar sut i wneud y defnydd gorau o geblau ffeibr-optig y Cynulliad ar yr M4.

Defnydd y Cabinet o TGCh fel modd i wneud eu Polisiâu yn Wybyddus Use of ICT to Make Cabinet Policies Known

Q5 William Graham: Will the Minister make a statement about the use of information and communications technology, in particular, the use of the internet, as a means by which the Cabinet can make its policies known? (OAQ12104)

C5 William Graham: A wnaiff y Trefnydd ddatganiad ar ddefnydd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, yn arbennig y defnydd o'r rhyngwrwd, fel modd i'r Cabinet wneud ei bolisiau yn wybyddus? (OAQ12104)

Andrew Davies: I want the Assembly to be at the cutting edge of the use of ICT in Government. I am proud of the work in areas such as Cymru Ar-lein and the sustainable development strategy. These showed how effective ICT can be in engaging people. As I said in the Plenary debate on 18 January, I now wish to see the use of ICT as an integral part of all areas of our work. We have commissioned an ICT template and database to support all future consultations and participations that the Assembly undertakes. That will be operational by the end of the year. As you know, all major documents are already placed on the website and many documents, such as our annual report, are now specifically designed for easy internet access.

Andrew Davies: Yr wyf am i'r Cynulliad fod ar flaen y gad o ran defnyddio TGCh mewn Llywodraeth. Yr wyf yn falch o'r gwaith mewn meysydd fel Cymru Ar-lein a'r strategaeth datblygu cynaliadwy. Dangosodd y rhain pa mor effeithiol y gall TGCh fod wrth gynnwys pobl. Fel y dywedais yn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Ionawr, yn awr hoffwn weld defnydd o TGCh fel rhan hanfodol o'n holl feysydd gwaith. Yr ydym wedi comisiynu templed TGCh a chronfa ddata i gynorthwyo'r holl ymgynghoriadau a chyfranogiadau y bydd y Cynulliad yn eu cynnal yn y dyfodol. Bydd hynny'n weithredol erbyn diwedd y flwyddyn. Fel y gwyddoch, mae'r holl brif ddogfennau wedi'u gosod ar y wefan eisoes ac mae llawer o ddogfennau, fel ein hadroddiad blynyddol, wedi'u cynllunio'n benodol er mwyn i bobl gael mynediad hawdd iddynt ar y rhyngwrwd.

William Graham: Will you give details of the number of people in Wales who have access to the internet and review any possible over-reliance on the internet as a means of public information about the National Assembly for Wales?

William Graham: A roddwch fanylion nifer y bobl yng Nghymru y mae ganddynt fynediad i'r rhyngwrwd ac adolygu unrhyw or-ddibyniaeth bosibl ar y rhyngwrwd fel modd o gael gwybodaeth gyhoeddus am Gynulliad Cenedlaethol Cymru?

Andrew Davies: I do not have the figures for the total number of people who have access to the internet to hand. Unfortunately, the number of people with access to personal computers in Wales is among the lowest in the UK. However, take-up of digital television in Wales is among the highest, if not the highest, in the UK. Increasingly, people will access the internet through a variety of means, not just through personal computers. We are considering how we can ensure the widest possible access to the internet, through a range of delivery mechanisms and platforms.

The Presiding Officer: I call on Peter Black.

Peter Black: I take it that you are calling me to ask question 7.

The Presiding Officer: Order. I called you to ask a supplementary to question 5.

Peter Black: I do not have one.

The Presiding Officer: We will therefore move on.

Andrew Davies: Nid yw'r ffigurau ar gyfer cyfanswm nifer y bobl sydd â mynediad i'r rhyngwyd wrth law gennyf. Yn anffodus, mae nifer y bobl â mynediad i gyfrifiaduron personol yng Nghymru ymysg yr isaf yn y DU. Fodd bynnag, mae nifer y bobl sydd yn derbyn teledu digidol yng Nghymru ymysg yr uchaf, os nad yr uchaf, yn y DU. Yn gynyddol, bydd pobl yn cael mynediad i'r rhyngwyd drwy amrywiaeth o ffyrdd, nid dim ond drwy gyfrifiaduron personol. Yr ydym yn ystyried sut y gallwn sicrhau'r mynediad ehangaf posibl i'r rhyngwyd, drwy ystod o ddulliau a llwyfannau cyflwyno.

Y Llywydd: Galwaf ar Peter Black.

Peter Black: Cymeraf eich bod yn galw arnaf i ofyn cwestiwn 7.

Y Llywydd: Trefn. Galwais arnoch i ofyn cwestiwn atodol i gwestiwn 5.

Peter Black: Nid oes gennyf un.

Y Llywydd: Fe symudwn ymlaen felly.

Polisi TGCh (Hyrwyddo Cynhwysiant Cymdeithasol) ICT Policy (Promoting Social Inclusion)

C6 Dafydd Wigley: Sut y bydd polisi technoleg gwybodaeth a chyfathrebu y Llywodraeth yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol yng Nghymru? (OAQ12079)

Andrew Davies: The information age strategic framework for Wales, Cymru Ar-lein, will address how ICT will be used to promote social inclusion in Wales and to reduce existing social divisions. The Cymru Ar-lein submission will be laid before the Assembly next Monday, 25 June, prior to a Plenary debate on the subject on 3 July.

Officials working on Communities First, which is the Assembly's major programme to promote social inclusion, will work closely with colleagues developing this framework to ensure that the two complement each other.

ICT can take the distance out of participating

Q6 Dafydd Wigley: How will the Government's information and communications technology policy promote social inclusion in Wales? (OAQ12079)

Andrew Davies: Bydd fframwaith strategol oes wybodaeth Cymru, Cymru Ar-lein, yn mynd i'r afael â sut y defnyddir TGCh i hybu cynhwysiant cymdeithasol yng Nghymru ac i leihau rhaniadau cymdeithasol presennol. Gosodir cyflwyniad Cymru Ar-lein gerbron y Cynulliad ddydd Llun nesaf, 25 Mehefin, cyn dadl ar y pwnc yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Gorffennaf.

Bydd swyddogion sydd yn gweithio ar Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, sef prif raglen y Cynulliad i hybu cynhwysiant cymdeithasol, yn cydweithio'n agos â chydweithwyr sydd yn datblygu'r fframwaith hwn i sicrhau bod y ddau yn cyd-fynd â'i gilydd.

Gall TGCh dynnu'r elfen o bellter o gymryd

in activities. This allows people, for example, to access education and training that would otherwise have been unavailable because of their location or their inability to attend, or to access certain types of healthcare via telemedicine facilities. This improved accessibility, especially to information via the web, offers the opportunity for communities to develop their interests, to share knowledge and to promote local developments and opportunities, as I saw recently during my visit to Penrhyndeudraeth in north Wales. The village hall, chapel, pub, shop and school have historically defined communities. We want to ensure that ICT is embedded in those facilities.

Dafydd Wigley: Mae adroddiad Llywodraeth San Steffan ar y defnydd o wasanaethau band llydan, 'UK Online: The Broadband Future', yn amcangyfrif y bydd 45 y cant o boblogaeth Cymru yn dal yn methu â manteisio ar wasanaethau band lled uwch a band llydan erbyn 2003, o'i gymharu â rhwng 15 ac 20 y cant dros Brydain yn gyffredinol. Pa gamau y bydd y Llywodraeth yn eu cymryd i geisio cau'r gagendor digidol difrifol sydd yn tyfu rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Gyfunol?

Andrew Davies: I share your commitment to combating social exclusion. In the Plenary debate which will be held on 3 July, when the Cymru Ar-lein strategic framework proposals will be discussed, you will see that our top priority is to provide accessible and affordable broadband infrastructure in Wales. As you have indicated, if this was left to the private sector and the market, Wales would fall even further behind. I am not prepared for that to happen. The Assembly and the Cabinet will take a lead on this vitally important issue.

David Melding: Does the Minister agree that, given the low number of personal computers in Wales, particularly in areas of social deprivation, the use of libraries to provide these facilities has been a great advance and that we need to invest further in that?

rhan mewn gweithgareddau. Mae hyn yn galluogi pobl, er enghraifft, i gael mynediad i addysg a hyfforddiant na fyddai ar gael iddynt fel arall oherwydd eu lleoliad neu eu hanallu i fynychu, neu i gael mynediad i fathau penodol o ofal iechyd drwy gyfleusterau telefeddyginiath. Mae'r hygyrchedd gwell hwn, yn enwedig i wybodaeth drwy'r we, yn cynnig y cyfle i gymunedau ddatblygu eu buddiannau, rhannu gwybodaeth a hybu datblygiadau a chyfleoedd lleol, fel y gwelais yn ddiweddar yn ystod fy ymweliad â Phenrhyndeudraeth yng ngogledd Cymru. Mae gan y neuadd bentref, y capel, y dafarn, y siop a'r ysgol gymunedau sydd wedi'u diffinio'n hanesyddol. Yr ydym am sicrhau y caiff TGCh ei ymgorffori yn y cyfleusterau hynny.

Dafydd Wigley: The Westminster Government's report on the use of broadband services, 'UK Online: The Broadband Future', estimates that 45 per cent of Wales's population will still be unable to take advantage of higher bandwidth and broadband services by 2003, compared to between 15 and 20 per cent in Britain in general. What steps will the Government take to attempt to close the serious digital gap that is developing between Wales and the rest of the United Kingdom?

Andrew Davies: Rhannaf eich ymrwymiad i frwydro yn erbyn allgáu cymdeithasol. Yn ystod y ddafl yn y Cyfarfod Llawn a gynhelir ar 3 Gorffennaf, pan gaiff cynigion fframwaith strategol Cymru Ar-lein eu trafod, fe welwch mai ein prif flaenoriaeth yw darparu seilwaith band llydan hygyrch a fforddiadwy yng Nghymru. Fel y nodwyd gennych, pe câi hyn ei adael i'r sector preifat a'r farchnad, byddai Cymru hyd yn oed ymhellach ar ei hôl hi. Nid wyf yn barod i hynny ddigwydd. Bydd y Cynulliad a'r Cabinet yn arwain y gad ar y mater holl bwysig hwn.

David Melding: A gytuna'r Gweinidog, o ystyried y nifer fechan o gyfrifiaduron personol yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol, y bu defnyddio llyfrgelloedd i ddarparu'r cyfleusterau hyn yn gam mawr ymlaen a bod angen inni fuddsoddi ymhellach yn hynny?

Andrew Davies: I fully concur with that. As I said in response to an earlier question by William Graham, I suspect that, in future, access to the internet will be through a wide variety of delivery platforms. On Friday, I will launch the ATLAS—access to libraries in Swansea—project, which aims to make community facilities available through libraries and other community resources. As I said in response to Dafydd Wigley, it is important that we improve accessibility through a variety of means.

Andrew Davies: Cytunaf yn llwyr â hynny. Fel y dywedais mewn ymateb i gwestiwn cynharach gan William Graham, tybiaf, yn y dyfodol, y bydd mynediad i'r rhyngwrwyd drwy amrywiaeth eang o lwyfannau. Ddydd Gwener, byddaf yn lansio prosiect ATLAS—mynediad i lyfrgelloedd yn Abertawe—sydd yn anelu at sicrhau bod cyfleusterau cymunedol ar gael drwy lyfrgelloedd ac adnoddau cymunedol eraill. Fel y dywedais mewn ymateb i Dafydd Wigley, mae'n bwysig ein bod yn gwella hygyrchedd drwy amrywiaeth o ffyrdd.

**'Rhoi Cymru'n Gyntaf' (Cyddlynu Strategaeth TGCh)
'Putting Wales First' (Co-ordinating ICT Strategy)**

Q7 Peter Black: How is the Minister co-ordinating the information and communications technology strategy so as to meet the objectives set out in 'Putting Wales First'? (OAQ12041) [R]

C7 Peter Black: Sut y mae'r Trefnydd yn cyddlynu strategaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu er mwyn bodloni'r amcanion a amlinellwyd yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'? (OAQ12041) [R]

Andrew Davies: The consultation on Cymru Ar-lein, our proposals to create an information age strategic framework for Wales, took into account the objectives in 'Putting Wales First' and 'Betterwales.com'. Since the consultation period ended, there has been extensive consultation across all areas of the Assembly, with my Cabinet colleagues and officials, on the framework's final content, which, as I said earlier, will be debated in Plenary on 3 July. The framework will contain plans for further co-ordination of effort across Wales to develop an information society.

Andrew Davies: Yr oedd yr ymgynghoriad ar Cymru Ar-lein, ein cynigion i greu fframwaith strategol oes wybodaeth ar gyfer Cymru, yn ystyried yr amcanion yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' a 'Gwellcymru.com'. Ers i gyfnod yr ymgynghoriad ddod i ben, ymgynghorwyd yn helaeth ar draws pob maes yn y Cynulliad, gyda fy nghyd-Aelodau Cabinet a swyddogion, ar gynnwys terfynol y fframwaith a gaiff ei drafod, fel y dywedais yn gynharach, yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Gorffennaf. Bydd y fframwaith yn cynnwys cynlluniau ar gyfer cyddlynu ymhellach yr ymdrech ar draws Cymru i ddatblygu cymdeithas wybodaeth.

9:55 a.m.

In relation to local government, the Partnership Council has appointed a task and finish group to make recommendations on developing electronic government in authorities. The Partnership Council will consider the group's first report on 9 July.

Mewn perthynas â llywodraeth leol, mae'r Cyngor Partneriaeth wedi penodi grŵp gorchwyl a gorffen i lunio argymhellion ar ddatblygu llywodraeth electronig mewn awdurdodau. Bydd y Cyngor Partneriaeth yn ystyried adroddiad cyntaf y grŵp ar 9 Gorffennaf.

Peter Black: What support and assistance is being given to teachers to promote ICT and ICT literacy among pupils?

Peter Black: Pa gefnogaeth a chymorth a roddir i athrawon i hybu TGCh a'r gallu i ddefnyddio TGCh ymysg disgyblion?

Andrew Davies: My Cabinet colleague, Jane Davidson, announced a significant

Andrew Davies: Cyhoeddodd fy nghyd-Aelod Cabinet, Jane Davidson, fuddsoddiad

investment in the use of ICT in schools earlier this year. I know from my own experience that many teachers—certainly in my constituency, and, I suspect, through the rest of Wales—are using the funds made available through the new opportunities fund to provide training to teachers. Training for teachers is vital. It is no good providing equipment if teachers and pupils are not able to use it. Training is, therefore, extremely important and I know that it is top of my Cabinet colleague's agenda.

Jonathan Morgan: I thank the Minister for his comments on training teachers because, when the new opportunities fund finishes, we will have to consider new strategies and ways of obtaining money for ICT training for teachers. If the new opportunities fund comes to an end, as is expected, particularly in relation to teacher training, what plans does the Government have to introduce a new scheme and new funding arrangements for training teachers in ICT?

Andrew Davies: That is a vital issue, and we need to be aware of it. If that does happen, we will have to take appropriate action. Training of teachers is vital and we will be developing it through our Cymru Ar-lein proposals, with Jane Davidson, the Minister for Education and Lifelong Learning.

Owen John Thomas: Mae 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' yn sôn am sicrhau y bydd llythrennedd cyfrifiadurol gan bob plentyn wrth iddo adael yr ysgol. Fodd bynnag, mae'n datgan hefyd fod yn rhaid i gydnabyddiaeth o'r Gymraeg a'r Saesneg fod yn ymarferol yn ogystal â damcaniaethol. Gan mai tri CD-ROM Cymraeg yn unig sydd ar gael i blant rhwng tair a saith oed, a bron dim ar gyfer disgyblion dros 13 oed, beth ydych yn ei wneud i wireddu'r addewid i roi cydnabyddiaeth gyfartal i'r ddwy iaith yn y maes hwn yn ymarferol yn ogystal â damcaniaethol?

Andrew Davies: We have a statutory requirement to give both languages equal status and I have done that in the Cymru Ar-lein consultation. One major response was

sylweddol yn y defnydd o TGCh mewn ysgolion yn gynharach eleni. Gwn o'm profiad fy hun fod llawer o athrawon—yn bendant yn fy etholaeth i, a thybiaf, drwy weddill Cymru—yn defnyddio'r arian a sicrhawyd drwy'r gronfa cyfleoedd newydd i ddarparu hyfforddiant i athrawon. Mae hyfforddiant i athrawon yn hanfodol. Nid oes diben darparu offer os na all athrawon a disgyblion ei ddefnyddio. Mae hyfforddiant, felly, yn hynod o bwysig a gwn ei fod ar frig agenda fy nghyd-Aelod Cabinet.

Jonathan Morgan: Diolchaf i'r Trefnydd am ei sylwadau ar hyfforddi athrawon oherwydd, pan ddaw'r gronfa cyfleoedd newydd i ben, bydd yn rhaid inni ystyried strategaethau a ffyrdd newydd o gael arian ar gyfer hyfforddiant TGCh i athrawon. Os daw'r gronfa cyfleoedd newydd i ben, yn ôl y disgwyl, yn enwedig mewn perthynas â hyfforddi athrawon, pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth i gyflwyno cynllun newydd a threfniadau ariannu newydd i hyfforddi athrawon mewn TGCh?

Andrew Davies: Mae hynny'n fater hanfodol, ac mae angen inni fod yn ymwybodol ohono. Os bydd hynny'n digwydd, bydd angen inni weithredu'n briodol. Mae hyfforddi athrawon yn hanfodol a byddwn yn datblygu hynny drwy ein cynigion Cymru Ar-lein, gyda Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Owen John Thomas: 'Putting Wales First' refers to ensuring that every child will be computer literate upon leaving school. However, it also states that there must be recognition of both Welsh and English, in practice as well as in theory. Since there are only three Welsh-language CD-ROMs available for children between three and seven years of age, and hardly any for pupils over the age of 13, what are you doing to fulfil the promise to give equal recognition to both languages in this area, in practice as well as in theory?

Andrew Davies: Mae gennym ddyletswydd statudol i roi statws cyfartal i'r ddwy iaith ac yr wyf wedi gwneud hynny yn ymgynghoriad Cymru Ar-lein. Un prif ymateb oedd yr un a

that contained in your point, namely, to ensure that we accord equal status to both languages. On my recent visit to the University of Wales, Bangor, I was impressed with its projects to develop Welsh-language software for use in schools and in the public sector, particularly in the health service. We want to encourage and develop that within our budget and our commitments.

gafodd ei gynnwys yn eich pwynt, sef sicrhau ein bod yn rhoi statws cyfartal i'r ddwy iaith. Yn ystod fy ymweliad diweddar â Phrifysgol Cymru, Bangor, cafodd ei brosiectau i ddatblygu meddalwedd iaith Gymraeg i'w ddefnyddio mewn ysgolion ac yn y sector cyhoeddus, yn enwedig yn y gwasanaeth iechyd, argraff dda arnaf. Yr ydym am annog a datblygu hynny o fewn ein cyllideb a'n hymrwymiaidau.

Sicrhau Mynediad i'r Rhyngrwyd yng Nghymru Ensuring Access to the Internet in Wales

Q8 David Davies: How will the Assembly's information and communications technology policies help ensure that everyone in Wales has access to the internet? (OAQ12076)

C8 David Davies: Sut y bydd polisiau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu y Cynulliad yn gymorth i sicrhau bod gan bawb yng Nghymru fynediad i'r rhyngrwyd? (OAQ12076)

Andrew Davies: The Assembly already has policies in place to encourage internet access, for example—as I have said in previous responses—in relation to broadband technology and social inclusion. I also highlight the £80 million ICT education strategy that is building on the continuing investment in the national grid for learning and providing school and adult learners with greater access to ICT. The people's network will also provide internet access in every library. In addition, the Assembly's information age strategic framework, which I mentioned earlier, and the debate on 3 July, will further set out our plans and activities to improve co-ordination and, more importantly, the delivery of programmes designed to ensure that all those who want access to the internet can achieve that aim.

Andrew Davies: Mae gan y Cynulliad bolisiau mewn grym eisoes i annog mynediad i'r rhyngrwyd, er enghraifft—fel y dywedais mewn ymatebion blaenorol—mewn perthynas â thechnoleg band llydan a chynhwysiant cymdeithasol. Hefyd, tynnaf eich sylw at strategaeth addysg TGCh £80 miliwn sydd yn adeiladu ar y buddsoddiad parhaus yn y grid cenedlaethol ar gyfer dysgu a darparu gwell mynediad i TGCh i ysgolion ac oedolion sydd yn dysgu. Bydd rhwydwaith y bobl hefyd yn darparu mynediad i'r rhyngrwyd ym mhob llyfrgell. Yn ogystal, bydd fframwaith strategol oes wybodaeth y Cynulliad, y soniais amdano yn gynharach, a'r ddadl ar 3 Gorffennaf, yn manylu ymhellach ar ein cynlluniau a'n gweithgareddau i wella cydlyniant ac, yn bwysicach, cyflwyno rhaglenni a gynlluniwyd i sicrhau y gall pob un sydd am gael mynediad i'r rhyngrwyd gyflawni'r nod honno.

David Davies: I could not agree more. The Llanthony area has problems shared by many areas of Wales. That is why, in terms of our commitment to accessibility, equal opportunities and combating social exclusion, we are considering a range of delivery platforms and mechanisms, including personal computers, digital television and microwave technology, as under Llwybr/Pathway and the multi-agency rural area network project. A satellite company called OnStar recently made a presentation to

David Davies: Cytunaf yn llwyr. Mae gan sawl ardal yng Nghymru yr un problemau ag ardal Llanddewi. Dyna pam, o ran ein hymrwymiad i hygyrchedd, cyfle cyfartal a brwydro yn erbyn allgáu cymdeithasol, yr ydym yn ystyried ystod o lwyfannau a dulliau cyflwyno, yn cynnwys cyfrifiaduron personol, teledu digidol a thechnoleg meicrodon, fel o dan Llwybr/Pathway a'r prosiect rhwydwaith cefn gwlad aml-asiantaeth. Yn ddiweddar, gwnaeth cwmni lloeren o'r enw OnStar gyflwyniad inni ar

us on providing internet access through satellite technology. A range of delivery mechanisms will allow us to fulfil our commitment to ensuring universal access to the internet.

Alun Pugh: High-speed access to the internet, via asymmetric digital subscriber line technology, is much better in Wales as a result of Assembly policies. However, do you accept that installation and rental costs remain a significant barrier to uptake?

Andrew Davies: I agree with you about the ADSL rollout. The provision of broadband communications in rural mid Wales probably exceeds that in many areas of England. However, affordability is a key problem and ADSL technology is limited in terms of its geographical spread. We want to encourage competition in the provision of broadband and information technology infrastructure. That is why we are taking a lead on this matter and discussing with the private sector and others, particularly in the public sector, ways of ensuring universal access to this important communications technology.

ddarparu mynediad i'r rhyngwrwd drwy dechnoleg lloeren. Bydd ystod o ddulliau cyflwyno yn caniatáu inni gyflawni ein hymrwymiad i sicrhau mynediad cyffredinol i'r rhyngwrwd.

Alun Pugh: Mae mynediad cyflym i'r rhyngwrwd, drwy dechnoleg llinell danysgrifio ddigidol anghymesur, yn llawer gwell yng Nghymru o ganlyniad i bolisïau'r Cynulliad. Fodd bynnag, a dderbyniwch fod costau gosod a rhentu yn parhau i fod yn rhwystr sylweddol?

Andrew Davies: Cytunaf â chi ynghylch cyflwyno llinell danysgrifio ddigidol anghymesur. Mae'n debyg fod darparu cysylltiadau band llydan yn ardaloedd gwledig canolbarth Cymru yn fwy na'r ddarpariaeth mewn sawl ardal yn Lloegr. Fodd bynnag, mae prisiau y gellir eu fforddio yn broblem allweddol a chyfyngir technoleg llinell danysgrifio ddigidol anghymesur o ran ei ledaeniad daearyddol. Yr ydym am annog cystadleuaeth wrth ddarparu seilwaith band llydan a thechnoleg gwybodaeth. Dyna pam ein bod yn arwain ar y mater hwn ac yn trafod gyda'r sector preifat ac eraill, yn enwedig yn y sector cyhoeddus, ffyrdd o sicrhau mynediad cyffredinol i'r dechnoleg gyfathrebu bwysig hon.

Datganiad ar Ffatri Dunlop Semtex Statement on the Dunlop Semtex Factory

The Minister for Environment (Sue Essex): I make this statement in response to questions and concerns about the demolition of the former Dunlop Semtex rubber factory at Brynmawr. Cadw and I have provided information about the building and our role over the last few weeks, but the time has come to put on record what has led us to this point, when demolition looks imminent. The public—now and in the future—needs to understand the various factors that I have to consider when deciding whether or not to intervene.

My involvement has only been recent but this issue has a long history. I will present a few background facts about the building, so that people can understand the context. The

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex): Gwnaf y datganiad hwn mewn ymateb i gwestiynau a phryderon ynglŷn â dymchwel hen ffatri rwber Dunlop Semtex ym Mrynawr. Dros yr ychydig wythnosau diwethaf mae Cadw a minnau wedi darparu gwybodaeth am yr adeilad a'n rôl, ond mae'n bryd inni gofnodi'r hyn sydd wedi ein harwain i'r sefyllfa hon, pan fo'n rhaid dymchwel yn ôl pob tebyg. Mae angen i'r cyhoedd—yn awr ac yn y dyfodol—ddeall y ffactorau amrywiol y mae'n rhaid imi eu hystyried wrth benderfynu a ddylwn ymyrryd ai peidio.

Dim ond yn ddiweddar y bûm yn ymwneud â hyn ond mae hanes hir i'r mater hwn. Cyflwynaf rai ffeithiau cefndirol ynglŷn â'r adeilad, fel y gall pobl ddeall y cyd-destun.

Dunlop Semtex factory closed in 1982. Since then, many public sector officers, including architects, elected representatives and private developers, have spent considerable time and effort trying to find out not only how to keep this building, but to make it fit for modern purposes.

The architectural importance of the building was recognised in 1986 when it was listed as grade II* by Cadw as a renowned and constructionally-pioneering industrial complex. It was the first work to be designed by the Architects' Co-operative Partnership in conjunction with one of Britain's leading structural engineers, Sir Ove Arup.

No effort was spared in presenting ideas and alternatives for saving the building, including its use as a craft centre, the development of industrial and leisure units and retail proposals. An application to demolish the building in 1986 was not granted. Instead, it was called in by the then Welsh Office and became the subject of a public inquiry. The inquiry inspector noted that the cost of bringing the site back into use would be extremely high, but the inquiry found in favour of a breathing space, during which possible avenues for retention should be explored.

A working party was set up in 1987. It included, among others, Cadw, the Welsh Development Agency, the local authority and the heritage group, SAVE. Among the ideas proposed were plans to convert the site into a craft centre or industrial units. However, despite strenuous attempts over several years—alternative proposals, including leisure facilities and retail development, were mooted even after the working party concluded—no viable alternative use was found for the derelict and deteriorating factory.

Had repair and reuse been feasible, Cadw would have made grants available, as it intends to do for Penallta colliery and as is happening at Blaenavon. The building's

Caeodd ffatri Dunlop Semtex yn 1982. Ers hynny, mae llawer o swyddogion y sector cyhoeddus, gan gynnwys penseiri, cynrychiolwyr etholedig a datblygwyr preifat, wedi treulio cryn amser ac wedi ymdrechu'n galed i geisio darganfod nid yn unig sut i gadw'r adeilad hwn, ond sut i'w wneud yn addas at ddibenion modern.

Cydnabuwyd pwysigrwydd pensaernïol yr adeilad yn 1986 pan gafodd ei restru yn adeilad gradd II* gan Cadw fel adeilad diwydiannol enwog ac arloesol o ran ei adeiladwaith. Hwn oedd y gwaith cyntaf i'w gynllunio gan Bartneriaeth Gydweithredol y Penseiri mewn cydweithrediad ag un o beirianwyr strwythurol blaenllaw Prydain, Syr Ove Arup.

Gwnaethpwyd pob ymdrech i gyflwyno syniadau ac opsiynau gwahanol ar gyfer arbed yr adeilad, gan gynnwys ei ddefnyddio fel canolfan grefftau, datblygu unedau diwydiannol a hamdden a chynigion manwerthu. Ni chaniatawyd cais i ddimchwel yr adeilad yn 1986. Yn hytrach, fe'i galwyd i mewn gan y Swyddfa Gymreig ar y pryd a daeth yn destun ymchwiliad cyhoeddus. Nododd arolygydd yr ymchwiliad y byddai'r gost o adfer y safle i gyflwr y byddai'n addas i'w aildefnyddio yn eithriadol o uchel, ond yr oedd yr ymchwiliad o blaid caniatáu amser ychwanegol, er mwyn ymchwilio i ffyrdd posibl eraill o gadw'r safle.

Sefydlwyd gweithgor yn 1987. Yr oedd yn cynnwys, ymhlith eraill, Cadw, Awdurdod Datblygu Cymru, yr awdurdod lleol a'r grŵp treftadaeth, SAVE. Ymhlith y syniadau a gynigiwyd yr oedd cynlluniau i droi'r safle yn ganolfan grefftau neu'n unedau diwydiannol. Fodd bynnag, er gwaethaf sawl ymdrech galed dros lawer o flynyddoedd—trafodwyd cynigion amgen, gan gynnwys cyfleusterau hamdden a siopa, hyd yn oed ar ôl i'r gweithgor gyflwyno ei gasgliadau—ni ddaethpwyd o hyd i ddefnydd amgen posibl ar gyfer y ffatri ddadfeiliedig a oedd yn dirywio.

Pe bai wedi bod yn bosibl atgyweirio ac aildefnyddio'r ffatri, byddai Cadw wedi sicrhau bod grantiau ar gael, fel y bwriada ei wneud ar gyfer glofa Penallta ac fel sydd yn

importance as a model heritage industrial structure and as part of social history has not been disputed; it is its future life as a working building that could not be secured.

Against this background, when a further application was made to demolish in 1996, 10 years after the first application, the local authority allowed it. It is important to remember that listing is not a preservation order. It requires instead that all options for the preservation of a listed building be explored, which is what happened. Regrettably none proved practicable. I make it clear that the separate boiler house, which is also listed, remains in situ and is not part of the current redevelopment.

10:05 a.m.

Listed building consent and outline planning permission were given by the local authority in 1996. Consent was properly sought and given, and confers rights. This is a planning matter, entirely within the responsibilities of the local authority. The consent has a life of five years, and has not yet expired. Demolition and redevelopment is now underway. It is important at this point to stress again that the decision to demolish the building was taken in 1996.

The factory site and surrounding land has long been recognised as vital for regeneration in this part of the Valleys. The current redevelopment scheme is supported by public sector funding in the shape of an urban investment grant. The UIG scheme is operated by the Welsh Development Agency and is a gap funding scheme. The WDA funds the difference between the cost of the development of the site, and the value of the site on completion. The scheme is designed to bring forward development on sites that cannot be developed commercially.

For the Dunlop factory site, the UIG is required to ensure that the development is commercially viable. The total costs are £35.76 million, of which the WDA is providing gap funding of £6.3 million. That

digwydd ym Mlaenafon. Nid oedd unrhyw un yn amau pwysigrwydd yr adeilad fel enghraifft o strwythur diwydiannol treftadaeth ac fel rhan o hanes cymdeithasol; ei fywyd yn y dyfodol fel adeilad gweithiol oedd yr hyn na ellid ei sicrhau.

Yn erbyn y cefndir hwn, pan wnaethpwyd cais pellach i ddymchwel yn 1996, 10 mlynedd ar ôl y cais cyntaf, fe'i caniatwyd gan yr awdurdod lleol. Mae'n bwysig cofio nad yw rhestru yn orchymyn cadwraeth. Yn hytrach mae'n golygu y dylid ymchwilio i bob opsiwn ar gyfer cadw adeilad rhestredig, sef yr hyn a ddigwyddodd. Yn anffodus, nid oedd yr un ohonynt yn ymarferol. Hoffwn egluro fod y boelderdy ar wahân, sydd hefyd wedi'i restru, yn aros yn ei le ac nid yw'n rhan o'r ailddatblygiad cyfredol.

Rhodddwyd caniatâd adeilad rhestredig a chaniatâd cynllunio amlinellol gan yr awdurdod lleol yn 1996. Ceisiwyd a rhodddwyd caniatâd yn y ffordd gywir, ac mae'n cyflwyno hawliau. Mae hwn yn fater cynllunio, sydd o fewn cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yn llwyr. Mae'r caniatâd yn parhau am bum mlynedd ac nid yw wedi dod i ben eto. Mae gwaith dymchwel ac ailddatblygu bellach ar y gweill. Mae'n bwysig pwysleisio unwaith eto y cymerwyd y penderfyniad i ddymchwel yr adeilad yn 1996.

Cydnabuwyd ers tro bod safle'r ffatri a'r tir o'i hamgylch yn holl bwysig ar gyfer adfywio'r rhan hon o'r Cymoedd. Cefnogir y cynllun ailddatblygu cyfredol gan arian y sector cyhoeddus ar ffurf grant buddsoddiad trefol. Gweithredir y cynllun grant buddsoddiad trefol gan Awdurdod Datblygu Cymru ac mae'n gynllun ariannu adwy. Mae'r WDA yn ariannu'r gwahaniaeth rhwng cost datblygu'r safle a gwerth y safle ar ôl cwblhau'r gwaith. Bwriedir i'r cynllun hyrwyddo datblygiad ar safleoedd na ellir eu datblygu'n fasnachol.

Ar gyfer safle ffatri Dunlop, rhaid i'r grant buddsoddiad trefol sicrhau bod y datblygiad yn ddichonol yn fasnachol. Cyfanswm y costau yw £35.76 miliwn, ac mae'r WDA yn darparu £6.3 miliwn o arian adwy ar gyfer

received Assembly approval in August 2000, as it was over the WDA's designated limit of £2.5 million. The building itself has been derelict for many years. Its structure includes large areas of asbestos. The WDA has suggested that the building may be suffering from concrete rot, which would damage the structural integrity of the building, making it unable to withstand any major change of use.

It is important to understand that the Assembly has no power simply to impose a moratorium and halt demolition. If the Assembly acts at all, it must go further by modifying or revoking the consent. That is a protracted process that does not take effect until it is complete. By then, in reality, the factory is likely to have been demolished. Modification or revocation renders the local planning authority liable to pay compensation, even if the action is taken by the Assembly. Were the Assembly to consider the question of modification or revocation, it would need to explore the condition of the building and whether it is practicable to reuse it. The Assembly's use of these reserve powers is only justifiable in exceptional circumstances, where the original decision is judged to be so wrong that damage would be done to the wider public interest.

The Assembly's powers to intervene are at this stage extremely limited. They include either revocation of the original listed building consent to demolish, or scheduling as an ancient monument. The former should be used only in exceptional circumstances—as I said, when the original decision is so wrong as to damage the wider public interest—and should be strong enough to hold up in the courts if challenged.

The option of scheduling is a question of policy. Buildings must be listed if they meet the architectural and historic criteria but there is an opportunity to take other factors into account when listed building consent is sought. However, once a building is scheduled there is a strong presumption that the structure will be protected as a ruin. Therefore, scheduling is discretionary. It is

hynny. Cymeradwywyd hynny gan y Cynulliad yn Awst 2000, gan ei fod dros drefyn penodedig y WDA o £2.5 miliwn. Mae'r adeilad ei hun wedi bod yn wag ers blynyddoedd lawer. Mae ei strwythur yn cynnwys ardaloedd mawr o asbestos. Mae'r WDA wedi awgrymu efallai bod yr adeilad yn dioddef o bydredd concrit, a fyddai'n niweidio strwythur yr adeilad, sydd yn golygu na allai wrthsefyll unrhyw newid mawr o ran defnydd.

Mae'n bwysig deall nad oes gan y Cynulliad y pŵer i bennu moratoriwm ac atal dymchwel yr adeilad. Os gweithreda'r Cynulliad o gwbl, rhaid iddo fynd ymhellach nag addasu neu ddiddymu'r caniatâd. Mae honno'n broses faith na ddaw yn weithredol nes y bydd wedi ei chwblhau. Erbyn hynny, mewn gwirionedd, mae'n debygol y bydd y ffatri wedi ei dymchwel. Mae addasu neu ddiddymu yn gwneud yr awdurdod cynllunio lleol yn agored i dalu iawndal, hyd yn oed os mai'r Cynulliad sydd yn gweithredu. Pe bai'r Cynulliad yn ystyried addasu neu ddiddymu, byddai angen iddo ymchwilio i gyflwr yr adeilad ac a yw'n ymarferol ei aildefnyddio. Dim ond dan amgylchiadau eithriadol y gall y Cynulliad wneud defnydd o'r pwerau wrth gefn hyn sydd ganddo, pan fernir bod y penderfyniad gwreiddiol mor anghywir fel y byddai'n amharu ar fudd ehangach y cyhoedd.

Mae pwerau'r Cynulliad i ymyrryd ar yr adeg hon yn gyfyngedig iawn. Maent yn cynnwys naill ai diddymu'r caniatâd adeilad rhestredig gwreiddiol i ddymchwel, neu ei gofrestru yn heneb. Dylid ond defnyddio'r cyntaf dan amgylchiadau eithriadol—fel y dywedais, pan fydd y penderfyniad gwreiddiol mor anghywir fel ei fod yn amharu ar fudd ehangach y cyhoedd—a dylai fod yn ddigon cryf i wrthsefyll unrhyw her yn y llysoedd.

Mae'r opsiwn o gofrestru yn fater o bolisi. Rhaid rhestru adeiladau os bodlonant y meini prawf pensaernïol a hanesyddol ond mae cyfle i ystyried ffactorau eraill pan geisir caniatâd adeilad rhestredig. Fodd bynnag, unwaith y cofrestrir adeilad mae tybiaeth gref y caiff y strwythur ei ddiogelu fel adfail. Felly, cofrestrir yn ôl disgrisiwn. Mae'n hollol deg ystyried unrhyw ffactor perthnasol

perfectly legitimate to consider any relevant factor besides the interest in the structure itself, including the full financial implications. Scheduling a structure such as this factory—the shell of the building—would prejudice future development of the site and expose the National Assembly to claims for full compensation from the present developer, even if its preservation as a ruin was feasible in practical terms.

Today, I argue—on the basis of advice, personal observation and my own belief in the democratic process—that events have gone too far to allow us to intervene, even if we had the will and the justifiable use of powers and funds to do so. I am advised that circumstances, since the permission to demolish was granted, have not changed. The importance of the building remains, but viable alternatives have not been shown to be available for its productive use, and there are no new grounds for reversing the earlier decision. I have considered all the options to save part of the structure, which was one idea. However, I have been advised that it is technically difficult and architecturally unjustifiable, as the building would have to be kept in entirety to retain its architectural integrity. Those who have seen the building will know its enormous scale. I am also told that structural deterioration may have accelerated to a point where retention is now virtually impossible to achieve.

I am not aware of any precedent for scheduling post-war buildings. Putting either process into action—revocation or scheduling—would create huge uncertainty about the future of the building, in the community as well as on the site. Revocation is a lengthy process that would not be ready in time to halt the demolition timetable as currently proposed. Scheduling would leave a massive problem for the future, as the structure is potentially unsound and dangerous to the public. It is likely that the landowner and courts would eventually place this continuing burden on the public purse. Both procedures will require compensation to the landowner; from the local authority in the first case, and from the Assembly in the

heblaw'r diddordeb yn y strwythur ei hun, gan gynnwys y goblygiadau ariannol llawn. Byddai cofrestru strwythur fel y ffatri hon—cragen yr adeilad—yn peryglu datblygiad y safle yn y dyfodol ac yn gwneud y Cynulliad Cenedlaethol yn agored i geisiadau am iawndal llawn gan y datblygwr presennol, hyd yn oed pe bai ei gadw fel adfail yn ymarferol bosibl.

Heddiw, dadleuaf—ar sail cyngor, sylw personol a'm cred fy hun yn y broses ddemocrataidd—fod pethau wedi mynd yn rhy bell i ganiatáu inni ymyrryd, hyd yn oed pe bai'r ewyllys a'r defnydd cyfiawn o bwerau ac arian gennym i wneud hynny. Dywedir wrthyf na fu newid yn yr amgylchiadau ers rhoi'r caniatâd i ddymchwel. Mae'r adeilad yn bwysig o hyd, ond ni fu dewisiadau amgen dichonol ar gael i'w ddefnyddio mewn ffordd gynhyrchiol, ac nid oes unrhyw resymau newydd dros wrthdroi'r penderfyniad cynharach. Ystyriais yr holl opsiynau i arbed rhan o'r strwythur, a oedd yn un syniad. Fodd bynnag, dywedir wrthyf ei bod yn dechnegol anodd ac na ellir cyfiawnhau hynny yn bensaernïol, gan y byddai'r adeilad yn gorfod cael ei gadw yn gyfan er mwyn sicrhau ei gyfanrwydd pensaernïol. Gŵyr y rheini ohonoch sydd wedi gweld yr adeilad am ei faint enfawr. Dywedir wrthyf hefyd y bydd y dirywiad strwythurol wedi cyflymu cymaint fel ei bod bron yn amhosibl ei gadw yn gyflawn erbyn hyn.

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gynsail dros gofrestru adeiladau wedi'r rhyfel. Byddai rhoi y naill broses neu'r llall ar waith—diddymu neu gofrestru—yn creu ansicrwydd mawr ynglŷn â dyfodol yr adeilad, yn y gymuned yn ogystal ag ar y safle. Mae diddymu yn broses hirfaith na fyddai'n barod mewn pryd i atal yr amserlen ddymchwel fel y cynigir ar hyn o bryd. Byddai cofrestru yn creu problem enfawr ar gyfer y dyfodol, gan fod y strwythur yn beryglus i'r cyhoedd. Mae'n debygol y byddai'r tîrfeddiannwr a'r llysoedd yn rhoi'r baich parhaus hwn ar bwrs y wlad yn y pen draw. Bydd y ddwy weithdrefn yn golygu rhoi iawndal i'r tîrfeddiannwr; gan yr awdurdod lleol yn y lle cyntaf ac yna gan y

second.

In the first case, modest estimates of compensation are reported to be £6 million, even though the landowner could reapply for other consents for the land and buildings in the future. In the second, compensation would be far higher, as the intention of scheduling is that the building stays as it is forever. In addition to those costs, substantial sums would be needed to make the structure sound and safe. I do not have an accurate figure for that, but it is likely to be millions of pounds, and there would be ongoing costs to retain this structure in perpetuity. Therefore, we would be looking at large capital sums of continued revenue support. I do not have money in my budget for that. Also, there is at least one other scheme proposed for the Blaenau Gwent area—the reopening of the passenger railway—which will need capital and revenue backing from the Assembly. I am in no doubt that that scheme has huge public support.

Finally, I am also guided by local support for the redevelopment proposals, as shown by the Assembly Member and the recently re-elected MP for the area, as well as the local council. None of the democratically elected representatives of the community have come to me to request that this be reconsidered.

For all these reasons I remain convinced that I cannot reasonably intervene in the process. We must all recognise that. On a personal note, many Assembly Members will know of my commitment to good architectural design. I have fought for the retention of many buildings, successfully in some cases, and unsuccessfully in others. One building that was dear to my heart, but which was lost, was the empire pool in Cardiff. I will never know why such a good example of a modern building was not listed. It had a continued use, was loved by the people of Cardiff and the surrounding area and was an icon for Wales. I was very sad when that building was demolished, therefore I appreciate how campaigners would feel were the Dunlop factory demolished. I do not want people to think that I have not considered this carefully. On another personal note, my husband was

Cynulliad.

Yn y lle cyntaf, cofnodir amcangyfrifon rhesymol o £6 miliwn, er y gallai'r tirlfeddiannwr wneud ail gais am fathau eraill o ganiatâd ar gyfer y tir a'r adeiladau yn y dyfodol. Yn yr ail achos, byddai'r iawndal yn uwch o lawer, gan mai bwriad cofrestru yw cadw'r adeilad fel y mae am byth. Ar ben y costau hynny, byddai angen symiau sylweddol i wneud y strwythur yn gadarn a diogel. Nid oes gennyf ffigur cywir ar gyfer hynny, ond mae'n debygol o fod yn filiynau o bunnoedd, a byddai costau parhaus i dadw'r strwythur hwn am byth. Felly, byddem yn ystyried symiau cyfalaf mawr o gymorth refeniw parhaus. Nid oes gennyf arian yn fy nghyllideb ar gyfer hynny. Hefyd, mae o leiaf un cynllun arall a gynigir ar gyfer ardal Blaenau Gwent—ailagor y rheilffordd i deithwyr—a bydd arni angen cyfalaf a chymorth refeniw gan y Cynulliad. Heb os mae gan y cynllun hwnnw gefnogaeth fawr gan y cyhoedd.

Yn olaf, fe'm cyfarwyddir hefyd gan gefnogaeth leol i'r cynigion ailddatblygu, fel y dangoswyd gan Aelod y Cynulliad a'r AS a etholwyd yn ddiweddar ar gyfer yr ardal, yn ogystal â'r cyngor lleol. Nid oes un o gynrychiolwyr y gymuned a etholwyd yn ddemocrataidd wedi dod ataf fi i ofyn i hyn gael ei ailystyried.

Am yr holl resymau hyn yr wyf yn argyhoeddedig o hyd na allaf ymyrryd yn rhesymol yn y broses. Rhaid inni i gyd gydnabod hynny. Ar nodyn personol, gŵyr llawer o Aelodau'r Cynulliad am fy ymrwymiad i waith cynllunio pensaernïol da. Brwydrais dros gadw llawer o adeiladau, yn llwyddiannus mewn rhai achosion ac yn aflwyddiannus mewn eraill. Un adeilad a oedd yn agos at fy nghalon, ond a gollwyd, oedd pwll yr ymerodraeth yng Nghaerdydd. Ni fyddaf byth yn gwybod pam na restrwyd enghraifft mor dda o adeilad modern. Câi ei ddefnyddio'n rheolaidd, yr oedd pobl Caerdydd a'r cyffiniau yn hoff iawn ohono ac yr oedd yn eicon i Gymru. Yr oeddwn yn drist iawn pan ddymchwelwyd yr adeilad hwnnw, felly gwerthfawrogaf sut y byddai ymgyrchwyr yn teimlo pe bai'r ffatri Dunlop yn cael ei dymchwel. Nid wyf am i bobl

one of the people who tried very hard to find a solution to the reuse of the building. His feelings are similar to mine, but he is of the view that nothing can be done to save the building, unfortunate as that may be.

In terms of the future, lessons must be learnt from this experience. We must look carefully at design and heritage issues. The design initiatives that have been supported by architects in Wales will raise Wales's profile in design. In addition, Cadw is one of the bodies for which I am responsible in my portfolio. It is under review, but we also need to review more generally how we protect heritage, and link this with opportunities for regeneration.

I am sad that we have reached this difficult situation. However, hand on heart, I cannot say that there is an alternative way forward. We must all recognise our priorities and look to the future and ways of regenerating Blaenau Gwent, which is one of the most deprived communities in Wales, especially in the wake of the massive blow delivered to the area by the closure of the Ebbw Vale steelworks.

10:15 a.m.

Phil Williams: Last year, I shared your joy, Sue, when Blaenavon was designated a world heritage site. Today, I share your sadness at the prospect of the Dunlop factory's demolition. Beauty is subjective, but I believe that that was one of the most beautiful and impressive buildings ever constructed. In 1962 when I bought my first car, one of the first journeys I made was to Brynmawr especially to see this building. I saw it in sunlight over the lake and it took my breath away. At that time I did not realise how unique it was, nor could I have known that the technologies pioneered there led, in a sense, to the design of the Sydney Opera House.

I do not pretend that today it is anything but a depressing site. If there is no prospect of

feddwl nad wyf wedi ystyried hyn yn ofalus. Ar nodyn personol arall, fy ngŵr oedd un o'r bobl a geisiodd yn galed iawn i ddod o hyd i ffordd o ailddedfyddio'r adeilad. Mae ei deimladau yn debyg iawn i'm rhai i, ond mae ef o'r farn na ellir gwneud unrhyw beth i arbed yr adeilad, er bod hynny'n drueni mawr.

O ran y dyfodol, rhaid dysgu gwersi o'r profiad hwn. Rhaid inni edrych yn ofalus ar faterion cynllunio a threftadaeth. Bydd y mentrau cynllunio a gefnogwyd gan benseiri yng Nghymru yn codi proffil Cymru ym maes cynllunio. Yn ogystal, Cadw yw un o'r cyrff yr wyf yn gyfrifol amdano yn fy mhortffolio. Mae o dan arolwg ar hyn o bryd ond mae angen inni arolygu'n fwy cyffredinol y ffordd yr ydym yn diogelu treftadaeth, a chysylltu hyn â chyfleoedd i adfywio.

Yr wyf yn drist ein bod wedi cyrraedd y sefyllfa anodd hon. Fodd bynnag, gyda llaw ar fy nghalon, ni allaf ddweud fod ffordd arall o fynd ymlaen. Rhaid inni i gyd gydnabod ein blaenoriaethau ac edrych i'r dyfodol ac ar ffyrdd o adfywio Blaenau Gwent, sef un o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn arbennig yn sgîl yr ergyd enfawr a gafodd yr ardal pan gaeodd gwaith dur Glynebwy.

Phil Williams: Y llynedd, rhannais eich llawenydd, Sue, pan benodwyd Blaenafon yn safle treftadaeth y byd. Heddiw, rhannaf eich tristwch wrth ragweld dymchwel ffatri Dunlop. Mae harddwch yn oddrychol, ond credaf mai hwnnw oedd un o'r adeiladau harddaf a mwyaf trawiadol a adeiladwyd erioed. Yn 1962 pan brynais fy nghar cyntaf, un o'r teithiau cyntaf a wneuthum oedd i Frynmawr yn unswydd i weld yr adeilad hwn. Fe'i gwelais yng ngolau'r haul dros y llyn ac fe'm syfrdanwyd ganddo. Ar y pryd, ni sylweddolais pa mor unigryw ydoedd, ac ni allwn fod wedi gwybod y byddai'r technolegau a arloeswyd yno yn arwain, mewn rhyw ystyr, at gynllunio Tŷ Opera Sydney.

Ni honnaf ei fod yn safle gwych heddiw – mae'n lle digalon. Os nad oes unrhyw obaith

restoration and adaptation, I agree that demolition is the only alternative. The question is how inevitable was this decision? It was not inevitable some years ago. It seems that one key factor, as you mentioned, was concrete rot. I took advice in 1999, and was also initially advised that structural problems made restoration extremely difficult. However, I have recently received a suggestion, from sources with perhaps more expertise, that the domes' basic structure was sound. Therefore, I have received conflicting advice. On what basis was your decision that it was not practicable to restore the building, and that concrete rot had made the whole structure impossible to restore made? You referred to the WDA. Was this evidence based on detailed analysis? That is crucial. The initial advice that I received certainly seemed important to me.

We talked about costs. I am concerned that there do not seem to be clear costs for the alternatives. Redevelopment will be expensive. You mentioned possible compensation, but I believe that that would be if no demolition at all was allowed. However, there is a suggestion that the domes could be preserved and that many of the other additions and developments could be demolished without serious architectural loss. Therefore, is that £6 million of compensation payable only if the whole site is kept, or if the crucial part of the domes is retained?

I would have expected the total cost of restoration to have been estimated. My last point—which is crucial—is that the key factor is the regeneration of a prosperous economy in the Heads of the Valleys area, especially now, given the devastating impact of the closure of Corus in Ebbw Vale. In an ideal world, a restored Semtex factory, recognised as a world masterpiece in many different countries, would have been the flagship of a tourist strategy, linking the work in Blaenavon with ongoing work in Merthyr Tydfil as part of a strategy that would bring considerable income into the area. Many other iconic buildings have been a part of a strategy to create tourism—for example, in Bilbao and Sydney. I could also point to the

o'i adfer a'i addasu, cytunaf mai dymchwel yw'r unig ateb. Y cwestiwn yw pa mor anochel oedd y penderfyniad hwn? Nid oedd yn anochel rai blynyddoedd yn ôl. Ymddengys mai un o'r ffactorau allweddol, fel y soniasoch, oedd pydredd concrit. Cymerais gyngor yn 1999, ac fe'm cynghorwyd ar y dechrau bod problemau strwythurol yn gwneud gwaith adfer yn eithriadol o anodd. Fodd bynnag, yn ddiweddar cefais awgrym, o ffynonellau â mwy o arbenigedd efallai, fod strwythur sylfaenol y cromenni yn gadarn. Felly, cefais gyngor anghyson. Ar ba sail y gwnaethoch eich penderfyniad nad oedd yn ymarferol adfer yr adeilad a bod pydredd concrit wedi gwneud y strwythur cyfan yn amhosibl i'w adfer? Cyfeiriasoch at y WDA. A oedd y dystiolaeth hon yn seiliedig ar ddadansoddiad manwl? Mae hynny'n hollbwysig. Yn sicr, yr oedd y cyngor cychwynnol a gefais yn ymddangos yn bwysig i mi.

Soniasom am gostau. Pryderaf nad yw'r ymddangos fod costau clir ar gyfer y dewisiadau amgen. Bydd ailddatblygu yn gostus. Soniwyd am iawndal posibl gennyh, ond credaf y byddai hynny ar gael pe na chaniateir unrhyw ddymchwel o gwbl. Fodd bynnag, mae awgrym y gellid diogelu'r cromenni ac y gallai llawer o'r ychwanegiadau a'r datblygiadau eraill gael eu dymchwel heb golled bensarniol ddifrifol. Felly, a yw'r £6 miliwn hwnnw o iawndal ond yn daladwy os cedwir y safle cyfan, neu os cedwir rhan hollbwysig y crommeni?

Byddwn wedi disgwyl i gyfanswm cost y gwaith adfer gael ei amcangyfrif. Fy mhwynt olaf—sydd yn un hollbwysig—yw mai'r ffactor allweddol yw adfywio economi ffyniannus yn ardal Blaenau'r Cymoedd, yn arbennig ar hyn o bryd, o gofio effaith ddychrynlyd cau Corus yng Nglynebwy. Mewn byd delfrydol byddai ffatri Semtex wedi ei hadfer, a oedd yn cael ei chydabod yn gampwaith o'r radd flaenaf mewn llawer o wledydd gwahanol, wedi bod yn enghraifft wych o strategaeth dwristiaeth, yn cysylltu'r gwaith ym Mlaenafon â gwaith parhaus ym Merthyr Tudful fel rhan o strategaeth a fyddai'n dod ag incwm sylweddol i'r ardal. Bu llawer o adeiladau eiconig eraill yn rhan o strategaeth i greu twristiaeth—er enghraifft,

reuse of Bankside Power Station as the Tate Modern museum.

These issues were perhaps not discussed in 1986. However, we now accept that there are practical and economically justified reasons to preserve our heritage. I cannot deny that the democratic argument is important. I chaired an extremely well attended public meeting a few months ago where opinion was almost evenly divided. However, there is no doubt that all but one of the local councillors have expressed their determination for this to go ahead. I fought an election in Blaenau Gwent, and this was one point that I mentioned. I did not win that election. Therefore, the democratic process is clear. Do you agree, therefore, that in local government and in this Assembly the Labour Party and its administration must bear responsibility for what I continue to see as a lost opportunity? It is an opportunity that could have converted this building into one of the most positive assets of a region that desperately needs regeneration.

Sue Essex: I will try to respond to all those points beginning with the last one. It is not fair to say that this is the responsibility of the Labour administration. This work has been ongoing for many years under different political regimes. It is poor to bring party politics into it, because this is an issue on which there will be across party divides. There will be different views on it, which will be matched in different parties. You are right that we must be guided by the democratic process—and I am sure that Peter Law will speak on this issue later—because to ignore what people feel leads to apathy and distrust of politicians. However, in terms of my portfolio and the wider issues of heritage and historic preservation, we must also consider the national interest. Those two issues must be balanced.

I have thought about the lessons learnt elsewhere, because I am aware of what has happened in the Ruhr. Professor Klaus Kunzmann, whom I know well, was part of a

yn Bilbao a Sydney. Gallwn gyfeirio hefyd at ailddefnyddio Gorsaf Bŵer Bankside fel amgueddfa'r Tate Modern.

Efallai na thrafodwyd y materion hyn yn 1986. Fodd bynnag, derbyniwn yn awr fod rhesymau ymarferol a rhesymau economaidd cyfiawn dros ddiogelu ein treftadaeth. Ni allaf wadu fod y ddadl ddemocrataidd yn bwysig. Cadeiriais gyfarfod cyhoeddus â chynulleidfa niferus rai misoedd yn ôl lle yr oedd y farn wedi ei rhannu'n gyfartal bron. Fodd bynnag, heb os, mae pob un o'r cynghorwyr lleol namyn un wedi mynegi eu penderfyniad dros fwrw ymlaen â hyn. Ymladdais etholiad ym Mlaenau Gwent, ac yr oedd hwn yn un pwynt y soniais amdano. Nid enillais yr etholiad hwnnw. Felly, mae'r broses ddemocrataidd yn eglur. A gytunwch, felly, fod yn rhaid i'r Blaid Lafur, mewn llywodraeth leol ac yn y Cynulliad hwn, ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros yr hyn y parhaf i'w ystyried yn gyfle a gollwyd? Mae'n gyfle a allai fod wedi newid yr adeilad hwn yn un o asedau mwyaf cadarnhaol ardal y mae angen ei hadfer yn druenus.

Sue Essex: Ceisiaf ymateb i bob un o'r pwyntiau hynny gan ddechrau gyda'r un olaf. Nid yw'n deg dweud mai cyfrifoldeb y weinyddiaeth Lafur yw hyn. Bu'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ers blynyddoedd lawer o dan lywodraethau gwleidyddol gwahanol. Peth gwael yw defnyddio gwleidyddiaeth pleidiau yn hyn o beth, oherwydd mae hwn yn fater lle y bydd rhaniadau trawsbleidiol. Bydd safbwyntiau gwahanol ar hyn, a fydd i'w gweld mewn pleidiau gwahanol. Yr ydych yn iawn pan ddywedwch fod yn rhaid inni gael ein cyfarwyddo gan y broses ddemocrataidd—ac yr wyf yn siŵr y bydd Peter Law yn siarad ar y mater hwn yn ddiweddarach—oherwydd mae anwybyddu'r hyn y mae pobl yn ei deimlo yn arwain at ddifaterwch a drwgdybio gwleidyddion. Fodd bynnag, o ran fy mhortffolio i a materion ehangach treftadaeth a chadwraeth hanesyddol, rhaid inni ystyried y diddordeb cenedlaethol hefyd. Rhaid cydbwysu'r ddau fater hwnnw.

Ystyriais y gwersi a ddysgwyd mewn manau eraill, oherwydd yr wyf yn ymwybodol o'r hyn a ddigwyddodd yn y Ruhr. Yr oedd yr Athro Klaus Kunzmann, yr

team that looked at old industrial buildings in the Ruhr and what has been done to them. That project includes several important factors that should be considered. In terms of market economics, the schemes in the Ruhr have been in centres of dense urban population. They have huge catchment areas and large amounts of public expenditure have been invested in them. The spending capacity of people in that area is important. The strategy, on which many years' preparation was spent, is important. It was on that strategic base that the programme was developed. That has not happened here.

It is important to look to the future. We should consider a strategy for the Valleys as a whole. That would give us a clearer policy context in which to make our decisions. In terms of the state of the building—and I refer back to our powers—the permission to demolish was given in 1996. The only way to prevent the demolition of that building now—and as I understand it the developer is intent on demolishing it—is through scheduling, which would classify it as a monument. It is legally possible to do that, but it would mean a sorry state of affairs for that building, because it would be scheduled as a shell, and really it is the architectural integrity of the building that is important.

You asked about the £6 million. It is an estimate. No-one can be accurate on this issue of compensation, because it is a process of negotiation and all sorts of losses must be taken into account. However, the general view regarding the factory itself—and not the total scheme—is that £6 million is probably the minimum amount that we need to consider. There are then other issues to consider, such as making the building structurally sound, dealing with the problem of asbestos and dealing with the revenue expenditure afterwards. It is worthwhile remembering that this is part of a larger scheme, as I am sure that you, like Peter, are aware, for the regeneration of that area. The whole package of over £30 million includes detoxification, decontamination and creating the lakes to provide a new environment for this area. The scheme, which is being presented under the leadership of the WDA,

wyf yn ei adnabod yn dda, yn rhan o dîm a edrychodd ar hen adeiladau diwydiannol yn y Ruhr a'r hyn a wnaethpwyd iddynt. Mae'r prosiect hwnnw yn cynnwys sawl ffactor pwysig y dylid eu hystyried. O ran economïau'r farchnad, bu'r cynlluniau yn y Ruhr mewn canolfannau o boblogaeth drefol ddwys. Mae ganddynt dalgyloedd mawr iawn a buddsoddiwyd symiau enfawr o wariant cyhoeddus ynddynt. Mae capasiti gwario pobl yn yr ardal honno yn bwysig. Mae'r strategaeth, y treuliwyd llawer o flynyddoedd yn ei pharatoi, yn bwysig. Datblygwyd y rhaglen ar y sail strategol honno. Ni ddigwyddodd hynny yma.

Mae'n bwysig edrych i'r dyfodol. Dylem ystyried strategaeth i'r Cymoedd cyfan. Byddai hynny'n rhoi cyd-destun polisi cliriach inni y gallwn seilio ein penderfyniadau arno. O ran cyflwr yr adeilad—a chyfeiriaf yn ôl at ein pwerau—rhoddwyd y caniatâd i ddymchwel yn 1996. Yr unig ffordd o atal yr adeilad hwnnw rhag cael ei ddymchwel yn awr—ac yn ôl fel y deallaf mae'r datblygwr yn benderfynol o'i ddymchwel—yw drwy gofrestru, a fyddai'n ei gategoreiddio fel heneb. Mae'n gyfreithiol bosibl i wneud hynny, ond byddai'n sefyllfa druenus i'r adeilad hwnnw, oherwydd byddai'n cael ei gofrestru fel cragen, ac mewn gwirionedd cyfanwydd pensaernïol yr adeilad sydd yn bwysig.

Holasoch ynglŷn â'r £6 miliwn. Amcangyfrif ydyw. Ni all unrhyw un fod yn gywir ar y mater hwn o iawndal, oherwydd mae'n broses o negodi a rhaid ystyried pob math o golledion. Fodd bynnag, y farn gyffredinol ynglŷn â'r ffatri ei hun—ac nid y cynllun yn ei gyfanwydd—yw mai £6 miliwn, siŵr o fod, yw'r swm isaf y mae angen inni ei ystyried. Yna mae'r materion eraill y mae angen inni eu hystyried, fel gwneud yr adeilad yn gadarn yn strwythurol, delio â phroblem asbestos a delio â'r gwariant refeniw ar ôl hynny. Mae'n werth cofio bod hyn yn rhan o gynllun mwy i adfywio'r ardal honno, fel yr ydych chi, fel Peter, mae'n siŵr, yn ymwybodol ohono. Mae'r pecyn cyfan o dros £30 miliwn yn cynnwys dadwenwyno, diheintio a chreu'r llynnoedd i ddarparu amgylchedd newydd ar gyfer yr ardal hon. Mae'r cynllun, a gyflwynir o dan arweinyddiaeth y WDA, yn becyn adfywio

is very much a regeneration package for that area.

Regarding the structure of the building, I am not an architect and, therefore, I can only go on the advice that is given to me. I have asked those questions. I am told that because it has been built with reinforced concrete and the shell has been exposed to foul weather—and that would continue to be the case if we kept it as a monument—the metal reinforcements, which are sandwiched between porous concrete layers, will expand and when they rust they will crack the concrete, making the structure unstable. Cracked concrete was already falling down when consent to demolish was granted in 1996. That, hand on heart, makes it difficult to make a decision.

I looked at the building again on Sunday night. I am normally optimistic and visionary. I have a track record of fighting and seeing ways through, but I could not see what we can do with that building. That does not mean to say that I am the final arbiter; I am not. I listen to other people. However, I felt extremely disappointed when I saw it, because it is an unique building. I want to assure people that if it is demolished, it will all be recorded. I hope that it will be recorded on-site. I am talking with the WDA on how the history of the building and the enterprise can be told. To be political, this was built during the time of a Labour government. I believe that its history can still be told in the context of the industrial and social history of south Wales. It is unfortunate that the building will not still be standing, but I believe that records will allow it to remain a part of that history. We must think not only about the people of today, but of future generations, who will want to understand what happened and why these decisions were taken.

10:25 a.m.

Peter Law: I am grateful for the opportunity to speak. I thank the Minister for the balanced statement that she has given today. At the outset, it is important to refer to the local scene. This is not Sydney, nor Bilbao, nor the Ruhr. This is Nant-y-glo, Brynmawr in Blaenau Gwent. People must realise that

i'r ardal honno.

O ran strwythur yr adeilad, nid wyf yn bensaer ac, felly, gallaf ond gweithredu yn ôl y cyngor a roddir imi. Holais y cwestiynau hynny. Dywedir wrthyf, am ei fod wedi cael ei adeiladu gyda concrit dur ac am fod y gragen wedi ei hamlygu i dywydd gwael—a byddai hynny'n parhau i fod yn wir pe baem yn ei gadw fel heneb—bydd yr atgyfnerthiadau metel, sydd wedi eu gosod rhwng haenau concrit mandyllog, yn ehangu a phan fyddant yn rhydu byddant yn cracio'r concrit gan wneud y strwythur yn ansad. Yr oedd concrit wedi cracio eisoes yn disgyn pan roddwyd caniatâd i ddymchwel yn 1996. Mae hynny, gyda llaw ar fy nghalon, yn ei gwneud yn anodd imi wneud penderfyniad.

Edrychais ar yr adeilad unwaith eto nos Sul. Fel arfer yr wyf yn optimistaidd ac yn weledigaethol. Mae gennyf hanes da o frwydro a chanfod atebion, ond ni allwn weld beth y gallem ei wneud gyda'r adeilad hwnnw. Nid yw hynny'n golygu mai fi yw'r cymrodeddwr terfynol; nid wyf. Gwrandawaf ar bobl eraill. Fodd bynnag, teimlais yn siomedig iawn pan welais ef, gan ei fod yn adeilad unigryw. Yr wyf am sicrhau pobl, os caiff ei ddymchwel, y caiff y cyfan ei gofnodi. Gobeithiaf y caiff ei gofnodi ar y safle. Yr wyf yn trafod gyda'r WDA ar hyn o bryd sut y gellir adrodd hanes yr adeilad a'r fenter. I fod yn wleidyddol, fe'i hadeiladwyd yng nghyfnod llywodraeth Lafur. Credaf y gellir adrodd ei hanes yng nghyd-destun hanes diwydiannol a chymdeithasol de Cymru. Mae'n anffodus na fydd yr adeilad yn sefyll o hyd, ond credaf y bydd y cofnodion yn caniatáu iddo barhau yn rhan o'r hanes hwnnw. Rhaid inni feddwl nid yn unig am bobl heddiw, ond am y cenedlaethau i ddod, a fydd am ddeall yr hyn a ddigwyddodd a pham y cymerwyd y penderfyniadau hyn.

Peter Law: Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i siarad. Diolchaf i'r Gweinidog am y datganiad cytbwys a roddodd heddiw. O'r cychwyn, mae'n bwysig cyfeirio at y sefyllfa leol. Nid Sydney yw hwn, na Bilbao, na'r Ruhr. Nant-y-glo, Brynmawr ym Mlaenau Gwent ydyw. Rhaid i bobl sylweddoli bod y

the factory is in the community of Nant-y-glo and Blaenau, next to Brynmawr town. The two communities share a population of approximately 10,000 people, they are 1,250 feet above sea level, and 40 miles from Cardiff. Brynmawr was part of the former Brecon and Radnor constituency 20 years ago. That is how far away it is, it is nearly in mid Wales.

There are still coal-tips in the area but no Liberals. [*Laughter.*] I knew that you would like that one. There is no train service, as my colleague Sue has mentioned; there are no corporate restaurants; there is only one cinema to serve a population of 80,000 people and there is no private sector, economic or leisure development. The area has 12 per cent unemployment, which is the highest unemployment in Wales; 43 per cent of people do not own a car, and 64 per cent of households have an income below £10,000. That is the situation in this area, and what we are talking about as far as this scheme is concerned.

People must get real about it. The people of Winchestown, Nant-y-glo and Warwick Road, Brynmawr have viewed this industrial hulk and the deprivation that surrounds it, which has been a major health and safety hazard to the people of those communities, for 18 years and have been trying to do something about it. We tried to save the building. We appreciated that the concrete structure was of architectural value to some degree, and we worked hard with the special working party that the Minister mentioned, chaired by Dame Margaret Weston of London's Science Museum. I was a member of that working party for a while, and all our efforts failed over a period of 10 years. With all the will in the world and all the agencies, including Save Britain's Heritage, and with all the people and expertise, we failed to find any tangible answer to the problem and the factory deteriorated further. The people lived in more squalor, in industrial wasteland with the machinery still outside and with all the tips of asbestos. The Minister has mentioned the sorts of problems that we had.

ffatri yng nghymuned Nant-y-glo a Blaenau, drws nesaf i dref Brynmawr. Mae'r ddwy gymuned yn rhannu poblogaeth o tua 10,000 o bobl, maent 1,250 o droedfeddi uwchben lefel y môr, a 40 milltir o Gaerdydd. Yr oedd Brynmawr yn rhan o gyn etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed 20 mlynedd yn ôl. Dyna pa mor bell i ffwrdd y mae, mae bron yng nghanolbarth Cymru.

Mae pyllau glo o hyd yn yr ardal ond dim Democratiaid Rhyddfrydol. [*Chwerthin.*] Gwn y byddech yn hoffi'r sylw hwnnw. Nid oes gwasanaeth trenau ar gael, fel y soniodd fy nghyd-Aelod Sue; nid oes unrhyw dai bwyta corfforaethol; dim ond un sinema sydd ar gyfer poblogaeth o 80,000 o bobl ac nid oes unrhyw sector preifat, economaidd na datblygiad hamdden. Mae 12 y cant o'r boblogaeth yn ddi-waith sef y ffigur diweithdra uchaf yng Nghymru; nid yw 43 y cant o'r bobl yn berchen ar gar, ac mae gan 64 y cant o gartrefi incwm o dan £10,000. Dyna'r sefyllfa yn yr ardal hon, a dyna'r hyn yr ydym yn sôn amdano mewn perthynas â'r cynllun hwn.

Rhaid i bobl fynd wynebu'r gwirionedd. Mae pobl Winchestown, Nant-y-glo a Heol Warwick, Brynmawr, wedi gweld y gragen ddiwydiannol hon a'r amddifadedd sydd o'i hamgylch, a fu'n beryglus iawn i iechyd a diogelwch y bobl yn y cymunedau hynny ers 18 mlynedd a buont yn ceisio gwneud rhywbeth yn ei chylch. Ceisiasom arbed yr adeilad. Gwerthfawrogasom fod y strwythur concrit o werth pensaernïol i ryw raddau, a gweithiasom yn galed gyda'r gweithgor arbennig y soniodd y Gweinidog amdano, o dan gadeiryddiaeth y Fonesig Margaret Weston o Amgueddfa Wyddoniaeth Llundain. Yr oeddwn yn aelod o'r gweithgor hwnnw am gyfnod, a methodd pob un o'n hymdrechion dros gyfnod o 10 mlynedd. Gyda phob ewyllys da yn y byd a chymorth pob un o'r asiantaethau, gan gynnwys Save Britain's Heritage, a chyda chymorth yr holl bobl a'r arbenigedd, methwyd â dod o hyd i unrhyw ateb gwirioneddol i'r broblem a dirywiodd y ffatri ymhellach. Yr oedd y bobl yn byw mewn amgylchedd mwy brwnt, ar dir diffaith diwydiannol gyda'r peiriannau y tu allan o hyd a chyda'r holl dommeni asbestos. Mae'r Gweinidog wedi sôn am y mathau o broblemau a gawsom.

It is a large site. We did our best. I appreciate that the local people who have campaigned to keep this factory standing have done so sincerely. In a democracy, people should always be given that opportunity. However, the reality is that the vast majority of the people of Blaenau Gwent, Brynmawr and Nant-y-glo want this factory razed to the ground. They want the redevelopment to take place. The redevelopment scheme is about social inclusion and taking action to help people who have not had an opportunity before.

I have been concerned about outside interests focusing on the factory and its concrete roof rather than on the people who live around it. I represent those people and that attitude concerns me. I have been concerned about the high-level media campaign that we have seen in Wales from certain national bodies. An unprecedented amount of editorial space in newspapers and news time on television has been devoted to this project. That has happened to such an extent that some believe that it has been rather sinister. Those people do not live next door to the factory. They would never live next door to it and they would never have to suffer it.

I question some of the people from outside, because they fail to see the poverty, the exclusion and the deprivation that surrounds this factory. Some of them are romantics and some are cranks. You can see that from their letters. There are many who should know better; professional people who have been quite selfish and hypocritical in their professional indulgence in wanting to keep, at immense cost, a factory that is of no benefit to the community. It perpetuates industrial hulks and eyesores in a community that needs help.

The Presiding Officer: Order. I hate to interrupt you in full flow, Peter, but this is a statement by the Minister for Environment and I would welcome a question.

Peter Law: I know, Llywydd, but this is of great concern to my constituents.

Mae'n safle mawr. Gwnaethom ein gorau. Gwerthfawrogaf fod y bobl leol a ymgyrchodd i gadw'r ffatri ar ei thraed wedi gwneud hynny mewn modd didwyll. Mewn democratiaeth, dylai pobl gael y cyfle hwnnw bob tro. Fodd bynnag, y realiti yw bod y rhan fwyaf o bobl Blaenau Gwent, Brynmawr a Nant-y-glo am i'r ffatri gael ei dymchwel yn llwyr. Maent am weld y gwaith ailddatblygu yn digwydd. Mae'r cynllun ailddatblygu yn ymwneud â chynhwysedd cymdeithasol a chymryd camau i helpu pobl na chafodd gyfle o'r blaen.

Bûm yn pryderu bod buddiannau allanol yn canolbwyntio ar y ffatri a'i tho concrit yn hytrach nag ar y bobl sydd yn byw o'i hamgylch. Cynrychiolaf y bobl hynny ac mae'r agwedd honno yn peri gofid imi. Bûm yn pryderu ynglŷn â'r ymgyrch fawr a gynhaliwyd yn y cyfryngau yng Nghymru gan gyrff cenedlaethol penodol. Neilltuwyd rhan fawr o'r colofnau golygyddol mewn papurau newydd ac amser newyddion ar y teledu i'r prosiect hwn. Digwyddodd hynny i'r fath raddau fel y cred rhai ei fod wedi mynd braidd yn sinistr. Nid yw'r bobl hynny yn byw drws nesaf i'r ffatri. Ni fyddent byth yn byw drws nesaf iddi ac ni fyddai'n rhaid iddynt byth ei dioddef.

Yr wyf yn amau rhai o'r bobl y tu allan, oherwydd maent yn methu â gweld y tloidi, yr allgáu a'r amddifadedd sydd yn amgylchynu'r ffatri hon. Mae rhai ohonynt yn rhamantwyr ac mae gan eraill chwilen yn eu pennau. Gallwch weld hynny o'u llythrau. Mae llawer a ddylai wybod yn well; pobl broffesiynol a fu'n eithaf hunanol a rhagrithiol yn eu hunanfodddhad proffesiynol wrth ddymuno cadw, ar gost aruthrol, ffatri nad yw o fudd i'r gymuned. Mae'n sicrhau bod cregyn diwydiannol ac adeiladau adfeiliedig yn parhau mewn cymuned y mae angen help arni.

Y Llywydd: Trefn. Mae'n ddrwg gennyf dorri ar draws eich llif, Peter, ond mae hwn yn ddatganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd a byddwn yn croesawu cwestiwn.

Peter Law: Gwn, Lywydd, ond mae hwn o bryder mawr i'm hetholwyr.

The Presiding Officer: Order. We have had a fine preamble. I ask you to ask questions of the Minister. We have spent almost half an hour on this statement.

Peter Law: Given the apparently immense national importance of this issue, I ask for your indulgence, Llywydd. However, I will conclude as quickly as possible.

We are talking about people that need help, not some stratospheric fantasy. It is very well to talk about the sunlight over the lake and bringing sandwiches and a flask to the site. However, people have to live in that area and they must have a future, which is what I am asking for as far as this development is concerned. By all means photograph and film the building for posterity, but do not try to circumvent the democratic will of the people. The town councils of Brynmawr, Nantyglo and Blaina, the county council, the Member of Parliament and I all support the demolition of the factory and the redevelopment of this site.

If the National Assembly is to mean anything to people, it must provide social inclusion. This is one of the first instances of the National Assembly, in the new era of democracy, saying to Valleys' communities that they have social inclusion. In giving them a £6 million grant, which will lever in another £30 million, we will give them an opportunity that others have always taken for granted, but that our people have never had. That is why you can be proud in this Chamber today. That is the difference that the National Assembly has made to my community since its establishment. I do not want that to be spoiled. I want the scheme to proceed. I want the new homes and jobs, and an improved environment and quality of life. The people expect that, and we cannot afford to let them down.

I ask the Minister to ensure that this scheme proceeds today and that nothing is put in the way of that. The people in my community are entitled to have the opportunity that others have always had in the past.

Y Llywydd: Trefn. Cawsom ragymadrodd gwych. Gofynnaf ichi ofyn cwestiynau i'r Gweinidog. Yr ydym wedi treulio bron hanner awr ar y datganiad hwn.

Peter Law: O gofio pwysigrwydd cenedlaethol aruthrol y mater hwn yn ôl pob tebyg, gofynnaf yn garedig ichi am ragor o amser, Lywydd. Fodd bynnag, byddaf yn dod i ben cyn gynted â phosibl.

Yr ydym yn sôn am bobl y mae angen cymorth arnynt, nid rhyw ffantasi stratosfferig. Mae'n iawn siarad am yr haul yn disgleirio ar y llyn ac am ddod â brechdanau a fflasg i'r safle. Fodd bynnag, mae pobl yn gorfod byw yn yr ardal honno a rhaid iddynt gael dyfodol, a dyna'r hyn y gofynnaf amdano mewn perthynas â'r datblygiad hwn. Ar bob cyfrif cewch dynnu ffotograffau a ffilmio'r adeilad ar gyfer cenedlaethau i ddod, ond peidiwch â cheisio osgoi ewyllys ddemocrataidd y bobl. Mae cynghorau tref Brynmawr, Nant-y-glo a'r Blaenau, y cyngor sir, yr Aelod Seneddol a minnau oll yn cefnogi'r bwriad i ddymchwel y ffatri ac ailddatblygu'r safle.

Er mwyn i'r Cynulliad Cenedlaethol olygu unrhyw beth i bobl, rhaid iddo ddarparu cynhwysedd cymdeithasol. Dyma un o'r enghreifftiau cyntaf o'r Cynulliad Cenedlaethol, yn oes newydd democratiaeth, yn dweud wrth gymunedau'r Cymoedd fod ganddynt gynhwysedd cymdeithasol. Wrth roi grant o £6 miliwn iddynt, a fydd yn arwain at £30 miliwn arall, rhoddwn gyfle iddynt y mae eraill wedi ei gymryd yn ganiataol erioed, ond un na chafodd ein pobl byth. Dyna pam y gallwch ymfalchïo yn y Siambr hon heddiw. Dyna'r gwahaniaeth a wnaeth y Cynulliad Cenedlaethol i'm cymuned ers ei sefydlu. Nid wyf am i hynny gael ei ddifetha. Yr wyf am i'r cynllun fynd yn ei flaen. Yr wyf am gael y cartrefi a'r swyddi newydd, a gwell amgylchedd ac ansawdd bywyd. Mae'r bobl yn disgwyl hynny, ac ni allwn eu siomi.

Gofynnaf i'r Gweinidog sicrhau bod y cynllun hwn yn mynd rhagddo heddiw ac na ddaw dim i'w atal. Mae gan y bobl yn fy nghymuned yr hawl i gael y cyfle a fu gan eraill yn y gorffennol.

The Presiding Officer: Thank you for the question, Peter.

Sue Essex: We must listen seriously to what Peter says. It comes from the heart and from a representative with an overwhelming mandate. We must recognise that. Your election result and Llew Smith's result—and, to be fair, I think that Phil Williams recognised that—reflect that overwhelming mandate. I also recognise that you live in that community, Peter; you are not an elected representative who lives some distance away. You live in that community and were brought up there. You talk to that community and face up to its views. I take your views seriously.

Many of the people who live in that community want the uncertainty removed. Our way forward will do that. I do not honestly know what the future holds. At this stage, the redevelopment scheme has been put on hold. I fear that without any identified use for this building, and given the huge costs associated with bringing it up to standard and preserving it for the future, we will not find a way forward on this. The prospect of the hulk of the building remaining to rot away would not only have a depressing effect on the community, but also not throw any light on matters in the Assembly.

We must face up to the fact that the time for saving this building has, unfortunately, gone. We need to learn lessons from that. As you said, Peter, we talk about social inclusion. We need to face up to that and to deliver the policies, priorities and spending that will provide that.

William Graham: Minister, you will be aware of the depth of local feeling. I am grateful to your Deputy Minister, Delyth Evans, for receiving a petition outside the Assembly building when you were otherwise engaged. I am also grateful to the staff of the Table Office for receiving the petition. Will you publish the information that you gave in your statement about concrete cancer? As Dr

Y Llywydd: Diolch ichi am y cwestiwn, Peter.

Sue Essex: Rhaid inni wrando o ddifrif ar yr hyn a ddywed Peter. Daw o'r galon ac oddi wrth gynrychiolydd â mandad aruthrol. Rhaid inni gydnabod hynny. Adlewyrchodd canlyniad eich etholiad a chanlyniad Llew Smith—ac a bod yn deg, credaf fod Phil Williams wedi cydnabod hynny—y mandad aruthrol hwnnw. Yr wyf innau hefyd yn cydnabod eich bod yn byw yn y gymuned honno, Peter; nid cynrychiolydd etholedig ydych sydd yn byw beth bellter i ffwrdd. Yr ydych yn byw yn y gymuned honno a chawsoch eich magu yno. Yr ydych yn siarad â'r gymuned honno ac yn wynebu ei safbwyntiau. Cymeraf eich safbwyntiau o ddifrif.

Mae llawer o'r bobl sydd yn byw yn y gymuned honno am ddileu'r ansicrwydd. Bydd ein ffordd ymlaen yn gwneud hynny. Mewn gwirionedd, ni wn beth a ddeil y dyfodol. Ar hyn o bryd, gohiriwyd y cynllun ailddatblygu dros dro. Heb unrhyw ddefnydd amlwg i'r adeilad hwn, ac o gofio'r costau anferthol sydd yn gysylltiedig â sicrhau ei fod yn safonol a'i gadw ar gyfer y dyfodol, ofnaf na ddeuwn o hyd i ffordd ymlaen ar y mater hwn. Byddai meddwl am gragen yr adeilad yn parhau i bydru nid yn unig yn cael effaith ddiflas ar y gymuned, ond ni fyddai ychwaith yn taflu unrhyw oleuni ar faterion yn y Cynulliad.

Rhaid inni wynebu'r ffaith bod y cyfle i arbed yr adeilad hwn wedi mynd heibio yn anffodus. Mae angen inni ddysgu gwersi o hynny. Fel y dywedaso, Peter, siaradwn am gynhwysedd cymdeithasol. Mae angen inni wynebu hynny a chyflwyno'r polisiau, y blaenoriaethau a'r gwariant a fydd yn darparu hynny.

William Graham: Weinidog, yr ydych yn ymwybodol o'r teimladau lleol dwfn. Yr wyf yn ddiolchgar i'ch Dirprwy Weinidog, Delyth Evans, am dderbyn deiseb y tu allan i adeilad y Cynulliad pan oeddech ar ddyletswydd yn rhywle arall. Yr wyf yn ddiolchgar hefyd i staff y Swyddfa Gyflwyno am dderbyn y ddeiseb. A gyhoedddech yr wybodaeth a roddaso, yn eich datganiad ynglŷn â

Phil Williams said, this is still a matter of conjecture. I also ask you to give further details on the compensation element. The figure of £6 million is relatively new. We are concerned about it, as it is, again, a matter of conjecture. It is likely that the site is of more than negative value. Therefore, the figure is unreliable. Given the immense cost of demolition and that the cost of restoring the site would be aided by public funds, compensation may well be made a nil equation.

10:35 a.m.

I also ask you to note that development could take place while the building is retained. They are not mutually exclusive. It is likely that nothing more than a large housing development will be built on the site. In reality, the prospect of attracting industry and jobs to the site is remote. The plea for social inclusion, though widely supported, is not likely to become a reality through this site.

As you said in your statement, it is regrettable that the building has deteriorated to its present state. However, this is an important and unique site; the building is an example of a post-modernist structure. Like everyone else, I am sure that, on visiting the site, you would have been impressed by the enormous concrete freestands. There are no pillars in the building, unlike in this Chamber. It is an enclosed space of monumental proportions, and is extremely important in architectural history. We will bear a large burden if we destroy the site. We often refer to future generations asking why we have destroyed sites. This will be one of those sites. Why destroy it, when we have the opportunity not to do so? I ask you to be innovative and bold, and schedule this site as an ancient monument. You should make it an ancient monument and provide funds for stabilisation. That would ensure that the site continues to be a focus of local pride and provides an opportunity for the growth of tourism in the area, as opposed to being demolished simply to make way for housing. I acknowledge that there is strong feeling against keeping the site locally. No-one wants to look at a building that has deteriorated over 21 years. However, I ask

chanser concrit? Fel y dywedodd Dr Phil Williams, mater o ddamcaniaethu yw hyn o hyd. Gofynnaf ichi roi manylion pellach am yr elfen o iawndal hefyd. Mae'r ffigur o £6 miliwn yn gymharol newydd. Gofidiwn am hynny, gan ei fod, unwaith eto, yn fater o ddamcaniaethu. Mae'n debygol bod mwy na gwerth negyddol yn unig i'r safle. Felly, mae'r ffigur yn annibynadwy. O gofio pa mor gostus yw dymchwel ac y byddai arian cyhoeddus yn helpu i dalu'r gost o adfer y safle, efallai na fydd iawndal yn ffactor.

Gofynnaf ichi nodi hefyd y gellid datblygu a chadw'r adeilad ar yr un pryd. Nid yw'r ddau yn bethau ar wahân. Mae'n debygol na chaiff dim mwy na datblygiad tai mawr ei adeiladu ar y safle. Mewn gwirionedd, mae'r gobaith o ddenu diwydiant a swyddi i'r safle yn wan iawn. Nid yw'r ple am gynhwysedd cymdeithasol, er bod cefnogaeth eang iddo, yn debygol o ddod yn realiti drwy'r safle hwn.

Fel y dywedasoeh yn eich datganiad, mae'n anffodus bod yr adeilad wedi dirywio i'w gyflwr presennol. Fodd bynnag, mae hwn yn safle pwysig ac unigryw; mae'r adeilad yn enghraifft o strwythur ôl-fodernaidd. Fel pawb arall, yr wyf yn siŵr, wrth ymweld â'r safle, y byddai'r darnau concrit enfawr diateg wedi creu argraff arnoch. Nid oes unrhyw bileri yn yr adeilad, yn wahanol i'r Siambr hon. Mae'n ardal amgaeedig o faint aruthrol, ac mae'n eithriadol o bwysig mewn hanes pensaernïol. Byddwn yn cario baich mawr os dinistriwn y safle. Cyfeiriwn yn aml at genedlaethau'r dyfodol yn gofyn pam ein bod wedi dinistrio safleoedd. Bydd y safle hwn yn un ohonynt. Pam y dylem ei ddinistrio, pan fo'r cyfle gennym i beidio â gwneud hynny? Gofynnaf ichi fod yn arloesol a mentrus, a chofrestru'r safle hwn yn heneb. Dylech ei wneud yn heneb a darparu arian i'w sefydlogi. Byddai hynny'n sicrhau bod y safle'n parhau i fod yn ganolbwynt balchder lleol gan roi cyfle i dwristiaeth ffynnu yn yr ardal, yn hytrach na'i ddymchwel er mwyn gwneud lle i dai yn unig. Yr wyf yn cydnabod bod teimpladau lleol cryf yn erbyn cadw'r safle. Nid oes unrhyw un yn dymuno edrych ar adeilad sydd wedi dirywio dros 21 o flynyddoedd. Fodd bynnag, gofynnaf ichi

you to be bold and to make a provocative statement and declare that this is an ancient monument and will remain standing.

Sue Essex: I gather from that that William wants the regeneration scheme as it stands amended and the building capped. As I explained in my statement, I have considered those options. I will make all the information that I have on this available; information is not being withheld. I explained that the compensation is generalised. I think that the figure of £6 million was quoted in *The Western Mail*. An accurate figure cannot be given, as other aspects must be addressed. However, these are the figures and information given to me by the WDA. I can only quote the figures given to me. The WDA has been closely involved in this, and the staff involved in the scheme have worked extensively through south Wales. They have good experience and good working knowledge to fall back on.

The monumental scale of the building is what makes keeping it all the more difficult. I do not know whether you understand—sorry, that is not fair—I do not know whether you are aware that large factory buildings are always problematic. That is my experience. Although they have architectural merit, it is extremely difficult to find uses for them, as they do not adapt easily to other uses. The building's monumental scale poses difficulty. The redevelopment scheme has been developed as a package. I do not know whether the scheme would still be viable if the plan to demolish the building was taken out. The WDA tells me that it is dealing with this as one package. The building contains asbestos, and there are structural and safety issues. Those issues would have to be addressed.

We have asked Cadw, which is my adviser on this, whether the building could be scheduled as an ancient monument and left as it is. Cadw does not feel that that would be appropriate. Compensation on scheduled buildings such as this tends to be much more than for a simple revocation, although revocation is never simple in itself. Compensation would be likely to be much higher for a scheduled building, as you would

fod yn fentrus a gwneud datganiad herfeiddiol a datgan bod hwn yn heneb ac y bydd yn parhau i sefyll.

Sue Essex: Casglaf oddi wrth hynny fod William yn dymuno i'r cynllun adfywio presennol gael ei newid a'r adeilad i gael ei ddiogelu. Fel yr eglurais yn fy natganiad, yr wyf wedi ystyried yr opsiynau hynny. Sicrhaf y bydd yr holl wybodaeth sydd gennyf am hyn ar gael; ni chaiff yr wybodaeth ei hatal. Eglurais fod yr iawndal wedi ei gyffredinoli. Credaf fod y ffigur o £6 miliwn wedi ei ddyfynnu yn *The Western Mail*. Ni ellir rhoi ffigur cywir, gan fod yn rhaid ymdrin ag agweddau eraill. Fodd bynnag, dyma'r ffigurau a'r wybodaeth a roddwyd imi gan y WDA. Dim ond y ffigurau a roddwyd imi y gallaf eu dyfynnu. Bu'r WDA yn ymwneud yn agos â hyn, ac mae'r staff sydd yn gysylltiedig â hyn wedi gweithio'n helaeth ledled de Cymru. Mae ganddynt brofiad da a gwybodaeth ddigonol dda y gallant ddibynnu arnynt.

Maint aruthrol yr adeilad yw'r hyn sydd yn golygu ei fod gymaint yn anos ei gadw. Ni wn a ydych yn deall—mae'n ddrwg gennyf, nid yw hynny'n deg—ni wn a wyddoch fod adeiladau ffatrioedd mawr bob amser yn creu problemau. Dyna fy mhrofiad i. Er bod ganddynt rinweddau pensaernïol, mae'n eithriadol o anodd dod o hyd i ddefnydd iddynt, gan nad ydynt yn addasu'n hawdd i ddefnyddiau eraill. Mae maint aruthrol yr adeilad yn creu anhawster. Datblygwyd y cynllun ailddatblygu fel pecyn. Ni wn a fyddai'r cynllun yn ddichonol o hyd pe bai'r cynllun i ddymchwel yr adeilad yn cael ei ddiystyru. Dywed y WDA wrthyf ei fod yn delio â hyn fel un pecyn. Mae'r adeilad yn cynnwys asbestos ac mae materion strwythurol a diogelwch i'w hystyried. Byddai'n rhaid ymdrin â'r materion hynny.

Yr ydym wedi gofyn i Cadw, sef fy ymgynghorydd ar hyn, a ellid cofrestru'r adeilad yn heneb a'i adael fel y mae. Nid yw Cadw'n teimlo y byddai hynny'n briodol. Mae iawndal ar adeiladau cofrestredig fel hwn yn tueddu i fod ar gyfer mwy na diddymiad syml yn unig, er nad yw diddymu ynddo'i hun byth yn syml. Byddai iawndal yn debygol o fod yn llawer uwch ar gyfer adeilad cofrestredig gan y byddech yn cadw'r

be retaining the structure in perpetuity.

Designating the site an ancient monument is a legal option. However, I am not sure whether that would serve this building best. That is not the architectural advice that I have received. The real essence of the building, which was its innovatory nature and vitality, would disappear. The opinions that I have received from Cadw—we have talked about this at length—is that this is the only option in terms of legal intervention. I, together with my advisers at Cadw, and Peter Law and others, do not feel that the people of Brynmawr would think that that would be appropriate or, in terms of recording this for the national interest, the best way to treat this building.

Mick Bates: It would appear that, as for another domed structure, only demolition will do. However, the UK Government found millions of pounds to finance the Millennium Dome in London. One is tempted to ask, therefore, why that was not the case in Brynmawr.

I have two points. First, will you give a guarantee that the information on which you base much of your statement and which has led to the conclusion about the building's structural defects, will be placed in the public domain? Secondly, will you give an assurance that the asbestos and other materials will be disposed of safely so that there is no further contamination of the site? Will you undertake to ensure that any similar buildings of an historic nature will be listed, and feasibility studies undertaken so that such processes in future do not go on for as long as this one has? I am sure that there are other buildings in Wales that could be equally controversial. Therefore, it is time that we knew about them so that we can make greater efforts to retain our heritage.

Sue Essex: I said, in answer to William Graham, that the information that I have will be available to anyone on request. The safe disposal of asbestos was part of the demolition agreement, and that is taking place. If we scheduled the building as an ancient monument, that would become our responsibility because we would be taking over the current rights of the owner of the

strwythur am byth.

Mae dynodi'r safle yn heneb yn opsiwn cyfreithiol. Fodd bynnag, nid wyf yn siŵr ai hynny fyddai orau i'r adeilad hwn. Nid dyna'r cyngor pensaernïol a gefais i. Byddai hanfod gwirioneddol yr adeilad, sef ei natur arloesol a'i fywiogrwydd, yn diflannu. Ym marn Cadw—yr ydym wedi siarad am hyn yn bur faith—dyma'r unig opsiwn o ran ymyrraeth cyfreithiol. Ni chredaf fi, ynghyd â'm hymgynghorwyr yn Cadw, a Peter Law ac eraill, y byddai pobl Brynmawr yn credu y byddai hynny'n briodol neu, o ran cofnodi hyn er budd cenedlaethol, mai dyna fyddai'r ffordd orau o drin yr adeilad hwn.

Mick Bates: Mae'n ymddangos, fel sydd yn wir am unrhyw strwythur cromennog arall, mai'r unig ateb yw dymchwel. Fodd bynnag, daeth Llywodraeth y DU o hyd i filiynau o bunnoedd i ariannu Dôm y Mileniwm yn Llundain. Mae'n demtasiwn i ofyn felly, pam nad oedd hynny'n bosibl ym Mrynmawr.

Mae gennyf ddau bwynt. Yn gyntaf, a roddwch warant y bydd yr wybodaeth y seiliwch lawer o'ch datganiad arni ac sydd wedi arwain at y casgliad ynglŷn â diffygion strwythurol yr adeilad, ar gael i'r cyhoedd? Yn ail, a roddwch sicrwydd y caiff yr asbestos a deunyddiau eraill eu gwaredu'n ddiogel fel na ddifwynir y safle ymhellach? A sicrhewch y caiff unrhyw adeiladau tebyg o natur hanesyddol eu rhestru, ac y cynhelir astudiaethau dichonoldeb fel na fydd prosesau tebyg yn y dyfodol yn mynd yn eu blaenau am gymaint o amser ag y gwnaeth hon? Yr wyf yn siŵr bod adeiladau eraill yng Nghymru a allai fod yr un mor ddadleuol. Felly, mae'n bryd inni wybod amdanynt fel y gallwn ymdrechu'n galetach i gadw ein treftadaeth.

Sue Essex: Dywedais, wrth ateb William Graham, y bydd yr wybodaeth sydd gennyf, ar gael i unrhyw un ar gais. Yr oedd gwaredu'r asbestos yn ddiogel yn rhan o'r cytundeb dymchwel, ac mae hynny'n digwydd. Pe baem yn cofrestru'r adeilad yn heneb, ein cyfrifoldeb ni wedyn fyddai'r adeilad gan y byddem yn ymgymryd â hawliau cyfredol perchennog y tir a'r adeilad.

land and building. I would like to clarify that the building is privately owned.

We have lost many listed buildings throughout the UK. The problem with almost all such buildings is that, unless they are very significant and the state becomes responsible for their maintenance—and we have very few of those—they must have a use. I have learnt the lesson over the years that you cannot maintain such buildings unless there is a viable use for them. That is the problem with which people have grappled. I think that you must pay tribute, Mick, to the many eminent, caring people—not philistines—who have been trying, over the years, as Peter said, to find a way forward. That must be stressed, as it was not done lightly. It would have been easy for them to walk away from this, but that did not happen. People have put a lot of time and effort into this, which is why the breathing space was made available. Unfortunately, there was no easy way through. As I said to William Graham, it comes down to the difficulty posed by a building of such a monumental scale.

In terms of the way forward, we must consider heritage in a more integrated way. We must learn lessons from this and from the agencies responsible. Mick referred to the Millennium Dome in London, but we must remember that we are working with a Welsh budget, in which we must prioritise expenditure. That is difficult, but it is what politicians must do. I understand why someone may have views on, or feel passionately about a certain scheme, as do a number of architectural historians and other people. However, as politicians, we must make decisions about financial priorities in the round. That is why I mentioned the Gwent railway, which has the support of Members and the local community.

10:45 a.m.

That is an example of a project that it has been difficult to make an expenditure priority. If we reintroduce the passenger service on the Gwent railway, it would not

Hoffwn egluro fod yr adeilad yn eiddo preifat.

Collasom lawer o adeiladau rhestredig ledled y DU. Y broblem gyda bron pob adeilad o'r fath yw, oni bai eu bod yn bwysig iawn a bod y wladwriaeth yn gyfrifol am eu cynnal a'u cadw—a phrin yw'r rhai hynny—mae'n rhaid bod iddynt ddefnydd. Dysgais y wers dros y blynyddoedd na allwch gynnal a chadw adeiladau o'r fath os nad oes defnydd ymarferol iddynt. Dyna'r broblem yr ymgodymodd pobl â hi. Credaf fod yn rhaid ichi dalu teyrnged, Mick, i'r nifer helaeth o bobl enwog, mawr eu gofal—nid philistiaid—a fu'n ceisio, dros y blynyddoedd, fel y dywedodd Peter, i ddod o hyd i ffordd ymlaen. Rhaid pwysleisio hynny, gan nad ar chwarae bach yr ymgwymerwyd â hynny. Byddai wedi bod yn hawdd iddynt gerdded i ffwrdd oddi wrth hyn, ond ni ddigwyddodd hynny. Mae pobl wedi treulio llawer o amser ac wedi ymdrechu'n galed, a dyna pam y caniatawyd amser ychwanegol. Yn anffodus, nid oedd unrhyw ateb hawdd ar gael. Fel y dywedais wrth William Graham, y broblem yn ei hanfod yw'r anhawster y mae adeilad o'r maint aruthrol hwn yn ei greu.

O ran y ffordd ymlaen, rhaid inni ystyried treftadaeth mewn ffordd fwy integredig. Rhaid inni ddysgu gwersi o hyn ac o'r asiantaethau sydd yn gyfrifol. Cyfeiriodd Mick at Ddôm y Mileniwm yn Llundain, ond rhaid inni gofio ein bod yn gweithio gyda chyllideb Gymreig, lle mae'n rhaid inni flaenoriaethu gwariant. Mae hynny'n anodd, ond dyna yw swyddogaeth gwleidyddion. Deallaf pam fod gan rywun farn ar hyn, neu pam y teimlant yn angerddol ynglŷn â chynllun penodol, fel y gwna nifer o haneswyr pensaernïol a phobl eraill. Fodd bynnag, fel gwleidyddion, rhaid inni wneud penderfyniadau ynglŷn â blaenoriaethau ariannol yn gyffredinol. Dyna pam y soniais am reilffordd Gwent, y mae'r Aelodau a'r gymuned leol yn ei chefnogi.

Mae honno'n enghraifft o brosiect lle y bu'n anodd blaenoriaethu o ran gwariant. Os ailgyflwynwn y gwasanaeth i deithwyr ar reilffordd Gwent, byddai nid yn unig yn

only pick up past history, but it would mean regeneration for the future. We are all certain about that. These are the difficulties. We must consider that there are substantial expenditures and that we do not know what the outcome might be. That, in itself, does not mean that keeping the building is not the way forward. However, when you set that against all the other priorities, that is a difficult decision to make. It is my job to make such decisions. All planning decisions like this one, William, are difficult. There are two sides to an argument. I have lived with that for years. It will pain me if this building is demolished because I have fought for so many buildings. However, I cannot see a way forward for this. We must listen carefully to Peter's views as an elected representative of that community.

Richard Edwards: I welcome your statement, and note in particular your comments about cost. We have many competing demands on limited public resources and we must prioritise. The demolition of this building may be regrettable and the decision is not being taken lightly, but how can we justify prioritising over £6 million, or whatever, for retaining this building to the underprivileged citizens of Blaenau Gwent, about whom Peter Law spoke so eloquently and powerfully? If William Graham is so enamoured with it, I suggest that he goes to live next to it. On the subject of democracy, Sue, do you agree that devolution means having to say, from time to time, 'no' to the chattering classes who think that they have a divine right to dictate our agenda?

Sue Essex: I believe that devolution is listening. It is a tribute to the Assembly that we do that well. I have listened to all the points and read the comments. I have not replied personally to all the e-mails, but people have received letters from me. Those who have asked me for personal replies will receive them. As you rightly say, we must look at this in the round. We must work within priorities. It is unfortunate, but that is life and those judgments must be made. As I said before, we can adequately record this building now. We can put it in its

ailafael yn hanes y gorffennol, ond yn golygu adfywio ar gyfer y dyfodol. Mae pob un ohonom yn bendant ynglŷn â hynny. Dyma'r anawsterau. Rhaid inni ystyried y gwariant sylweddol heb wybod beth fydd y canlyniad. Nid yw hynny, ynddo'i hun, yn golygu nad cadw'r adeilad yw'r ffordd orau ymlaen. Fodd bynnag, pan osodwch hynny yn erbyn yr holl flaenoriaethau eraill, mae hwnnw'n benderfyniad anodd i'w wneud. Fy ngwaith i yw gwneud penderfyniadau o'r fath. Mae pob penderfyniad cynllunio fel hwn, William, yn anodd. Mae dwy ochr i bob dadl. Yr wyf wedi byw gyda hynny ers blynyddoedd. Bydd yn boen enaid imi os dymchwelir yr adeilad hwn gan fy mod wedi brwydro dros gadw cymaint o adeiladau. Fodd bynnag, ni allaf weld ffordd ymlaen. Rhaid inni wrando'n ofalus ar safbwyntiau Peter fel cynrychiolydd etholedig y gymuned honno.

Richard Edwards: Croesawaf eich datganiad, a nodaf yn arbennig eich sylwadau am gost. Mae gennym lawer o alwadau ar adnoddau cyhoeddus cyfyngedig sydd yn cystadlu â'i gilydd a rhaid inni flaenoriaethu. Mae'n anffodus bod yn rhaid dymchwel yr adeilad hwn, ac nid ar chwarae bach y cymerir y penderfyniad, ond sut y gallwn gyfiawnhau blaenoriaethu dros £6 miliwn, neu faint bynnag, i gadw'r adeilad hwn i ddinasyddion llai breintiedig Blaenau Gwent, y siaradodd Peter Law mor huawdl a phwerus amdanynt? Os yw William Graham wedi ymserchu cymaint ynddo, awgrymaf ei fod yn mynd i fyw y drws nesaf iddo. O ran democratiaeth, Sue, a gytunwch fod datganoli yn golygu gorfod dweud 'na', o bryd i'w gilydd, i'r dosbarth canol dysgedig sydd yn credu bod ganddynt hawl ddwyfol i osod ein hagenda?

Sue Essex: Credaf fod datganoli yn gwrando. Mae'n deyrnged i'r Cynulliad ein bod yn gwneud hynny'n dda. Gwrandewais ar yr holl bwyntiau a darllenais y sylwadau. Nid wyf wedi ateb pob e-bost yn bersonol, ond mae pobl wedi derbyn llythyrau gennyf. Bydd y rheini sydd wedi gofyn imi am atebion personol yn eu cael. Fel y dywedasoeh, a hynny'n briodol, rhaid inni edrych ar hyn yn ei gyfanrwydd. Rhaid inni weithio o fewn y blaenoriaethau. Mae'n anffodus, ond dyna fel y mae a rhaid gwneud y dyfarniadau hynny. Fel y dywedais o'r blaen, gallwn gofnodi'r

architectural and social context, which will be a contribution. I would be angry if the demolition of this building were to be portrayed as Wales not caring about its architecture or history. Part of my reason for making this statement is so that people are aware of what has happened, how we have cared and how we have reached this point. That will go on record. I care about design, as, I think, do all Members. I care about our architectural heritage. However, we must ensure that we consider all our priorities. I hope that lessons are learnt from this, and that we consider the value of heritage and we try to prevent this happening again. I cannot, hand on heart, say that it will not, because all circumstances are different. However, in doing this, we are saying that we value design and heritage, but we also value the community. As Peter said, our priority must be the people who live in those communities and what is important to them.

adeilad hwn yn ddigonol yn awr. Gallwn ei roi yn ei gyd-destun pensaernïol a chymdeithasol, a fydd yn gyfraniad. Byddwn yn ddig pe cai'r gwaith o ddymchwel yr adeilad hwn ei gofnodi fel pe bai Cymru yn hidio dim am ei phensaernïaeth na'i hanes. Rhan o'm rheswm dros wneud y datganiad hwn yw i wneud pobl yn ymwybodol o'r hyn sydd wedi digwydd, a dangos iddynt ei fod wedi bod o bwys inni a sut y daethom i'r fan hon. Caiff hynny ei gofnodi. Y mae cynllunio o bwys i mi, fel y mae i bob Aelod, fe gredaf. Y mae ein treftadaeth bensaernïol o bwys i mi. Fodd bynnag, rhaid inni sicrhau ein bod yn ystyried pob un o'n blaenoriaethau. Gobeithiaf y dysgir gwersi o hyn, ac yr ystyriwn werth treftadaeth ac y ceisiwn atal hyn rhag digwydd eto. Ni allaf, â llaw ar fy nghalon, ddweud na fydd hynny'n digwydd, oherwydd mae amgylchiadau yn amrywio. Beth bynnag, wrth wneud hyn, yr ydym yn dweud ein bod yn gwerthfawrogi cynllunio a threftadaeth, ac ein bod hefyd yn gwerthfawrogi'r gymuned. Fel y dywedodd Peter, rhaid i'r bobl sydd yn byw yn y cymunedau hynny a'r hyn sydd yn bwysig iddynt hwy fod yn flaenoriaeth inni.

Pwynt o Drefn Point of Order

Rhodri Glyn Thomas: Point of order. I raise this under Standing Order No. 18.1, which refers to the record of proceedings in the Chamber. Last Thursday in the Chamber, Huw Lewis made a statement referring to a motion in the Education and Lifelong Learning Committee. It is on page 37 of the record of last Thursday's proceedings. He states,

'That motion was passed and it simply states the opinion of the majority of the Committee—and now the Committee as a whole—that we disagree with the idea that we should handle, process and consider seriously comments that exclude portions of the Welsh population on the basis of their nationality or ethnic origin. There would have been no problem in passing this motion if the paper referred to the exclusion of black people'.

I was bemused and at a loss to understand to

Rhodri Glyn Thomas: Pwynt o drefn. Codaf hyn o dan Reol Sefydlog Rhif 18.1, sydd yn cyfeirio at gofnod o drafodion y Siambr. Ddydd Iau diwethaf yn y Siambr, gwnaeth Huw Lewis ddatganiad yn cyfeirio at gynnig yn y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Fe'i gwelir ar dudalen 37 o gofnod dydd Iau diwethaf. Dywedodd,

'Pasiwyd y cynnig hwnnw ac mae'n datgan yn syml farn y rhan fwyaf o'r Pwyllgor—ac erbyn hyn y Pwyllgor cyfan—ein bod yn anghytuno â'r syniad y dylem ymdrin, prosesu ac ystyried yn ddifrifol sylwadau sydd yn eithrio rhannau o boblogaeth Cymru ar sail eu cenedl neu eu tarddiad ethnig. Ni fyddem wedi cael unrhyw broblem yn pasio'r cynnig hwn pe bai'r papur yn cyfeirio at eithrio pobl ddu'.

Yr oeddwn wedi'm rhyfeddu ac yn methu â

what Huw Lewis was referring. Therefore, I referred back to the record of the Education and Lifelong Learning Committee. I now refer to Standing Order No.18.2, because we do not have a verbatim—

The Presiding Officer: Order. There is no record of proceedings of Committee meetings.

Rhodri Glyn Thomas: I am coming to that. There is actually—

The Presiding Officer: Order. How is this a point of order for me?

Rhodri Glyn Thomas: If I may explain, you will see that this is a serious point of order and it has serious implications. There is not a verbatim record of Committee proceedings but there is a video of them. Having studied carefully the video of the relevant Committee meeting, I can confirm that the words that Huw Lewis used in that Committee motion were as follows.

‘The contention that there are too many non-Welsh students in the University of Wales, which was part of Dafydd Glyn Jones’s evidence, is discriminatory and offensive. All we have to do to see the clarity of what I am saying here is to replace the words, for instance, “non-Welsh” with the words “non-white” and you have the nature of the sentence: there are too many non-white students in the University of Wales.’

I read carefully the evidence that Dafydd Glyn Jones presented to the Committee. I also asked colleagues to read that evidence—

The Presiding Officer: Order. This is not a point of order for me.

Rhodri Glyn Thomas: If you will let me explain, you will see that this is a serious point of order with serious implications for the Assembly.

The Presiding Officer: Order. This refers to a matter that took place in a Committee of the National Assembly. It is not a point of order for me.

Rhodri Glyn Thomas: It refers to a statement made in the Chamber, which was misleading because—

The Presiding Officer: Order. I am not

deall at beth yr oedd Huw Lewis yn cyfeirio. Felly, cyfeiriais yn ôl at gofnod y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Cyfeiriais yn awr at Reol Sefydlog Rhif 18.2, am nad oes gennym yr hyn a ddywedwyd gair am air—

Y Llywydd: Trefn. Ni cheir cofnod o drafodion cyfarfodydd Pwyllgorau.

Rhodri Glyn Thomas: Yr wyf yn dod at hynny. Ceir mewn gwirionedd—

Y Llywydd: Trefn. Sut y mae hyn yn bwynt o drefn i mi?

Rhodri Glyn Thomas: Os gallaf egluro, fe welwch fod hyn yn bwynt o drefn difrifol a bod iddo oblygiadau difrifol. Ni cheir cofnod gair am air o drafodion Pwyllgorau ond ceir fideo ohonynt. Ar ôl astudio fideo o’r cyfarfod Pwyllgor perthnasol yn ofalus, gallaf gadarnhau bod y geiriau a ddefnyddiodd Huw Lewis yn y cynnig hwnnw yn y Pwyllgor fel a ganlyn.

Darllenais y dystiolaeth a gyflwynodd Dafydd Glyn Jones gerbron y Pwyllgor yn ofalus. Gofynnais i gyd-Aelodau hefyd ddarllen y dystiolaeth honno—

Y Llywydd: Trefn. Nid pwynt o drefn yw hwn i mi.

Rhodri Glyn Thomas: Os caniatewch imi egluro, fe welwch fod hwn yn bwynt o drefn difrifol gyda goblygiadau difrifol i’r Cynulliad.

Y Llywydd: Trefn. Cyfeiria hwn at fater a ddigwyddodd o fewn un o Bwyllgorau’r Cynulliad Cenedlaethol. Nid pwynt o drefn i mi yw hyn.

Rhodri Glyn Thomas: Cyfeiria at ddatganiad a wnaethpwyd yn y Siambr, a oedd yn gamarweiniol oherwydd—

Y Llywydd: Trefn. Nid myfi sydd yn

responsible for the content of Members' statements, except where those statements are out of order. Nothing in the statement made in Plenary last week was out of order.

Rhodri Glyn Thomas: There are four substantive issue that arise—

The Presiding Officer: Order. I have ruled on this.

gyfrifol am gynnwys datganiadau'r Aelodau, ar wahân i'r rheini sydd allan o drefn. Nid oedd unrhyw beth yn y datganiad yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos diwethaf allan o drefn.

Rhodri Glyn Thomas: Cyfyd pedwar mater sylweddol—

Y Llywydd: Trefn. Yr wyf wedi dyfarnu ar hyn.

Deddf Llywodraeth Leol 2000 The Local Government Act 2000

The Presiding Officer: I have selected amendments 1, 4 and 5 in the name of William Graham and amendments 2, 3 and 6 in the name of Jocelyn Davies.

The Minister for Finance, Local Government and Communities (Edwina Hart): I propose that

the National Assembly

1. welcomes the provisions of the Assembly Local Government Bill which establishes a new ethical framework for local government.

2. endorses the general principles and codes of conduct for members and employees of local authorities.

3. supports the new investigatory functions proposed for the Commissioner for Local Administration in Wales and the establishment of an independent adjudication panel.

4. supports the requirement for local authorities to establish standards committees. (NDM705)

I ask the Assembly to welcome the comprehensive framework of proposals for ensuring high standards of conduct in Welsh local government. The 10 statutory instruments will provide a new code of conduct for local authorities, require each local authority to establish a standards committee and provide an independent external check on standards through the

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 4 a 5 yn enw William Graham a gwelliannau 2, 3 a 6 yn enw Jocelyn Davies.

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart): Cynigiaf fod

y Cynulliad Cenedlaethol

1. yn croesawu'r ddarpariaeth ym Mesur Llywodraeth Leol y Cynulliad sydd yn sefydlu fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol.

2. yn cymeradwyo'r egwyddorion cyffredinol a'r codau ymarfer ar gyfer aelodau a gweithwyr awdurdodau lleol.

3. yn cefnogi'r swyddogaethau archwilio newydd a gynigwyd ar gyfer y Comisiynydd dros Weinyddu Lleol yng Nghymru a sefydlu panel dyfarniadau annibynnol.

4. yn cefnogi'r angen i awdurdodau lleol sefydlu pwyllgorau safonau. (NDM705)

Gofynnaf i'r Cynulliad groesawu'r fframwaith cynhwysfawr o gynigion er mwyn sicrhau safonau uchel o ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Bydd y 10 offeryn statudol yn darparu cod ymddygiad newydd ar gyfer awdurdodau lleol, a fydd yn ei wneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol sefydlu pwyllgor safonau a darparu gwiriad annibynnol allanol ar

Commissioner for Local Administration in Wales. I am sure that you will all agree that these issues are exceptionally important and show the Assembly making a difference in Wales in terms of our legislative programme.

Standards of conduct in local government have been good and compare well with any organisation of equivalent scale. However, in the public services, we must ensure that everything is done to maintain public confidence. That was very much the theme of the debate that we begun on Tuesday. Each instance of low standards can cast doubt on the whole organisation. That is why the public needs to see transparent mechanisms for setting standards and monitoring achievements. It is for that reason that the Welsh local authorities have been keen to work with us in developing this framework. It has not been imposed upon them; local authorities want to give the public the confidence that it provides.

This framework will apply not only to county and county borough councils but, importantly, to fire authorities, national parks authorities and town and community councils. The general principles of conduct and code of conduct for members will underpin the whole process. In Wales, local authorities have agreed to adopt a common code. They may add to it, but they cannot take anything away from it. The regulations will require them to adopt the model code by the end of January 2002. The view is that a common code will give the public greater confidence. Members will be required to undertake to observe the code by the end of March 2000.

At the heart of the code is the notion that members and co-opted members must never use their public position for private ends. The code also reinforces the notions of respect for others, promotion of equality of opportunity, openness and soundly-based decision-making, which are fundamental to good government and public confidence.

That is why I do not agree with the

safonau drwy'r Comisiynydd dros Weinyddu Lleol yng Nghymru. Yr wyf yn sicr y bydd pawb yn cytuno bod y materion hyn yn eithriadol bwysig a'u bod yn dangos bod y Cynulliad yn gwneud gwahaniaeth yng Nghymru o ran ein rhaglen ddeddfwriaethol.

Mae safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol wedi bod yn dda ac maent yn cymharu'n ffafriol ag unrhyw sefydliad ar raddfa debyg. Fodd bynnag, mewn gwasanaethau cyhoeddus, rhaid inni sicrhau bod popeth yn cael ei wneud er mwyn cynnal hyder y cyhoedd. Dyna yn bennaf oedd thema'r ddadl a ddechreuasom ddydd Mawrth. Gall pob enghraifft o safonau isel fwrw cysgod o amheuaeth dros y sefydliad cyfan. Dyna pam bod angen i'r cyhoedd weld dulliau tryloyw o osod safonau a monitro cyflawniadau. Dyna paham y mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi bod yn awyddus i gydweithio â ni wrth ddatblygu'r fframwaith hwn. Ni chafodd ei orfodi arnynt; mae awdurdodau lleol yn dymuno rhoi'r hyder i'r cyhoedd y mae'n ei ddarparu.

Nid dim ond i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol y bydd y fframwaith hwn yn berthnasol ond, yn bwysicach, i awdurdodau tân, awdurdodau parciau cenedlaethol a chynghorau tref a chymuned. Bydd egwyddorion cyffredinol ymddygiad a chod ymddygiad ar gyfer aelodau yn sail i'r broses gyfan. Yng Nghymru, mae'r awdurdodau lleol wedi cytuno i fabwysiadu cod cyffredin. Gallent ychwanegu ato, ond ni allant dynnu unrhyw beth oddi wrtho. Bydd y rheoliadau yn ei wneud yn ofynnol iddynt fabwysiadu model y cod erbyn diwedd Ionawr 2002. Credir y bydd cod cyffredin yn rhoi mwy o hyder i'r cyhoedd. Bydd gofyn i'r aelodau ddechrau glynu at y cod erbyn diwedd Mawrth 2002.

Craidd y cod yw'r syniad na ddylai aelodau nac aelodau cyfetholedig fyth ddefnyddio eu safle cyhoeddus at ddibenion preifat. Mae'r cod hefyd yn ategu'r syniadau o barch at eraill, hyrwyddo cyfle cyfartal, bod yn agored a gwneud penderfyniadau ar sail gadarn, sydd yn hanfodol i lywodraeth dda a hyder y cyhoedd.

Dyna pam nad wyf yn cytuno â'r gwelliannau

amendments proposed by William Graham and Jocelyn Davies, which would have us just note this new framework. I gave my view earlier this week on Assembly Members who wish to do more than note events. Standards of conduct in public life are fundamental to the quality of democracy in Wales. What we do to maintain those standards deserves to be welcomed and not just noted.

The model code of conduct sets out what is expected of councillors in terms of general principles. It also sets out requirements on the disclosure and registration of personal interests. Jocelyn Davies's amendment 6 refers to Freemasons. I am as eager as any Assembly Member to take steps to prevent Freemasons from serving each other's interests rather than the public interest. It is for that reason that I have ensured that the model code makes it clear that Freemasonry is one of the areas where a personal interest could arise. Where it does arise, the member must disclose and register his interest as a Freemason before he can participate in any related council business. The only reason that I do not agree with the amendment is that it distinguishes Freemasons from any other equivalent society. The code requires that any personal interest is registered, and I believe that to be the right way forward. Members will have to think carefully about all their private connections, because the code places responsibility on them to decide whether there is something that they should disclose. They will also be able to exercise their right not to disclose something if they are absolutely clear that they will never participate in any council business where that personal interest is relevant. That is the balance that we have to strike between the right to a private life and public interests.

10:55 a.m.

The standards committee in every local authority will promote standards of conduct and assist members to observe the code. They

a gynigiwyd gan William Graham a Jocelyn Davies, a fyddai'n golygu mai dim ond nodi'r fframwaith newydd hwn sydd angen inni ei wneud. Mynegais fy marn yn gynharach yr wythnos hon ynghylch Aelodau'r Cynulliad sydd yn dymuno gwneud mwy na dim ond nodi digwyddiadau. Mae safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus yn hanfodol i ansawdd democratiaeth yng Nghymru. Mae'r hyn a wnawn er mwyn cynnal y safonau hynny yn haeddu cael ei groesawu ac nid dim ond ei nodi.

Mae'r cod ymddygiad model yn pennu'r hyn a ddisgwylir gan gynghorwyr o ran egwyddorion cyffredinol. Mae hefyd yn nodi gofynion ar gyfer datgan a chofrestru buddiannau personol. Mae gwelliant 6 Jocelyn Davies yn cyfeirio at y Seiri Rhyddion. Yr wyf yr un mor awyddus ag unrhyw Aelod arall o'r Cynulliad i gymryd camau i atal Seiri Rhyddion rhag gwasanaethu buddiannau ei gilydd yn hytrach na buddiannau'r cyhoedd. Am y rheswm hwnnw yr wyf wedi sicrhau bod y cod model yn ei wneud yn glir bod Seiri Rhyddion yn un o'r meysydd hynny lle y gallai buddiant personol godi. Pan gyfyd, rhaid i'r aelod ddatgan a chofrestru ei fuddiant fel un o'r Seiri Rhyddion cyn iddo allu cymryd rhan mewn unrhyw fusnes sydd yn gysylltiedig â'r cyngor. Yr unig reswm na chytunaf â'r gwelliant yw am ei fod yn gwahaniaethu'r Seiri Rhyddion oddi wrth gymdeithasau cyfatebol eraill. Mae'r cod yn ei wneud yn ofynnol bod buddiant personol yn cael ei gofrestru, a chredaf mai dyna'r ffordd gywir ymlaen. Bydd yn rhaid i'r Aelodau ystyried eu cysylltiadau preifat yn ofalus, am fod y cod yn gosod cyfrifoldeb arnynt hwy i benderfynu a oes rhywbeth y dylent ei ddatgan. Byddant hefyd yn gallu arfer eu hawl i beidio â datgan rhywbeth os ydynt yn gwbl sicr na fydd byth yn cymryd rhan mewn unrhyw fusnes yn y cyngor lle y byddai'r buddiant personol hwnnw yn berthnasol. Dyna'r cydbwysedd y mae'n rhaid inni ei sicrhau rhwng yr hawl i gael bywyd preifat a buddiannau cyhoeddus.

Bydd pwyllgorau safonau ym mhob awdurdod lleol yn hyrwyddo safonau ymddygiad er mwyn cynorthwyo'r aelodau i

will also decide whether members may have dispensation to speak and/or vote if they have a personal interest in a matter where regulations allow. The committee chair and at least half of its members will be independent of the authority, as selected through public advertisements. That will give the public confidence that the framework within the authority is administered in an impartial manner.

On William Graham's amendment 4, which regrets the lack of specification, the standards committee should have a majority of independent members and an independent chair. I hope that he will withdraw that amendment because it would be misleading to imply that we had failed to stipulate it. The Standards Committees (Wales) Regulations 2001 set out clearly, in regulation 5, that at least half the members must be independent of the authority, and in regulation 22 that the chair and vice-chair of the committee shall be elected from those independent members. In cases where the number of members is even, the independent chair will have a second casting vote.

William's amendment 5 concerning the standards committees suggests that he would prefer for the whole council to decide on dispensations to determine rather than the standards committee. Since I have plainly stated that standards committees will have an independent majority, I hope that he will accept that it is far better for standards committees to consider these dispensations. They will have the local knowledge, but, of course, no vested interests. Given its responsibility to full council, it would make the process extremely cumbersome and liable to fall into disrepute. I ask you to reject this amendment also.

Although there has been a national code for government conduct for many years, it has no teeth. Under the new system a breach of the code can lead to specific penalties. The Commission for Local Administration in Wales will oversee the observance of the code. Plaid Cymru's amendment 3 would mean that the Assembly would call upon the

gadw at y cod. Byddant hefyd yn penderfynu a allai fod gan aelodau hawl i siarad a/neu bleidleisio os oes ganddynt fuddiant personol mewn mater lle y bo rheoliadau'n caniatáu hynny. Bydd cadeirydd y pwyllgor ac o leiaf hanner ei aelodau yn annibynnol ar yr awdurdod, ac wedi'u dethol drwy hysbysebion cyhoeddus. Bydd hynny'n rhoi hyder i'r cyhoedd bod y fframwaith y mae'r awdurdod yn gweinyddu oddi mewn iddo mewn dull amhleidiol.

O ran gwelliant 4 William Graham, sydd yn gresynu'r prinder manylion, dylai fod gan y pwyllgor safonau fwyafrif o aelodau annibynnol a chadeirydd annibynnol. Gobeithiaf y bydd ef yn tynnu'r gwelliant hwnnw yn ôl oherwydd byddai'n gamarweiniol awgrymu inni fethu â mynnu ei fod yn cael ei gynnwys. Nododd Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001, yn glir, yn rheoliad 5, fod yn rhaid i o leiaf hanner yr aelodau fod yn annibynnol ar yr awdurdod, ac o fewn rheoliad 22 bod y cadeirydd a dirprwy gadeirydd y pwyllgor yn cael eu hethol o'r aelodau annibynnol hynny. Mewn achosion pan fo nifer yr aelodau yn gyfartal, bydd gan y cadeirydd annibynnol yr ail bleidlais fwrw.

Awgryma gwelliant 5 William, sydd yn ymwneud â'r pwyllgorau safonau, y byddai'n well ganddo pe bai'r cyngor cyfan yn penderfynu ar ollyngiadau yn hytrach na'r pwyllgorau safonau. Gan fy mod wedi nodi'n glir y bydd gan y pwyllgorau safonau fwyafrif annibynnol, gobeithiaf y bydd yn derbyn ei fod yn llawer gwell i bwyllgorau safonau ystyried y gollyngiadau hyn. Bydd ganddynt yr wybodaeth leol, ond, wrth gwrs, ni fydd ganddynt unrhyw fuddiant breintiedig. O ystyried ei gyfrifoldeb i'r cyngor llawn, byddai'n gwneud y broses yn hynod drafferthus ac yn debygol o golli ei enw da. Gofynnaf i chi wrthod y gwelliant hwn hefyd.

Er y cafwyd cod cenedlaethol ar gyfer ymddygiad y llywodraeth ers nifer o flynyddoedd, nid oes ganddo unrhyw rym. O dan y system newydd gall unrhyw doriad ar y cod arwain at gosbau penodol. Bydd y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru yn goruchwyllo y glynir at y cod. Byddai gwelliant 3 Plaid Cymru yn golygu y

Commissioner for Local Administration in Wales to investigate the possibility of establishing an independent audit manager in each local authority. I could not support the establishment of a second independent audit mechanism in local authorities. The Audit Commission already provides an independent auditor for each local authority. These auditors require the appropriate internal audit procedures to be in place in each authority. This amendment would confuse current arrangements, and I ask you to reject it.

In England, a separate standards board is being set up. We did not think that that was the right solution for Wales. By giving this role to the Commission, we have avoided creating another public body and still ensured that there is true independence in the system. The Local Commissioner in Wales will decide on the best course for dealing with individual, written complaints when a member or co-opted member has breached the code. The Commission will decide whether the complaint should be investigated further, whether to investigate the complaint itself, or whether to ask the local monitoring officer to complete the investigation. The responsibility for deciding penalties will lie either with the standards committee or with an independent tribunal, depending on whichever the Commissioner feels to be the more appropriate. The tribunal will be able to impose more severe penalties, including suspension for up to one year, or disqualification for up to five years. Standards committees will be able to suspend members for up to six months. The independent tribunals will be drawn from an adjudication panel appointed by the Assembly. To ensure consistency in approach throughout local government, a new employees code of conduct is also being introduced. Allowing for the difference in function, this mirrors members' expectations under the new framework. This code will form part of the terms and conditions of service of all local government employees.

This new ethical framework is an integral part of the new constitution that local authorities will have to adopt as a result of

byddai'r Cynulliad yn galw ar y Comisiynydd dros Weinyddu Lleol yng Nghymru i ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu rheolwr archwilio annibynnol ym mhob awdurdod lleol. Ni allwn gefnogi sefydlu ail ddyfais archwilio annibynnol mewn awdurdodau lleol. Mae'r Comisiwn Archwilio eisoes yn darparu archwiliwr annibynnol ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae'r archwilywyr hyn eisoes yn sicrhau bod y gweithdrefnau archwilio mewnol perthnasol yn cael eu rhoi yn eu lle ym mhob awdurdod. Byddai'r gwelliant hwn yn drysu'r trefniadau presennol, a gofynnaf ichi ei wrthod.

Yn Lloegr, mae corff safonau ar wahân yn cael ei sefydlu. Nid oeddem o'r farn mai dyna oedd y datrysiad cywir i Gymru. Drwy roi'r rôl hon i'r Comisiwn, yr ydym wedi osgoi creu corff cyhoeddus arall ac yn dal i sicrhau bod annibyniaeth wirioneddol yn y system. Bydd y Comisiynydd Lleol yng Nghymru yn penderfynu ar y ffordd orau o ddelio â chwynion ysgrifenedig, unigol pan fo aelod neu aelod cyfetholedig wedi torri'r cod. Bydd y Comisiwn yn penderfynu a ddylid ymchwilio i'r gŵyn ymhellach, a ddylid ymchwilio i'r gŵyn ei hun, neu a ddylid gofyn i'r swyddog monitro lleol i gwblhau'r ymchwiliad. Bydd y cyfrifoldeb dros benderfynu ar gosbau naill ai yn nwylo'r pwyllgor safonau neu gyda thribiwnlys annibynnol, gan ddibynnu pa un mae'r Comisiynydd o'r farn sydd fwyaf addas. Bydd y tribiwnlys yn gallu gosod cosbau mwy llym, gan gynnwys gwaharddiad am hyd at flwyddyn, neu anghymhwyster am hyd at bum mlynedd. Bydd pwyllgorau safonau yn gallu gwahardd aelodau am hyd at chwe mis. Caiff y tribiwnlysoedd annibynnol eu dethol o banel dyfarnu a benodir gan y Cynulliad. Er mwyn sicrhau cysondeb ymagwedd drwy lywodraeth leol, caiff cod ymddygiad newydd i gyflogeion hefyd ei gyflwyno. Gan ganiatáu ar gyfer y gwahaniaeth o ran swyddogaeth bydd hyn yn adlewyrchu disgwyliadau'r aelodau o dan y fframwaith newydd. Bydd y cod hwn yn ffurfio rhan o delerau ac amodau gwasanaeth pob un o gyflogeion llywodraeth leol.

Mae'r fframwaith moesegol newydd hwn yn rhan annatod o'r cyfansoddiad newydd y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ei

legislation approved on 19 June. The model code of conduct places stricter requirements regarding personal interest upon the executive, or board members who may have delegated authority to take decisions. Many local authorities have established standards committees and independent chairs, and they are to be commended for that. The regulations set out the conditions under which existing independent members of standards committees may continue to serve under the new arrangements.

Local government has a good reputation, in the main. The framework that I propose will provide local government members with a clear set of standards that should help them maintain both their own reputation and, more importantly, the public's confidence in them.

William Graham: I propose the following amendments. Amendment 1: Delete points 1 and 2, and replace with a new point 1:

1. notes the provisions of the Assembly Local Government Bill that outlines the general principles for a new ethical framework for local government in Wales, together with codes of conduct for members and employees of local authorities.

I propose amendment 4. Add a new point:

regrets the lack of specification that standards committees should have a majority of non-elected members, together with a non-elected committee chair, and calls upon the Minister for Finance, Local Government and Communities to introduce this stipulation at the first opportunity.

I propose amendment 5. Add a new point:

regrets that the power to grant dispensations to both elected and co-opted members rests with the standards committee, not with the full council.

The Welsh Conservative group accepts that being constructive in opposition means that

fabwysiadu o ganlyniad i ddeddfwriaeth a gymeradwywyd ar 19 Mehefin. Mae'r model cod ymddygiad yn gosod gofynion llymach yn ymwneud â buddiant personol ar y weithrediaeth, neu aelodau'r bwrdd a allai fod ag awdurdod dirprwyedig i wneud penderfyniadau o'r fath. Sefydlodd sawl awdurdod lleol bwyllgor safonau a phenodi cadeiryddion annibynnol, a dylid eu canmol am hynny. Yr oedd y rheoliadau'n pennu o dan ba amgylchiadau y gallai aelodau annibynnol presennol y pwyllgorau safonau barhau i wasanaethu o dan y trefniadau newydd.

Ar y cyfan, mae gan lywodraeth leol enw da. Bydd y fframwaith a gynigaf yn darparu set clir o safonau i aelodau llywodraeth leol a ddylai eu cynorthwyo i gynnal eu henw da eu hunain, ac, yn bwysicach fyth, i gynnal hyder y cyhoedd ynddynt.

William Graham: Cynigaf y gwelliannau canlynol. Gwelliant 1: Dileer pwyntiau 1 a 2, a rhodder pwynt 1 newydd:

1. yn nodi darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol y Cynulliad sydd yn amlinellu egwyddorion cyffredinol y fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, ynghyd â'r codau ymddygiad ar gyfer aelodau a gweithwyr awdurdodau lleol.

Cynigaf welliant 4. Ychwaneger pwynt newydd:

yn gresynu at y ffaith na nodir y dylai mwyafrif aelodau'r pwyllgorau safonau fod yn aelodau anetholedig, ynghyd â chadeirydd pwyllgor anetholedig, ac mae'n galw ar y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau i sicrhau bod hyn yn cael ei nodi ar y cyfle cyntaf un.

Cynigaf welliant 5. Ychwaneger pwynt newydd:

yn gresynu bod y pŵer i roi gollyngiadau ar gyfer aelodau etholedig a chyfetholedig yn gorwedd gyda'r pwyllgor safonau, yn hytrach na'r cyngor llawn.

Mae grŵp Ceidwadwyr Cymru yn derbyn fod gweithredu'n adeiladol fel gwrthblaid yn

there are times when we must hold the Executive to account. There are other times when one must be able to propose a constructive alternative. In this case, we strongly believe that the measures to be introduced by the Executive are worthwhile and timely and we support them. In fact, in some cases they are well overdue, although we believe that there is a danger, perhaps, of them becoming overly bureaucratic in practice. In particular, we note the substantial burden that will be placed upon the monitoring officers in local authorities. However, we expect the Liberal Democrat/Labour administration to vigorously pursue the strict application of all these measures and ensure that all those who seek election to public office or employment with our local authorities are fully aware of the codes of conduct that they are expected to observe.

We acknowledge that there are people throughout Wales who, unfortunately, have a low opinion of local government, and that a system to ensure that local government members are fully accountable for their actions is lacking. The proposed system would require that every local authority and every elected member's breach of these codes of conduct be properly examined. Amendment 1 reflects the possible danger of this becoming overly bureaucratic and that further guidance may be necessary with regard to the monitoring officer. Amendment 1 would note the provisions of the Assembly local government 'Bill', which outlines the general principles for a new ethical framework for local government in Wales, together with codes of conduct for members and employees. Amendment 4 is one way of ensuring that people can believe in the system by which they can hold elected officials to account, by demonstrating that the system is truly independent of political or managerial processes. It is to provide for this independence that I propose amendment 4 to the motion. It is regrettable that it is not specified that standards committees should have a majority of non-elected members, as the Minister has acknowledged.

Turning to amendment 5, we believe that full consideration of the granting of dispensations to elected and co-opted members should rest

golygu bod adegau pan fo'n rhaid dwyn y Weithrediaeth i gyfrif. Mae adegau eraill pan fo'n rhaid inni allu cynnig dewis amgen adeiladol. Yn yr achos hwn, credwn yn gryf fod y mesurau i'w cyflwyno gan y Weithrediaeth yn rhai gwerthfawr ac amserol ac fe'u cefnogwn. Mewn gwirionedd, mewn rhai achosion yr oedd yn hen bryd eu cyflwyno, er inni gredu bod perygl, efallai, iddynt ddatblygu'n rhy fiwrocraidd yn ymarferol. Yn benodol, nodwn y baich sylweddol a roddir ar ysgwyddau'r swyddogion monitro mewn awdurdodau lleol. Fodd bynnag, disgwyliwn i'r Democratiaid Rhyddfrydol/Lafur sicrhau y glynir yn agos at yr holl fesurau hyn a sicrhau bod y rheini sydd yn ceisio cael eu hethol i swyddi neu gyflogaeth cyhoeddus gyda'n hawdurdodau lleol yn gwbl ymwybodol o'r codau ymddygiad y disgwylir iddynt lynu atynt.

Cydnabyddwn fod pobl ledled Cymru sydd, yn anffodus, â barn isel am lywodraeth leol, a bod prinder system i sicrhau bod aelodau llywodraeth leol yn llawn atebol am eu gweithrediadau. Byddai'r system arfaethedig yn ei wneud yn ofynnol bod pob awdurdod lleol neu aelod etholedig sydd yn torri'r codau ymddygiad hyn yn cael ei archwilio'n gywir. Mae gwelliant 1 yn adlewyrchu'r perygl posibl fod hyn yn datblygu'n rhy fiwrocraidd ac y gallai arweiniad pellach fod yn angenrheidiol o ran y swyddog monitro. Byddai gwelliant 1 yn nodi darpariaethau 'Mesur' llywodraeth leol y Cynulliad, sydd yn amlinellu'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, ynghyd â chodau ymddygiad ar gyfer aelodau a chyflogaeth. Mae gwelliant 4 yn un ffordd o sicrhau bod pobl yn gallu ymddiried mewn system lle y gallant ddwyn swyddogion etholedig i gyfrif, gan arddangos fod y system yn wirioneddol annibynnol ar brosesau gwleidyddol neu reoliadol. Er mwyn darparu ar gyfer yr annibyniaeth hwn yr wyf yn cynnig gwelliant 4 i'r cynnig. Mae'n drueni na fanylwyd y dylai fod gan bwyllgorau safonau fwyafrif o aelodau anetholedig, fel y cydnabu'r Gweinidog.

Gan droi at welliant 5, credwn y dylai'r cyfrifoldeb am roi ystyriaeth lawn i ollyngiadau i aelodau etholedig a

with the full council. The Welsh Conservative group believes in trusting the people and their representatives. If those representatives have made a mistake, the ballot box is the answer. I am a member—and I declare this as an interest—of Newport County Borough Council and its standards committee. It works well in having a non-political chairman. Initially, we had difficulty in recruiting members, but on the last occasion when we required a new committee member, there was a large number of applicants suitably qualified, although I would not say that there was a surfeit of them. That was attributed to the way in which the whole system of standards committees is evolving in Wales.

Janet Ryder: I propose the following amendments in the name of Jocelyn Davies. Amendment 2: In point 1 delete 'welcomes' and replace with 'notes'.

I propose amendment 3. Add as new point 4 and renumber remaining points accordingly:

4. calls on the Commissioner for Local Administration in Wales to investigate the possibility of establishing an independent audit manager in each local authority.

I propose amendment 6. Add as a new point at the end:

notes the importance of local councillors declaring membership of the Freemasons.

I declare an interest as a member of Ruthin Town Council. These measures are being debated today because of the actions of a few councillors that have brought the whole of local government under suspicion. Unfortunately, the public does not hold local government in the highest of esteem. That is partly why we have this local government 'Bill'; it is an attempt to restore public confidence in councils. As in our previous debate on Tuesday, it must be stressed that councillors, for the most part, are hard working and extremely dedicated in the work that they do. As in the previous debate also, it must be stressed that this is a response to an

chyfetholedig fod yn nwylo'r cyngor llawn. Cred grŵp Ceidwadwyr Cymru y dylid ymddiried yn y bobl a'u cynrychiolwyr. Os yw'r cynrychiolwyr hynny wedi gwneud camgymeriad, yna'r blwch pleidleisio yw'r ateb. Yr wyf yn aelod—a datganaf hyn fel buddiant—o Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd a'i bwyllgor safonau. Mae'n gweithio'n dda gyda chadeirydd anwleidyddol. Yn wreiddiol, cawsom anhawster wrth recriwtio aelodau, ond y tro diwethaf pan oedd angen aelod newydd arnom ar gyfer y pwyllgor, cafwyd nifer fawr o ymgeiswyr cymwys ac addas, er na fyddwn yn dweud bod gormodedd ohonynt. Priodolwyd hynny i'r ffordd y mae'r system gyfan o bwyllgorau safonau yn esblygu yng Nghymru.

Janet Ryder: Cynigïaf y gwelliannau canlynol yn enw Jocelyn Davies. Gwelliant 2: Ym mhwynt 1 dileer 'croesawu'r' a rhodder 'nodi'r' yn ei le.

Cynigïaf welliant 3. Ychwaneger fel pwynt 4 newydd gan ailrifo'r pwyntiau eraill yn unol â hynny:

4. yn galw ar y Comisiynydd dros Weinyddiaeth Leol yng Nghymru i archwilio'r posibilrwydd o sefydlu rheolwr archwilio annibynnol ym mhob awdurdod lleol.

Cynigïaf welliant 6. Ychwaneger fel pwynt newydd ar y diwedd:

nodi pa mor bwysig yw hi fod cynghorwyr lleol yn datgan aelodaeth o'r Seiri Rhyddion.

Datganaf fuddiant fel aelod o Gyngor Tref Rhuthun. Trafodir y mesurau hyn heddiw oherwydd gweithredoedd ychydig o gynghorwyr sydd wedi bwrw cysgod o amheuaeth dros y system llywodraeth leol gyfan. Yn anffodus, nid oes gan y cyhoedd feddwl uchel iawn o lywodraeth leol. Dyna pam yn rhannol y mae gennym y 'Mesur' llywodraeth leol hwn; ymgais ydyw i adfer hyder y cyhoedd mewn cynghorau. Fel y gwnaethpwyd yn ein dadl flaenorol ddydd Mawrth, rhaid pwysleisio bod y rhan fwyaf o gynghorwyr yn gweithio'n galed ac yn hynod ymrwymedig i'r gwaith a wnânt. Fel yn y ddadl flaenorol hefyd, rhaid pwysleisio bod

English agenda; it is not something that has been purely made in Wales. We have had a succession of British Prime Ministers who have not trusted local government. As I said the other day, Margaret Thatcher abolished the Greater London Council. Unfortunately, corruption has been associated with local government. It was epitomised in Liverpool under Derek Hatton's leadership and in Newcastle under the rule of Poulson and T. Dan Smith, names I am sure that I am more familiar with than you are. This 'Bill' is a positive step to promoting a high standard of conduct by elected and co-opted members, as has been said, in local authorities, fire authorities and in national parks in Wales. The establishment of an adjudication panel for Wales is a positive development. I hope that you agree that the procedures to deal with complaints must be clear and accessible. The public must be clearly informed of the remit of the service and of how it can access it. The investigation process must be one that can be triggered quickly because too often the delay in investigation means that these issues have fizzled out before any action is taken. The requirement on local authorities to establish standards committees is a positive step. However, the effectiveness of these under the present guidelines is questionable. We must clearly define the role of standards committees. The committees will draw up codes of conduct for members and officers and ensure that they are aware of their rights and responsibilities.

11:05 a.m.

The establishment of internal audit committees is another welcome development. To be effective, the internal audit committee must be independent of the executive; it must be able to set its own agenda and investigate any area of council activity that it chooses. It must not be led or influenced by members or officers in any way. The committee must have sufficient powers to demand access to any document that will assist its investigation and the powers to instruct members or officers to give evidence, written or oral. The internal audit committees should also possess the appropriate powers to be able to work

hyn yn ymateb i agenda o Loegr; nid rhywbeth a wnaethpwyd yng Nghymru yn unig ydyw. Cawsom gyfres o Brif Weinidogion ym Mhrydain nad ydynt wedi ymddiried mewn llywodraeth leol. Fel y dywedais y dydd o'r blaen, cafodd Margaret Thatcher wared ar Gyngor Llundain Fwyaf. Yn anffodus, cysylltid llygredd â llywodraeth leol. Ymgorfforwyd hynny yn Lerpwl o dan arweinyddiaeth Derek Hatton ac yn Newcastle o dan reolaeth Poulston a T. Dan Smith, sydd yn enwau yr wyf yn sicr fy mod i'n fwy cyfarwydd â hwy na chi. Mae'r 'Mesur' hwn yn gam cadarnhaol i hyrwyddo safon ymddygiad uchel gan aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig, fel y dywedwyd, mewn awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac mewn parciau cenedlaethol yng Nghymru. Mae sefydlu panel dyfarnu i Gymru yn ddatblygiad cadarnhaol. Gobeithiaf y cytunwch fod yn rhaid i weithdrefnau i ddelio â chwynion fod yn glir ac yn hygyrch. Mae'n rhaid hysbysu'r cyhoedd yn glir o gylch gorchwyl y gwasanaeth a sut y gellir manteisio arno. Rhaid i'r broses archwilio allu cael ei sbarduno'n gyflym oherwydd yn rhy aml mae oedi yn yr ymchwiliad yn golygu bod y materion hyn wedi chwythu eu plwc cyn i unrhyw gamau gael eu cymryd. Mae'r gofyniad i awdurdodau lleol sefydlu pwyllgorau safonau yn gam cadarnhaol. Fodd bynnag, gellid cwestiynu pa mor effeithiol y mae'r rhain o dan y canllawiau presennol. Rhaid inni ddiffinio rôl y pwyllgorau safonau yn glir. Bydd y pwyllgorau yn llunio codau ymddygiad ar gyfer aelodau a swyddogion a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u hawliau a chyfrifoldebau.

Mae sefydlu pwyllgorau archwilio mewnol yn ddatblygiad arall a groesewir. Er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i'r pwyllgor archwilio mewnol fod yn annibynnol ar y weithrediaeth; rhaid iddo allu gosod ei agenda ei hun ac ymchwilio i unrhyw faes o weithgaredd cyngor y dewisa. Ni ddylai aelodau na swyddogion ei arwain na dylanwadu arno mewn unrhyw fodd. Rhaid bod gan y pwyllgor bwerau digonol i fynnu cael mynediad i unrhyw ddogfen a allai gynorthwyo gyda'i ymchwiliad a'r pwerau i orchymyn aelodau neu swyddogion i roi tystiolaeth ysgrifenedig neu lafar. Hefyd

effectively. Their role and work should be respected within the council. The committee's chair should not be a member of the ruling group and it should have a separate group of officers supporting it. The internal audit manager would report to it.

Unfortunately, had the internal audit committee been established along these lines in Flintshire, for example, and its work respected, the findings of the recently published District Auditor's report might have been avoided. Internal audits should reassure councils that their departments' officers and members are acting appropriately. They should also reassure communities that their councils are acting on their behalf with integrity. There is a distinct difference between the role of the internal audit manager and that of the District Auditor, and that is why I urge you to support amendment 3 today to allow that role to be considered and appraised.

I accept that codes of conduct are being developed, but we must consider this carefully. The District Auditor's report on Flintshire County Council highlighted the plight of officers who, when all their options had run out, had to resort to whistle-blowing to ensure that malpractice was brought to light. Protection for whistle-blowers still needs to be considered. We must not forget that without officers and members with the courage to stand up for what they believe to be right and who are prepared to lift the lid on malpractice, such inquiries as the north Wales child abuse case would never have come to light. We must give them the protection to come forward and give evidence. The Act allows for codes of practices to be developed, but I do not know whether that will be strong enough.

As always, we must have balance because there is always the possibility that people will be falsely accused. Therefore, it is equally important to address the protection of those members and officers who are under investigation. It is essential that a member or officer receives a fair hearing and is allowed to answer and question any allegations made

dylai'r pwyllgorau archwilio mewnol feddu ar y pwerau priodol i allu gweithio'n effeithiol. Dylai eu rôl a'u gwaith gael eu parchu o fewn y cyngor. Ni ddylai cadeirydd y pwyllgor fod yn aelod o'r grŵp rheoli a dylai fod ganddo grŵp o swyddogion ar wahân yn ei gefnogi. Byddai'r rheolwr archwilio mewnol yn adrodd yn ôl iddo.

Yn anffodus, pe bai'r pwyllgor archwilio mewnol wedi'i sefydlu ar hyd y trywydd hwn yn Sir y Fflint, er enghraifft, a phe bai ei waith wedi'i barchu, gellid bod wedi osgoi canfyddiadau adroddiad yr Archwiliwr Dosbarth a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Dylai archwiliadau mewnol roi hyder i gynghorau fod swyddogion eu hadrannau a'r aelodau yn gweithredu'n briodol. Dylent hefyd roi hyder i gymunedau fod eu cynghorau yn gweithredu ar eu rhan gyda gonestrwydd. Mae gwahaniaeth amlwg rhwng rôl y rheolwr archwilio mewnol a rôl yr Archwiliwr Dosbarth, a dyna pam yr wyf yn erfyn arnoch i gefnogi gwelliant 3 heddiw, er mwyn caniatáu i'r rôl honno gael ei hystyried a'i chymeradwyo.

Derbyniad fod codau ymddygiad yn cael eu datblygu, ond rhaid inni ystyried hyn yn ofalus. Tanlinellodd adroddiad yr Archwiliwr Dosbarth ar Gyngor Sir y Fflint helyntion swyddogion yn gorfod datgelu cyfrinachau, pan nad oedd unrhyw opsiwn arall ganddynt, er mwyn sicrhau bod camymddygiad yn dod i'r amlwg. Mae angen ystyried amddiffyn y rheini sydd yn datgelu cyfrinachau o hyd. Ni ddylem anghofio na fyddai ymchwiliadau megis achos camdrin plant gogledd Cymru byth wedi dod i'r amlwg heb swyddogion ac aelodau sydd yn ddigon dewr i sefyll dros eu hegwyddorion ac sydd yn barod i agor cil y drws ar gamymddygiad. Rhaid inni roi amddiffyniad iddynt i ddod ymlaen a rhoi tystiolaeth. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i godau ymarfer gael eu datblygu, ond ni wn a fydd hynny'n ddigon cadarn.

Ar bob achlysur, rhaid inni sicrhau cydbwysedd oherwydd gall fod posibilrwydd o hyd fod pobl yn cael eu cyhuddo ar gam. Felly, mae yr un mor bwysig ein bod yn mynd i'r afael ag amddiffyn yr aelodau a'r swyddogion hynny sydd yn destun ymchwiliad. Mae'n hanfodol bod aelod neu swyddog yn derbyn gwrandawriad teg ac y

against him or her. There should also be an effective appeals procedure and I suggest that the home authority is not the authority to hear those appeal procedures. Officers and members should not consider the standards committees or internal audit committees as a threat. They exist to help, to educate and to assist members and officers in gaining knowledge about their rights.

Proper conduct by councillors when declaring interests should go a long way to changing the unfortunate public image of councils. Councillors are unfortunately perceived as people who are in office solely for what they can get out of it. That is one of the reasons behind amendment 6. Over the years, Freemasonry has been fairly or unfairly blamed for influencing council decisions in various matters. It is seen as a secretive group of people that has pledged to assist its fellow members, a dubious position when contracts are awarded and planning permissions are granted. The abuse of these positions has never been proved but openness must come first. Therefore, I ask you to support amendment 6 that calls on councillors to follow the Assembly's example and declare membership of the Freemasons as an interest.

I am sure that local government will respond, and is already responding, to the need to improve its image. These orders are only a step along that way.

Tom Middlehurst: I offer my full support to the motion today and I am certain that local government will also welcome and embrace it. I am sure that we are pushing at an open door in many ways. Local government has already embraced the principles, and many local authorities have already set up structures, or are in the process of doing so, to meet the requirements of the modernisation agenda. Local government is no stranger to change. It has, over many years, developed the ability to respond to often-inordinate pressures and demands in response to structural change, often imposed by central Government. As I have said

caiff y cyfle i ateb a chwestiynu unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn ef neu yn ei herbyn hi. Hefyd dylai fod gweithdrefn apêl effeithiol ac awgrymaf nad yr awdurdod cartref yw'r awdurdod a ddylai glywed y gweithdrefnau apêl hynny. Ni ddylai swyddogion ac aelodau ystyried y pwyllgorau safonau na'r pwyllgorau archwilio mewnl fel bygythiad. Maent yn bodoli er mwyn helpu, addysgu a chynorthwyo aelodau a swyddogion i ddysgu am eu hawliau.

Dylai ymddygiad cywir gan gynghorwyr wrth ddatgan buddiannau gyfrannu'n fawr at newid y ddelwedd gyhoeddus anffodus o gynghorau. Yn anffodus tybir bod cynghorwyr yn bobl sydd mewn swyddi cyhoeddus er eu budd eu hunain yn unig. Dyna un o'r rhesymau sydd yn sail i welliant 6. Dros y blynyddoedd, mae'r Seiri Rhyddion wedi cael eu beio yn gam neu'n gymwys am ddylanwadu ar benderfyniadau cynghorau ar faterion amrywiol. Fe'i gwelir fel grŵp cyfrinachol o bobl sydd wedi addo cynorthwyo ei gydaelodau, sydd yn safbwynt amheus pan fo contractau a chaniatadau cynllunio yn cael eu rhoi. Nid yw'r camddefnydd o'r safleoedd hyn erioed wedi'i brofi ond mae'n rhaid i onestrwydd fod yn flaenaf. Felly, gofynnaf ichi gefnogi gwelliant 6 sydd yn galw ar gynghorwyr i ddilyn esiampl y Cynulliad a datgan aelodaeth o'r Seiri Rhyddion fel buddiant.

Yr wyf yn siŵr y bydd llywodraeth leol yn ymateb, a'i fod eisoes yn ymateb, i'r angen i wella'i delwedd. Dim ond cam ar hyd y trywydd hwnnw yw'r gorchmynion hyn.

Tom Middlehurst: Cynigïaf fy nghefnogaeth lawn i'r cynnig heddiw ac yr wyf yn siŵr y bydd llywodraeth leol hefyd yn ei groesawu a'i dderbyn. Yr wyf yn siŵr ein bod yn gwthio drws agored ar lawer ystyr. Mae llywodraeth leol eisoes wedi croesawu'r egwyddorion, ac mae llawer o awdurdodau lleol eisoes wedi sefydlu strwythurau, neu maent yn y broses o wneud hynny, er mwyn cwrdd â gofynion yr agenda foderneiddio. Mae llywodraeth leol yn gyfarwydd â newid. Dros y blynyddoedd, datblygodd y gallu i ymateb i bwysau a gorchmynion, a oedd yn aml yn rhai gormodol, mewn ymateb i newid strwythurol, a bennwyd gan Lywodraeth

before, local government is the bedrock of our democracy in this country. On occasions, it has had to defend its communities from the worst excesses of governments in Westminster. We should ensure that we continue to develop structures and processes that allow it to do so. On this occasion, local government has readily embraced the modernisation agenda. I am pleased to say that Flintshire County Council is in the vanguard of those authorities that have made great strides to implement the new arrangements, under the principled leadership of Councillor Alex Aldridge.

I turn to some of the specifics of the motion. I welcome the requirement on members and officers to abide by a new code of conduct, given the recent scurrilous allegations levelled at some officers and members of Flintshire County Council by malicious malcontents at officer and member level, which were rejected by the District Auditor. In fact, those allegations triggered the public interest report. The leader of that authority warmly welcomed that report and all the District Auditor's recommendations are being implemented. It is essential, therefore, that employees and councillors should fully understand the obligations to each other and to their communities, and that suitable penalties should apply to those who transgress or abuse their privileges.

I also ask the Minister, in the spirit of openness and transparency, to require all employees and members to declare their membership of all organisations, particularly of secret societies such as the Freemasons. In this Assembly, I am not in the business of trying to issue diktats to local government, which seems to be Plaid Cymru's method of reproach to local government. We should give them the freedom and flexibility to do the job that they are charged to do. However, there are issues and principles that we should require of local government. One of those is that registration of secret societies should be a requirement for all members and officers of local authorities.

ganolog. Fel y dywedais o'r blaen, llywodraeth leol yw sylfaen democratiaeth yn y wlad hon. Yn achlysurol, bu'n rhaid iddi amddiffyn ei chymunedau rhag gormodedd gwaethaf llywodraethau San Steffan. Dylem sicrhau ein bod yn parhau i ddatblygu strwythurau a phrosesau sydd yn caniatáu iddi barhau i wneud hynny. Ar yr achlysur hwn, mae llywodraeth leol wedi bod yn barod iawn i groesawu'r agenda foderneiddio. Yr wyf yn falch i ddweud bod Cyngor Sir y Fflint ar flaen y gad ymhlith yr awdurdodau hynny sydd yn brasgamu i roi'r trefniadau newydd ar waith, o dan arweinyddiaeth egwyddorol y Cyngorydd Alex Aldridge.

Trof at rai o fanylion y cynnig. Croesawaf y gofyniad ar aelodau a swyddogion i lynu at y cod ymddygiad newydd, o ystyried y cyhuddiadau enllibus diweddar a wnaethpwyd yn erbyn rhai swyddogion ac aelodau o Gyngor Sir y Fflint gan bobl anfoddog a maleisus ar lefel y swyddogion ac aelodau, a wrthodwyd gan yr Archwiliwr Dosbarth. Mewn gwirionedd, sbardunodd yr honiadau hynny yr adroddiad buddiant cyhoeddus. Rhoddodd arweinydd yr awdurdod hwnnw groeso cynnes i'r adroddiad hwnnw ac mae holl argymhellion yr Archwiliwr Dosbarth yn cael eu rhoi ar waith. Mae'n hanfodol, felly, fod cyflogeion a chynghorwyr yn deall yn llawn y goblygiadau iddynt hwy a'u cymunedau, ac y dylai cosbau priodol gael eu rhoi i'r rheini sydd yn troseddu neu'n camddefnyddio'u breintiau.

Gofynnaf hefyd i'r Gweinidog, yn ysbryd gonestrwydd ac eglurder, i'w wneud yn ofynnol bod yr holl gyflogeion ac aelodau'n datgan eu haelodaeth o bob sefydliad, ac yn arbennig eu haelodaeth o gymdeithasau cyfrin tebyg i'r Seiri Rhyddion. Yn y Cynulliad, nid fy mwriad i yw ceisio cyhoeddi dictadau i lywodraeth leol, sef yr hyn a ymddengys fel dull Plaid Cymru o geryddu llywodraeth leol. Dylem roi'r rhyddid a'r hyblygrwydd iddynt wneud y gwaith y'u penodwyd i'w wneud. Fodd bynnag, mae materion ac egwyddorion y dylem eu gwneud yn ofynnol i lywodraeth leol eu rhoi ar waith. Un o'r rhain yw y dylai cofrestru cymdeithasau cyfrin fod yn ofyniad ar gyfer holl aelodau a swyddogion awdurdodau lleol.

Janet Davies: The role of the monitoring officers and internal audit are integral to this motion and to the amendments, to achieve openness, transparency and accountability. We welcome the fact that the Local Government Act 2000 gives a more prominent role to the monitoring officer in a local authority. In some cases in the past, the public may have felt that monitoring officers have not been sufficiently independent to allow full investigations to take place. We therefore welcome the fact that the monitoring officer can no longer be the head of paid service or the principal finance officer, and that the regulation extends to that person as protection against dismissal, which is currently available to the authority's head of paid services. Previously, the chief executive and the monitoring officer were the same person. There was one case where that person was also the principal finance officer. There have been conflicts of interest, as well as one or two unsavoury episodes. However, I would like to make clear that during my five years as a council leader, where the chief executive was the monitoring officer, there was not a single case where he was anything but extremely scrupulous in keeping those roles separate. However, it is not a good situation. It is a bad idea for these roles to be carried out by the same person.

Amendment 3 asks us to consider whether there are measures to provide enough protection and independence for the monitoring officer to act independently. That person will remain a paid employee of the council and will have to work with officers and members. It is arguable how independent a monitoring officer can be while being paid by the council. We are not asking that this be set in stone, but that we consider it carefully.

11:15 a.m.

In calling for an internal audit manager, we want the role to be defined. It is important to assure the authorities that their procedures, practices, actions and processes are all in order. In addition, the public must be reassured that the authority is functioning

Janet Davies: Mae rôl y swyddogion monitro ac archwilio mewnol yn hanfodol i'r cynnig hwn ac i'r gwelliannau, er mwyn sicrhau gonestrwydd, eglurder ac atebolrwydd. Yr ydym yn croesawu'r ffaith fod Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi rôl fwy blaenllaw i'r swyddog monitro mewn awdurdod lleol. Mewn rhai achosion yn y gorffennol, gallai'r cyhoedd fod wedi teimlo nad yw'r swyddogion monitro wedi bod yn ddigon annibynnol i ganiatáu i archwiliadau llawn gael eu cynnal. Yr ydym felly yn croesawu'r ffaith na all y swyddog monitro bellach fod yn bennaeth gwasanaeth a delir na'r prif swyddog cyllid, a bod y rheoliad yn ymestyn i'r person hwnnw fel amddiffyniad yn erbyn diswyddiad, sydd ar gael ar hyn o bryd i bennaeth gwasanaethau a delir yr awdurdod. Yn flaenorol, yr un person oedd y prif weithredwr a'r swyddog monitro. Yr oedd un achos pan oedd y person hwnnw hefyd yn brif swyddog cyllid. Bu gwrthdaro rhwng buddiannau, yn ogystal ag un neu ddau ddigwyddiad annymunol. Fodd bynnag, hoffwn ei wneud yn glir yn ystod fy mhum mlynedd fel arweinydd cyngor, pan oedd y prif weithredwr hefyd yn swyddog monitro, nad oedd unrhyw un achos pan nad oedd yn hynod gydwytodol wrth gadw'r rolau hynny ar wahân. Fodd bynnag, nid yw hynny'n sefyllfa ddelfrydol. Mae'n syniad gwael i'r rolau hyn gael eu cyflawni gan yr un person.

Mae gwelliant 3 yn gofyn inni ystyried a oes mesurau i ddarparu digon o amddiffyniad ac annibyniaeth i'r swyddog monitro weithredu'n annibynnol. Bydd y person hwnnw'n parhau fel un o weithwyr cyflogedig y cyngor a bydd yn gorfod gweithio gyda swyddogion ac aelodau. Gellid dadlau pa mor annibynnol y gall swyddog monitro fod tra'n cael ei dalu gan y cyngor. Nid ydym yn gofyn i hyn fod yn ddigyfnawid, ond byddwn yn ei ystyried yn ofalus.

Drwy alw am reolwr archwilio mewnol, yr ydym yn dymuno i'r rôl gael ei diffinio. Mae'n bwysig sicrhau'r awdurdodau fod eu gweithdrefnau, arferion, gweithredoedd a phrosesau yn eu priod le. Yn ogystal, mae'n rhaid i'r cyhoedd deimlo'n hyderus fod yr

properly. An independent audit committee to which the manager would be answerable opens up the whole issue of transparency and accountability.

I will refer to my experience when I became a member of a council where there was no planning enforcement committee. In eight years as an opposition member, there were only two prosecutions and they were not pursued to the end. Once we set up a planning enforcement committee, there were several prosecutions, most of which were successful. That made a tremendous difference to what was happening in the planning area. That experience relates to establishing an independent audit committee, which ensures that processes are opened up. It would be a valuable addition to the way that local authorities operate.

Peter Black: I declare an interest as a member of the City and County of Swansea Council. As a local councillor, what always strikes me is how much more restrictive the ethical framework for councillors is than that operated in the National Assembly. Declarations of interest are important, but whereas in this Chamber we can continue to talk about a subject and, in many circumstances, vote on it, in local councils, members who declare an interest must withdraw.

The registration of interests in local councils is also stricter, though they do not receive the same level of scrutiny as the Assembly does. Posting those interests onto the internet, and the higher profile of the National Assembly leads to far greater scrutiny of our declared interests.

Councils are changing and, as part of that change, it has become necessary to incorporate new structures and procedures to ensure that the public retains confidence in the integrity of councillors, and that proper scrutiny of their individual actions is possible. That is why we have a raft of measures before us setting up standards committees, establishing a code of conduct, putting tribunals in place and dealing with the powers and functions of the monitoring officer and the Ombudsman.

awdurdod yn gweithredu'n gywir. Mae pwyllgor archwilio annibynnol lle y byddai'r rheolwr yn atebol yn codi'r holl fater o eglurder ac atebolrwydd.

Cyfeiriaf at fy mhrofiad pan ddeuthum yn aelod o gyngor pan nad oedd unrhyw bwyllgor gorfodi cynllunio. Yn ystod wyth mlynedd fel aelod o'r wrthblaid, dim ond dau erlyniad a fu ac ni ddilynwyd y rheini i'r pen. Pan sefydlasom bwyllgor gorfodi cynllunio, bu nifer o erlyniadau, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn llwyddiannus. Gwnaeth hynny wahaniaeth enfawr i'r hyn a oedd yn digwydd ym maes cynllunio. Mae'r profiad hwnnw yn ymwneud â sefydlu pwyllgor archwilio annibynnol, sydd yn sicrhau bod prosesau'n fwy agored. Byddai'n ychwanegiad gwerthfawr i'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn gweithredu.

Peter Black: Datganaf fuddiant fel aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Fel cynghorydd lleol, yr hyn sydd yn syndod imi o hyd yw faint yn fwy cyfyngedig y mae'r fframwaith moesegol ar gyfer cynghorwyr na'r hyn a weithredir yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae datganiadau o fuddiant yn bwysig, ond tra y gallwn barhau i siarad am bwnc yn y Siambr hon ac, mewn nifer o amgylchiadau, bleidleisio arno, mewn cynghorau lleol, mae'n rhaid i aelodau sydd yn datgan buddiant dynnu yn ôl.

Mae cofrestru buddiannau mewn cynghorau lleol hefyd yn fwy llym, er nad ydynt yn derbyn yr un lefel o graffu ag y gwna'r Cynulliad. Mae gosod y buddiannau hynny ar y rhyngwyd, a phroffil uwch y Cynulliad Cenedlaethol yn arwain at lawer mwy o archwilio i'r buddiannau a ddatganwyd gennym.

Mae'r cynghorau yn newid ac, fel rhan o'r newid hwnnw, daeth yn angenrheidiol ymgorffori strwythurau a gweithdrefnau newydd er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn parhau i fod yn hyderus o onestrwydd cynghorwyr a'i fod yn bosibl craffu ar eu gweithredoedd unigol yn gywir. Dyna pam bod gennym bentwr o fesurau ger ein bron sydd yn sefydlu pwyllgorau safonau, sefydlu cod ymddygiad, gosod tribiwnlysoedd yn eu lle ac yn delio â phwerau a swyddogaethau'r swyddog monitro a'r Ombudsman.

Local government in Wales has not escaped scandal in the past, despite the impression that Janet Ryder unfortunately gave. The Vale of Glamorgan, Blaenau Gwent, Anglesey and others have hit headlines in recent times. That is why we must ensure that procedures exist to protect the public and councillors.

I have concerns, not about the regulations and the legislation, but about how they will be implemented. First, the role of the monitoring officer—and this reflects many of the things that Janet Davies has stated—will be crucial in this whole set-up. The person doing that job must have integrity, and must enjoy the confidence of councillors and other officers—and I do not imply that that has been anything but the case in the past. Above all, they must feel secure in making recommendations that may be controversial or contrary to the wishes of their political masters, without fear of finding themselves out on their ears in the long term because of their impertinence. That has been a problem in the past. It must not be a problem in the future. The biggest test of these reforms will be the robustness of the monitoring officer's position and whether the built-in protection for that person works. I urge the Minister to keep that under review and to be prepared to amend these regulations if they prove to be insufficient in this regard.

My second concern is to do with the role of the standards committees. They will also play a key role in the way that this new regime works. However, there are already examples of councillors seeking to use them to settle political scores, or of not understanding their role and wishing to use the committees to resolve frustrations within the political system. Again, we must keep these under review and monitor the nature and number of referrals.

Nid yw llywodraeth leol yng Nghymru wedi dianc rhag gwarth yn y gorffennol, er gwaetha'r argraff a roddodd Janet Ryder, yn anffodus. Mae Bro Morgannwg, Blaenau Gwent, Ynys Môn ac eraill wedi bod yn y penawdau yn ddiweddar. Dyna pam bod yn rhaid inni sicrhau bod gweithdrefnau yn eu lle er mwyn amddiffyn y cyhoedd a chynghorwyr.

Mae gennyf bryderon, nid am y rheoliadau a'r ddeddfwriaeth, ond am sut y cânt eu rhoi ar waith. Yn gyntaf, bydd rôl y swyddog monitro—ac mae hyn yn adlewyrchu llawer o'r pethau a nododd Janet Davies—yn hanfodol i'r drefn gyfan hon. Rhaid i'r person sydd yn cyflawni'r swydd honno feddu ar onestrwydd, a rhaid iddo gael hyder y cynghorwyr a swyddogion eraill—ac nid awgrymaf nad dyna oedd yn wir yn y gorffennol. Yn bennaf oll, rhaid iddynt deimlo'n ddiogel wrth gynnig eu hargymhellion a allai fod yn ddadleuol neu'n groes i ddymuniadau eu meistri gwleidyddol, heb ofni cael eu diswyddo yn y tymor hir am eu hyfdra. Bu hynny'n broblem yn y gorffennol. Ni ddylai fod yn broblem yn y dyfodol. Prawf mwyaf y diwygiadau hyn fydd cadernid safle'r swyddog monitro ac a fydd yr amddiffyniad sydd yn gynwysedig i'r person hwnnw yn gweithio. Pwysaf ar y Gweinidog i barhau i adolygu hynny ac i fod yn barod i ddiwygio'r rheoliadau hyn os cânt eu profi'n annigonol yn hyn o beth.

Mae fy ail bryder yn ymwneud â rôl y pwyllgorau safonau. Byddant hwy hefyd yn chwarae rôl allweddol yn y ffordd y mae'r drefn newydd hon yn gweithio. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau eisoes o gynghorwyr yn ceisio eu defnyddio er mwyn ennill pwyntiau gwleidyddol, neu o gynghorwyr nad ydynt yn deall eu rôl ac yn dymuno defnyddio'r pwyllgorau i ddatrys rhwystredigaethau o fewn y system wleidyddol. Unwaith eto, rhaid inni barhau i adolygu hynny a monitro natur a nifer yr achosion a gaiff eu hailgyfeirio.

Finally, the Assembly must recognise that local councils are elected bodies answerable to the electorate. It is not for us to preach to them about standards or behaviour, although individual Members may take matters up at a local level. We also have a corporate role as a regulatory body.

Once these regulations are in place, they must be given time to bed down and councils allowed the time to get used to them. If they work properly, I believe that we can achieve a much higher level of public confidence in councils and councillors. That public confidence is the key to the whole modernisation process.

Geraint Davies: I declare an interest as a member of Rhondda Cynon Taff County Borough Council. As a member of a local authority, I welcome the opportunity to address the issue of the lack of public confidence in local government.

The low turnout at the recent general election indicates the public's apathy towards government at all levels. It is essential that this Assembly makes it a priority to restore public confidence with this local government 'Bill'. Plaid Cymru—The Party of Wales believes that local government must be inclusive and that the public must be fully aware of what decisions are made and how they are reached. They must have a sense of ownership in the decisions that affect their lives. That can best be achieved through openness and accountability. The council cabinets of the three Plaid Cymru-controlled local authorities, namely Caerphilly, Gwynedd and Rhondda Cynon Taff, meet in public. Cabinet meetings in Gwynedd are also broadcast live on the internet. Those councils offer good examples of the inclusiveness that encourages the public to feel that their local government truly represents them.

The system of area committees proposed by the local government 'Bill' is similar to that of area partnerships that Rhondda Cynon Taff

Yn olaf, rhaid i'r Cynulliad gydnabod bod cynghorau lleol yn gyrff etholedig sydd yn atebol i'r etholwyr. Nid ein gwaith ni yw pregethu wrthynt ynghylch eu safonau neu eu hymddygiad, er y gallai Aelodau unigol godi'r materion hyn ar lefel leol. Mae gennym hefyd rôl gorfforaethol fel corff rheoliadol.

Pan fydd y rheoliadau hyn yn eu lle, rhaid rhoi llonydd iddynt ymsefydlu a rhoi amser i'r cynghorau ymgyswrtio â hwy. Os byddant yn gweithio'n gywir, credaf y gallwn sicrhau lefel llawer uwch o ffydd ymhlith y cyhoedd mewn cynghorau a chynghorwyr. Y ffydd honno gan y cyhoedd yw'r allwedd i'r broses foderneiddio gyfan hon.

Geraint Davies: Datganaf fuddiant fel aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Fel aelod o awdurdod lleol, croesawaf y cyfle i drafod diffyg ffydd y cyhoedd mewn llywodraeth leol.

Mae'r ganran isel o bobl a bleidleisiodd yn yr etholiad cyffredinol diweddar yn arwydd o ddifaterwch y cyhoedd tuag at lywodraeth ar bob lefel. Mae'n hanfodol mai blaenoriaeth y Cynulliad yw adfer hyder ymhlith y cyhoedd gyda'r 'Mesur' llywodraeth leol hwn. Cred Plaid Cymru—The Party of Wales y dylai llywodraeth leol fod yn gynhwysol a bod yn rhaid i'r cyhoedd fod yn llwyr ymwybodol o ba benderfyniadau a wneir a sut y'u cyrhaeddir. Rhaid iddynt deimlo eu bod yn berchen ar y penderfyniadau sydd yn effeithio ar eu bywydau. Y ffordd orau o wneud hynny yw drwy fod yn agored ac yn atebol. Mae cabinetau'r tri awdurdod lleol a reolir gan Plaid Cymru, sef Caerffili, Gwynedd a Rhondda Cynon Taf, yn cyfarfod yn gyhoeddus. Hefyd caiff cyfarfodydd cabinet yng Ngwynedd eu darlledu'n fyw ar y rhyngwyd. Mae'r cynghorau hynny yn cynnig enghreifftiau da o'r dulliau cynhwysol sydd yn annog y cyhoedd i deimlo bod eu llywodraeth leol yn wirioneddol yn eu cynrychioli.

Mae'r system o bwyllgorau ardal a gynigiwyd gan y 'Mesur' llywodraeth leol yn debyg i'r system o bartneriaethau ardal y mae

local authority is implementing. Our aim is to help build consensus on local priorities and to provide an avenue for developing individual community plans. We have not acted sooner because, for the last two years, we have been trying to resolve the dire financial problems that we inherited. However, area forums are already in operation in Caerphilly, where around 50 organisations met to produce a community plan. The result was a multi-agency document subject to public consultation and involvement. The county borough was divided into seven areas with boundaries the subject of consultation and agreement. Seven area forums were established, with one third of the representation coming from each of the public, private and voluntary sectors. Members meet in their area groupings for informal discussions on key issues in their areas. The forums have a consultative role with no decision-making powers. However, the forums are influential in terms of identifying potential joint initiatives and monitoring the progress of those that proceed.

A two-way flow of information between the cabinet and the area forums is ensured by the attendance of a cabinet member at meetings and by reporting on forum meetings to the full council. Money has been allocated in this financial year for grey area projects that fall between council services and partner organisations' responsibilities, for feasibility studies to help develop local ideas and for innovative work.

In Caerphilly, area forums are working well and have provided a good opportunity to bring effective accountability to the community, which is working with the council and seeing it as its council. This is inclusiveness at its most effective with a possibility of involving all groups in the community. It is a model that other local authorities should consider seriously.

The Minister for Finance, Local Government and Communities (Edwina Hart): Despite disagreements over the amendments, it is clear from discussion in the Chamber today that the Assembly is

awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf yn ei gweithredu. Ein nod yw helpu wrth sefydlu consensws ar flaenoriaethau lleol a darparu trywydd ar gyfer datblygu cynlluniau cymunedol unigol. Nid ydym wedi gweithredu cyn hyn am ein bod, dros y ddwy flynedd diwethaf, wedi bod yn ceisio datrys y problemau ariannol dybryd a etifeddasom. Fodd bynnag, mae fforymau ardal eisoes yn gweithredu yng Nghaerffili, lle y cyfarfu tua 50 o sefydliadau i lunio cynllun cymunedol. Y canlyniad oedd dogfen aml-asiantaeth a oedd yn destun ymgynghoriad a chyfraniad cyhoeddus. Rhannwyd y bwrdeistref sirol yn saith ardal gyda ffiniau a oedd yn destun ymgynghoriad a chytundeb. Sefydlwyd saith fforwm ardal, gyda thraean o'r cynrychiolwyr yn deillio o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae aelodau'n cyfarfod yn eu grwpiau ardal ar gyfer trafodaethau anffurfiol ar faterion allweddol yn eu hardaloedd. Mae gan y fforymau rôl ymgynghorol heb bwerau i wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae'r fforymau yn ddylanwadol o ran adnabod mentrau posibl ar y cyd a monitro datblygiad y rheini sydd yn mynd rhagddi.

Mae'r llif ddwyffordd o wybodaeth rhwng y cabinet a'r fforymau ardal wedi'i sicrhau gan bresenoldeb aelod o'r cabinet mewn cyfarfodydd a chan adroddiadau ar gyfarfodydd fforwm i'r cyngor llawn. Dyrannwyd arian yn ystod y flwyddyn ariannol hon i brosiectau amrywiol sydd ar y ffin rhwng gwasanaethau'r cyngor a chyfrifoldebau sefydliadau partneriaeth, ar gyfer astudiaethau dichonoldeb er mwyn cynorthwyo wrth ddatblygu syniadau lleol ac am waith arloesol.

Yng Nghaerffili, mae fforymau ardal yn gweithio'n hwylus ac maent wedi darparu cyfle da i sicrhau atebolrwydd effeithiol i'r gymuned, sydd yn cydweithio â'r cyngor ac yn ei ystyried fel ei chyngor. Dyma ymagwedd gynhwysol ar ei hanterth gyda phosibilrwydd o gynnwys pob grŵp yn y gymuned. Mae'n fodel y dylai awdurdodau lleol eraill ei ystyried o ddifrif.

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart): Er gwaethaf anghytundeb ynglŷn â'r gwelliannau, mae'n amlwg ar sail y drafodaeth yn y Siambr heddiw fod y

committed to the highest standards in public service in Wales. I recognise the contribution that has been made across Wales. I notice that people have sought to identify councils where there have been problems, but that is not helpful because we have to look towards the future and put a renewed confidence into Welsh local government with this series of proposals.

I appreciate William Graham's comments on how well things have worked in Newport, which shows that local authorities have taken the lead to undertake some of this work before the introduction of legislation. It was useful to see what role an independent chair could play. It was also a useful illustration to everyone here of how satisfactory such arrangements could be in terms of the local authority's credibility and the trust that it inspired in its citizens.

Tom Middlehurst referred to Freemasons, and there are issues related to Freemasons having to register as such. The code requires that members disclose membership of any private clubs, including the Freemasons. They must then seek dispensation from the standards committee if they wish to take part in any business related to the membership of that club. There are many secret societies, not only the Freemasons. Guidance will spell out that members should interpret this widely. For example, people might judge that a councillor could be influenced by the fact that the business relates to a fellow Freemason, or a fellow member of any sort of club and, in those circumstances, the onus would be on the members to disclose those ties. If they did not, and if they took part in that business, they would be laying themselves open to a complaint that they had failed to disclose a personal interest.

11:25 a.m.

The guidance makes it clear that members must register interests—such as membership of clubs and societies—in advance, which will show that they have nothing to hide. This

Cynulliad yn ymrwymedig i'r safonau uchaf o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Cydnabyddaf y cyfraniad a wnaethpwyd ledled Cymru. Sylwais fod pobl wedi ceisio dynodi cynghorau lle y bu problemau, ond ni fu hynny yn ddefnyddiol oherwydd bod yn rhaid inni edrych tuag at y dyfodol a sicrhau hyder newydd mewn llywodraeth leol yng Nghymru yn sgîl y gyfres hon o gynigion.

Gwerthfawrogaf sylwadau William Graham ynglŷn â pha mor hwylus yw'r trefniadau yng Nghasnewydd, sydd yn dangos bod yr awdurdodau lleol wedi cymryd yr awenau i gyflawni peth o'r gwaith hwn cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno. Yr oedd yn ddefnyddiol gweld pa rôl y gallai cadeirydd annibynnol ei chwarae. Yr oedd hefyd yn bortread defnyddiol i bawb yma o ba mor foddhaol y gallai trefniadau o'r fath fod o ran hygrededd yr awdurdod lleol a'r ymddiriedaeth a enillodd ymhlith ei ddinasyddion.

Cyfeiriodd Tom Middlehurst at y Seiri Rhyddion, ac mae materion sydd yn gysylltiedig â chofrestru fel Seiri Rhyddion. Mae'r cod yn ei wneud yn ofynnol i aelodau ddatgan aelodaeth o unrhyw glybiau preifat, gan gynnwys y Seiri Rhyddion. Rhaid iddynt geisio gollyngiad o'r pwyllgor safonau os dymunant gymryd rhan mewn unrhyw fusnes sydd yn gysylltiedig ag aelodaeth o'r clwb hwnnw. Ceir nifer o gymdeithasau cyfrin, ar wahân i'r Seiri Rhyddion. Bydd yr arweiniad yn nodi y dylai'r aelodau ddehongli hyn yn eang. Er enghraifft, gallai pobl farnu bod posibilrwydd i gynghorydd gael ei ddylanwadu gan y ffaith fod y busnes yn ymwneud â chyd-aelod o'r Seiri Rhyddion, neu gyd-aelod o unrhyw fath o glwb ac, o dan yr amgylchiadau hynny, byddai'r cyfrifoldeb ar ysgwyddau'r aelod i ddatgan y cysylltiadau hynny. Pe na bai'n gwneud hynny, a phe bai wedi cymryd rhan yn y busnes, byddai yn rhoi ei hun mewn perygl o dderbyn cwyn am fethu â datgan buddiant personol.

Mae'r arweiniad yn ei wneud yn glir fod yn rhaid i aelodau gofrestru buddiannau—megis aelodaeth o glybiau neu gymdeithasau—ymlaen llaw, a fydd yn dangos nad oes

strikes the right balance between putting personal responsibility on individual members to declare interests, but not requiring them to go into every detail of those interests, when they might never be relevant to council business. I appreciate that Freemasonry is an emotive issue, but this guidance is sufficient in that regard.

David Davies: When you talk of declaring membership of clubs, does that apply to Friends of the Earth, Greenpeace or any type of organisation, because it seems to be wide-ranging?

Edwina Hart: It is wide-ranging. However, if you were a member of a football club committee, for example, it would only be right and proper to declare that membership if the local authority was considering a grant application from that club. We must take the widest possible definition, so that people understand how important this is. Through its Committee on Standards of Conduct, the Assembly has tried to display the highest standards in this regard, and it is important that this is also applied in local government. I will take into account any representations that I receive about what people might find onerous. However, it is important that we set down our marker clearly at this stage.

It is important to consider how such matters apply to employees, as well as to members. Employees should also adhere to certain rules and regulations. I have taken into account the points made by Janet Davies, particularly as she is Chair of the Audit Committee. I understand some of her general comments. However, I am not minded to support amendment 3, as I do not support the establishment of a second independent audit mechanism for local authorities. The Audit Commission already provides an independent audit of each local authority, and another audit mechanism would be cumbersome. However, I am vying for the general thrust of those points. Peter and Geraint talked about openness, which is the key to this issue. The scrutiny role, which we discussed earlier this week, and these high standards are the way

ganddynt unrhyw beth i'w guddio. Mae hyn yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng gosod cyfrifoldeb personol ar aelodau unigol i ddatgan buddiannau, ond heb eu gorfodi i fanylu ynghylch y buddiannau hynny, pan na fyddent o bosibl fyth yn berthnasol i fusnes y cyngor. Gwerthfawrogaf fod y Seiri Rhyddion yn bwnc sydd yn ennyn cynnwrf, ond mae'r arweiniad yn ddigonol o ran hynny.

David Davies: Pan siaradwch am ddatgan aelodaeth o glybiau, a yw hynny'n berthnasol i Gyfeillion y Ddaear, Greenpeace neu unrhyw fath o sefydliad, oherwydd ymddengys fel pe bai'n bwnc pellgyrhaeddol?

Edwina Hart: Mae'n bellgyrhaeddol. Fodd bynnag, pe baech yn aelod o bwyllgor tîm pêl-droed, er enghraifft, byddai ond yn iawn ac yn gywir datgan yr aelodaeth honno pe bai'r awdurdod lleol yn ystyried cais am grant gan y clwb hwnnw. Rhaid inni ystyried y diffiniad ehangaf posibl, fel bod pobl yn deall pa mor bwysig ydyw. Drwy gyfrwng ei Bwyllgor Safonau Ymddygiad, ceisiodd y Cynulliad arddangos y safonau uchaf posibl o safbwynt hyn, ac mae'n bwysig y caiff hyn hefyd ei roi ar waith oddi mewn i lywodraeth leol. Byddaf yn ystyried unrhyw sylwadau a dderbyniaf ynghylch yr hyn y gallai pobl ei ystyried yn feichus. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn amlinellu hyn yn glir ar y cam hwn.

Mae'n bwysig ystyried sut y mae materion o'r fath yn berthnasol i gyflogeion, yn ogystal ag i aelodau. Dylai cyflogeion lynu at reolau a rheoliadau penodol hefyd. Yr wyf wedi ystyried y pwyntiau a wnaeth Janet Davies, yn enwedig am ei bod yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Deallaf rai o'i sylwadau cyffredinol. Fodd bynnag, ni fwriadaf gefnogi gwelliant 3, am nad wyf yn cefnogi sefydlu ail ddyfais archwilio annibynnol ar gyfer awdurdodau lleol. Mae'r Comisiwn Archwilio eisoes yn darparu archwiliad annibynnol ar gyfer pob awdurdod lleol, a byddai dyfais archwilio arall yn feichus. Fodd bynnag, yr wyf yn ymgiprys am fyrddw cyffredinol y pwyntiau hyn. Siaradodd Peter a Geraint am onestrwydd, sydd yn allweddol i'r mater hwn. Y rôl archwilio a drafodasom yn gynharach yr wythnos hon, a'r safonau

forward for Wales.

I say to Janet Ryder that this is a Welsh agenda. I was unable to see a glimmer of understanding of local government in her contribution on this issue. Local government worked with us on what it sees as necessary proposals, which is why it took the lead on this. In terms of audit, Janet is aware, from the partnership council, of concerns regarding local government and bureaucracy. She is also aware of the will within local government to reform and take on a central role in government.

I commend this motion to the Assembly, and thank Members for their contributions.

uchel hyn yw'r ffordd ymlaen i Gymru.

Dywedaf wrth Janet Ryder mai agenda Gymreig yw hon. Ni allwn weld llygedyn o ddealltwriaeth o lywodraeth leol yn ei chyfraniad ar y mater hwn. Cydweithiodd llywodraeth leol â ni ar yr hyn a ystyriai'n gynigion angenrheidiol, a dyna pam yr arweiniodd y ffordd ar hyn. O ran archwilio, mae Janet yn ymwybodol, o'r cyngor partneriaeth, o bryderon yn ymwneud â llywodraeth leol a biwrocratiaeth. Mae hi hefyd yn ymwybodol o'r ewylllys o fewn llywodraeth leol i ddiwygio ac ymgymryd â rôl ganolog mewn llywodraeth.

Cymeradwyaf y cynnig hwn i'r Cynulliad, a diolchaf i'r Aelodau am eu cyfraniadau.

*Gwelliant 1: O blaid 5 , Ymatal 0, Yn erbyn 32
Amendment 1: For 5, Abstain 0, Against 32*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bourne, Nick
Davies, David
Graham, William
Rogers, Peter
Thomas, Owen John

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Davies, Andrew
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Helen Mary
Lloyd, David
Law, Peter
Lewis, Huw
Middlehurst, Tom
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Wigley, Dafydd

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.*

Gwelliant 2: O blaid 14 , Ymatal 0, Yn erbyn 23
Amendment 2: For 14, Abstain 0, Against 23

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Bourne, Nick
 Davies, David
 Davies, Geraint
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Graham, William
 Hancock, Brian
 Jarman, Pauline
 Jones, Helen Mary
 Lloyd, David
 Rogers, Peter
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Wigley, Dafydd

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Burnham, Eleanor
 Davies, Andrew
 Edwards, Richard
 Essex, Sue
 Evans, Delyth
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Halford, Alison
 Hart, Edwina
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Law, Peter
 Lewis, Huw
 Middlehurst, Tom
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda

Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.

Gwelliant 3: O blaid 15 , Ymatal 0, Yn erbyn 26
Amendment 3: For 15, Abstain 0, Against 26

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Bourne, Nick
 Davies, David
 Davies, Geraint
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Graham, William
 Hancock, Brian
 Jarman, Pauline
 Jones, Helen Mary
 Lloyd, David
 Melding, David
 Rogers, Peter
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Wigley, Dafydd

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Burnham, Eleanor
 Butler, Rosemaey
 Davies, Andrew
 Edwards, Richard
 Essex, Sue
 Evans, Delyth
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Halford, Alison
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Law, Peter
 Lewis, Huw
 Middlehurst, Tom
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Williams, Kirsty

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.*

*Gwelliant 4: O blaid 5 , Ymatal 0, Yn erbyn 36
Amendment 4: For 5, Abstain 0, Against 36*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bourne, Nick
Davies, David
Graham, William
Melding, David
Rogers, Peter

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Davies, Andrew
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Helen Mary
Lloyd, David
Law, Peter
Lewis, Huw
Middlehurst, Tom
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.*

*Gwelliant 5: O blaid 5 , Ymatal 0, Yn erbyn 36
Amendment 5: For 5, Abstain 0, Against 36*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bourne, Nick
Davies, David
Graham, William
Melding, David
Rogers, Peter

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Davies, Andrew
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Edwards, Richard

Essex, Sue
 Evans, Delyth
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Halford, Alison
 Hancock, Brian
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Jarman, Pauline
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Helen Mary
 Lloyd, David
 Law, Peter
 Lewis, Huw
 Middlehurst, Tom
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Ryder, Janet
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Wigley, Dafydd
 Williams, Kirsty

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment defeated.*

*Gwelliant 6: O blaid 11, Ymatal 5, Yn erbyn 26
 Amendment 6: For 11, Abstain 5, Against 26*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Dafis, Cynog
 Davies, Geraint
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Hancock, Brian
 Jarman, Pauline
 Jones, Helen Mary
 Lloyd, David
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Wigley, Dafydd

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Burnham, Eleanor
 Butler, Rosemary
 Davies, Andrew
 Edwards, Richard
 Essex, Sue
 Evans, Delyth
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Halford, Alison
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Law, Peter
 Lewis, Huw
 Middlehurst, Tom
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
 The following Members abstained:

Bourne, Nick
Davies, David
Graham, William
Melding, David
Rogers, Peter

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.*

*Cynnig: O blaid 42, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 42, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Helen Mary
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

**Pwynt o Drefn
Point of Order**

Pauline Jarman: Point of order. May I ask that the record be checked? I voted against amendment 1, but I do not think that my vote was registered as I was having difficulty with the voting system.

Pauline Jarman: Pwynt o drefn. A allaf ofyn ichi wirio'r cofnod? Pleidleisiais yn erbyn gwelliant 1, ond ni chredaf y cofrestrwyd fy mhleidlais oherwydd fy mod yn cael anhawster gyda'r system bleidleisio.

The Presiding Officer: Your vote will be recorded.

Y Llywydd: Caiff eich pleidlais ei chofnodi.

**Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion Llywodraeth Leol
Composite Motion: Approval of Local Government Orders**

Y Llywydd: O dan Reol Sefydlog Rhif 22.25, ni chynhelir dadl ar y cynnig hwn.

The Presiding Officer: Under Standing Order No. 22.25, this motion is not subject to debate.

The Minister for Assembly Business (Andrew Davies) : I propose that

Y Trefnydd (Andrew Davies): Cynigiau fod

the National Assembly, acting under Standing Order No. 22.25,

y Cynulliad Cenedlaethol, drwy weithredu o dan Reol Sefydlog Rhif 22.25,

1. approves the Conduct of Members (Principles) (Wales) Order 2001, laid in the Table Office on 22 May 2001;

1. yn cymeradwyo Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2001;

considers the report of the Legislation Committee, which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Conduct of Members (Principles) (Wales) Order 2001, laid in the Table Office on 12 June 2001;

yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sydd yn peri pryder yn y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin;

2. approves the Conduct of Members (Model Code of Conduct) (Wales) Order 2001, laid in the Table Office on 22 May 2001;

2. yn cymeradwyo Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai;

considers the report of the Legislation Committee, which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Conduct of Members (Model Code of Conduct) (Wales) Order 2001, laid in the Table Office on 12 June 2001;

yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sydd yn peri pryder yn y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2001;

3. approves the Standards Committees (Grant of Dispensations) (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office on 22 May 2001;

3. yn cymeradwyo Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai;

- considers the report of the Legislation Committee, which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Standards Committees (Grant of Dispensations) (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office on 12 June 2001;*
- 4. approves the Adjudications by Case Tribunals and Interim Case Tribunal (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office on 22 May 2001;*
- considers the report of the Legislation Committee, which has not identified any matters for concern in the draft Order the Adjudications by Case Tribunals and Interim Case Tribunal (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office on 12 June 2001;*
- 5. approves the Code of Conduct (Non Qualifying Local Government Employees) (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office on 22 May 2001;*
- considers the report of the Legislation Committee, which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Code of Conduct (Non-Qualifying Local Government Employees) (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office on 12 June 2001;*
- 6. approves the Code of Conduct (Qualifying Local Government Employees) (Wales) Order 2001, laid in the Table Office on 22 May 2001;*
- considers the report of the Legislation Committee, which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Code of Conduct (Qualifying Local Government Employees) (Wales) Order 2001, laid in the Table Office on 12 June 2001;*
- 7. approves the Local Government Investigations (Functions of Monitoring Officers and Standards Committees) (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office on 22 May 2001;*
- yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sydd yn peri pryder yn y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2001;*
- 4. yn cymeradwyo Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2001;*
- yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sydd yn peri pryder yn y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2001;*
- 5. yn cymeradwyo Rheoliadau Cod Ymddygiad (Cyflogeion Anghymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2001;*
- yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sydd yn peri pryder yn y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Cod Ymddygiad (Cyflogeion Anghymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2001;*
- 6. yn cymeradwyo Gorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2001;*
- yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sydd yn peri pryder yn y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2001;*
- 7. yn cymeradwyo Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2001;*

considers the report of the Legislation Committee, which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Local Government Investigations (Functions of Monitoring Officers and Standards Committees) (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office on 12 June 2001 and the memorandum of corrections laid in Table Office on 13 June 2001;

8. *approves the Local Commissioner in Wales (Standards Investigations) (Wales) Order 2001, laid in the Table Office on 22 May 2001;*

considers the report of the Legislation Committee, which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Local Commissioner in Wales (Standards Investigations) (Wales) Order 2001, laid in the Table Office on 12 June 2001;

9. *approves the Standards Committees (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office on 22 May 2001;*

considers the report of the Legislation Committee, which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Standards Committees (Wales) Regulations 2001, laid in the Table Office on 12 June 2001;

10. *approves the Commission for Local Administration in Wales and Local Commissioner in Wales (Functions and Expenses) Regulations 2001, laid in the Table Office on 22 May 2001; and*

considers the report of the Legislation Committee, which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Commission for Local Administration in Wales and Local Commissioner in Wales (Functions and Expenses) Regulations 2001, laid in the Table Office on 12 June 2001. (NDM706)

yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sydd yn peri pryder yn y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2001 a'r memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2001;

8. *yn cymeradwyo Gorchymyn Comisiynydd Lleol yng Nghymru (Ymchwiliadau Safonau) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2001;*

yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sydd yn peri pryder yn y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Comisiynydd Lleol yng Nghymru (Ymchwiliadau Safonau) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2001;

9. *yn cymeradwyo Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2001;*

yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sydd yn peri pryder yn y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2001;

10. *yn cymeradwyo Rheoliadau Comisiwn Gweinyddiaeth Leol yng Nghymru a Chomisiynydd Lleol yng Nghymru (Swyddogaethau a Threuliau) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2001; ac*

yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sydd yn peri pryder yn y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Comisiwn Gweinyddiaeth Leol yng Nghymru a Chomisiynydd Lleol yng Nghymru (Swyddogaethau a Threuliau) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2001. (NDM706)

*Cynnig: O blaid 42, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 42, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:

The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Helen Mary
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

11:35 a.m.

Dadl Fer Short Debate

Swyddi i Bawb Jobs for All

Janet Davies: Having been out of e-mail contact since yesterday afternoon, I have not received any requests from Members to speak. However, if any Members want to speak, I am prepared to give them a minute in which to do so.

Janet Davies: Gan nad wyf wedi cysylltu ag unrhyw un dros yr e-bost ers prynhawn ddoe, nid wyf wedi derbyn unrhyw geisiadau gan Aelodau i siarad. Fodd bynnag, os dymuna unrhyw Aelodau siarad, yr wyf yn barod i roi munud iddynt wneud hynny.

The idea of jobs for all seems perhaps outlandish in twenty-first century Wales. Indeed, it is so outlandish that the Plaid Cymru group administrator received a telephone call from a Government representative asking what the debate was about.

There was no doubt what jobs for all, or full employment, meant 40 or 50 years ago. It meant high and stable employment, with only 2 to 3 per cent of people unemployed. However, that was in the days of the long, post-war economic boom.

It is important that in talking about this issue we do not lose sight of human need and, at times, suffering, in the web of facts, figures, trends and tables. This is about people, and they must shine through the debate.

Since the post-war prosperity, far-reaching global trends and advances in technology have altered the labour market beyond all recognition. Nobody would try to deny that these factors have had fundamental effects on the Welsh economy and the jobs available. Figures show that, in some areas of Wales, unemployment claimant rates stand at about 5 per cent only. However, we need to take a close look at those figures and compare what they are based upon with, for example, what such figures were based upon in the 1970s.

The first, most obvious difference is that employment is no longer stable. People must move from job to job, from shift to shift, particularly in the lower-paid sectors and in part-time work. Recent evidence reports displacement of people from one job to another, or to no job at all, as others on government programmes replace them. People moving in and out of subsidised jobs and government programmes are a tell-tale sign of an unsustainable labour-market programme. Non-activity rates are much higher than claimant rates. The 22 changes made in the method of gathering unemployment figures between 1980 and

Ymddengys y syniad o swyddi i bawb braidd yn anghyffredin yn yr unfed ganrif ar hugain yng Nghymru. Yn wir, mae'r syniad mor anghyffredin fel y derbyniodd gweinyddwr grŵp Plaid Cymru alwad ffôn gan gynrychiolydd y Llywodraeth yn gofyn beth oedd testun y ddadl.

Nid oedd amheuaeth beth oedd swyddi i bawb, neu gyflogaeth lawn, yn ei olygu 40 neu 50 mlynedd yn ôl. Yr oedd yn golygu cyflogaeth uchel a sefydlog, gyda dim ond 2 i 3 y cant o'r bobl yn ddi-waith. Fodd bynnag, yr oedd hynny yn nyddiau'r ffyniant economaidd hir ar ôl y rhyfel.

Mae'n bwysig, wrth inni siarad am y mater hwn, nad ydym yn colli golwg ar angen dynol ac, ar adegau, ddiodefaint, yng ngwe ffeithiau, ffigurau, tueddiadau a thablau. Mae hyn yn ymwneud â phobl, a rhaid iddynt ddisgleirio drwy'r ddadl.

Ers y ffyniant yn dilyn y rhyfel, mae tueddiadau a datblygiadau byd-eang pellgyrhaeddol mewn technoleg wedi newid y farchnad lafur y tu hwnt i bob adnabyddiaeth. Ni fyddai unrhyw un yn ceisio gwadu bod y ffactorau hyn wedi cael effaith sylfaenol ar economi Cymru ac ar y swyddi sydd ar gael. Dengys y ffigurau ar gyfer rhai ardaloedd o Gymru mai dim ond tua 5 y cant yw'r nifer sydd yn ddi-waith. Fodd bynnag, mae angen inni edrych yn fanwl ar y ffigurau hynny a'u cymharu gyda'r hyn y maent yn seiliedig arno: er enghraifft, yr hyn yr oedd ffigurau o'r fath yn seiliedig arno yn y 1970au.

Y gwahaniaeth cyntaf, amlycaf yw'r ffaith nad yw cyflogaeth bellach yn sefydlog. Rhaid i bobl symud o swydd i swydd, o sifft i sifft, yn enwedig yn y sectorau lle ceir y cyflog isaf ac mewn gwaith rhan-amser. Dengys tystiolaeth ddiweddar fod pobl yn cael eu symud o'r naill swydd i'r llall, neu i ddim swydd o gwbl, oherwydd bod pobl eraill ar raglenni'r llywodraeth yn cymryd eu lle. Mae pobl sydd yn symud i mewn ac allan o swyddi cymorthdaledig a rhaglenni'r llywodraeth yn arwydd amlwg o raglen marchnad lafur anghynaliadwy. Mae cyfraddau'r nifer sydd yn anweithgar yn llawer uwch na'r nifer sydd yn ddi-waith.

1992 continue to disguise that the figures are a serious understatement. In reality, the level of unemployment is two to three times higher.

Particularly horrifying figures showing the number of people of working age who were not in employment in 1999-2000, which were published in the labour force survey, cited that those people comprised 44 per cent of the population in Merthyr Tydfil and 40 per cent in Blaenau Gwent. That was before Corus did its worst. We heard Peter Law make a moving speech earlier—perhaps it was not supposed to be a speech, but it was—about the situation in Blaenau Gwent. Some of these people are ill, or on invalidity benefits, or maternity leave, but nevertheless these figures are so high as to cast severe doubt on the present method of gathering unemployment figures.

Recent employer surveys show an encouraging rise in the levels of employment among 17 to 34-year-olds, but the number of older people who are economically inactive has risen steadily, over the three years to last February, from 284,000 to 302,000. Our society cannot afford to have such an increase in the number of people from their mid-30s onwards who are no longer in paid work. They are experienced and we cannot afford to lose that experience.

You will say that this is gloomy, and we are not here to be gloomy, are we? We are not here to whinge. Dare I say that scrutinising—the proper word for ‘whingeing’—is not always popular among governing parties? The Government constantly tells us to be positive and to look for encouraging signs. So what should we look for? We need a highly-skilled workforce that is as safe as possible from vulnerability to global trends and which can adapt to changes in technology. Michael Portillo has spoken of a government creating economic conditions in which enterprise can flourish, linking it, rather weakly, to the corresponding duty of everyone who is able to do so to work.

Mae'r 22 newid a wnaethpwyd yn y dull o gasglu ffigurau diweithdra rhwng 1980 a 1992 yn parhau i guddio'r ffaith nad yw'r ffigurau hyn yn dangos y sefyllfa wirioneddol. Mewn gwirionedd, mae'r lefel diweithdra ddwy waith neu dair gwaith yn uwch.

Nododd ffigurau arbennig o frawychus a oedd yn dangos nifer y bobl o oed gweithiol nad oeddent yn cael eu cyflogi yn 1999-2000, a gyhoeddwyd yn arolwg y llafurlu, fod y bobl hynny yn cynnwys 44 y cant o'r boblogaeth ym Merthyr Tudful a 40 y cant ym Mlaenau Gwent. Yr oedd hynny cyn i Corus ddatgan y gwaethaf. Clywsom Peter Law yn gwneud araith deimladwy yn gynharach—efallai na fwriadwyd iddi fod yn araith, ond dyna a gafwyd—am y sefyllfa ym Mlaenau Gwent. Mae rhai o'r bobl hyn yn sâl, neu ar fudd-daliadau analluedd, neu ar gyfnod mamolaeth, ond serch hynny mae'r ffigurau hyn mor uchel fel eu bod yn bwrw cryn amheuaeth ar y dull presennol o gasglu ffigurau diweithdra.

Dengys arolygon cyflogwyr diweddar gynnydd gobeithiol yn lefelau cyflogaeth ymhlith pobl 17 i 35 oed, ond mae nifer y bobl hyn sydd yn economaidd anweithredol wedi codi'n raddol, dros y tair blynedd hyd Chwefror diwethaf, o 284,000 i 302,000. Ni all ein cymdeithas fforddio cael cymaint o gynnydd yn nifer y bobl yng nghanol eu 30au neu'n hyn nad ydynt bellach mewn gwaith cyflogedig. Maent yn brofiadol ac ni allwn fforddio colli'r profiad hwnnw.

Efallai y dywedwch fod hyn yn ddiflas, ac nad ydym yma i fod yn ddiflas. Nid ydym yma i gwyno. A feiddiaf ddweud nad yw craffu—y gair cywir am ‘gwyno’—bob amser yn boblogaidd ymhlith y pleidiau llywodraethol? Mae'r Llywodraeth bob amser yn dweud wrthym am fod yn bositif ac i edrych am arwyddion gobeithiol. Felly am beth y dylem edrych? Mae arnom angen gweithlu crefftus iawn y gellir ei ddiogelu cymaint â phosibl rhag bod yn agored i dueddiadau byd-eang ac sydd yn gallu addasu i newidiadau mewn technoleg. Mae Michael Portillo wedi siarad am lywodraeth yn creu amodau economaidd er mwyn galluogi mentrau i ffynnu, gan ei gysylltu, yn eithaf gwan, â'r ffaith mai dyletswydd gyfatebol

pawb sydd yn gallu gweithio, yw gwneud hynny.

New Labour promotes the idea that everyone who wants to work should be able to find a job quickly. That is fair enough, although it demands public intervention in a country that is starting from such a low level: a somewhat unfashionable concept among Government economists.

Mae Llafur Newydd yn hyrwyddo'r syniad y dylai pawb sydd am weithio fod yn gallu dod o hyd i swydd yn gyflym. Mae hynny'n ddigon teg, er ei fod yn gofyn am ymyriad cyhoeddus mewn gwlad sydd yn dechrau o lefel mor isel: cysyniad braidd yn anffasiynol ymhlith economyddion y Llywodraeth.

The role of this Assembly in getting our economy going and getting to grips with job provision is vital. For the first time, there is a Government of Wales that can put this issue at the top of the political agenda. European funds, as well as our own limited budget, are available to help with training and community regeneration.

Mae rôl y Cynulliad hwn wrth lywio ein heconomi a mynd i'r afael â'r ddarpariaeth o swyddi, yn hanfodol. Am y tro cyntaf, ceir Llywodraeth yng Nghymru sydd yn gallu rhoi'r mater hwn ar frig yr agenda wleidyddol. Mae cyllid Ewropeaidd, yn ogystal â'n cyllideb gyfyngedig ein hunain, ar gael i helpu gyda hyfforddiant ac adfywiad cymunedol.

Earlier in the Assembly's existence, the government document, 'Pathway to Prosperity: A New Economic Agenda for Wales', spoke of a need for at least 200,000 more jobs, which are better paid and use greater levels of skills. It was encouraging to see an analysis of this situation and we awaited the remedies with hope. We have seen and listened to announcements of new jobs, which we are told outweigh the job losses of which we are all aware. I have a list of over 1,000 manufacturing jobs, apart from the Corus losses, that have been lost in Wales this year. I do not propose to read out the list, which is highly depressing, particularly if the number of jobs lost over the previous two years is also considered. We have heard that many new service jobs will come to Wales and offset or surpass those that have been lost. It is not helpful to compare a list of jobs promised with jobs that have actually been lost. We need a comparison of the new jobs actually created with those that have been lost. Otherwise, cynicism sets in and nobody believes figures any longer. Cynicism leads to low election turnouts. British Telecom has surely taught us a lesson about jobs that were promised, listed and claimed, but which never came into being.

Yn fuan ar ôl sefydlu'r Cynulliad, nododd dogfen y llywodraeth 'Ffordd i Ffyniant: Agenda Economaidd Newydd i Gymru', yr angen am o leiaf 200,000 mwy o swyddi, â gwell cyflog ac sydd yn defnyddio lefelau uwch o sgiliau. Yr oedd yn galonogol gweld dadansoddiad o'r sefyllfa hon ac arosasom yn obeithiol am yr atebion. Yr ydym wedi gweld ac wedi gwrandao ar gyhoeddiadau am swyddi newydd, a dywedir wrthym eu bod yn gorbwyso'r swyddi a gollwyd, swyddi yr ydym oll yn ymwybodol ohonynt. Mae gennyf restr o dros 1,000 o swyddi gweithgynhyrchu, ar wahân i golledion Corus, a gollwyd yng Nghymru eleni. Ni fwriadaf ddarllen y rhestr ar goedd, am ei bod yn un hynod o ddigalon, yn enwedig os caiff nifer y swyddi a gollwyd dros y ddwy flynedd flaenorol hefyd ei ystyried. Clywsom fod nifer o swyddi gwasanaeth newydd ar fin dod i Gymru a fydd yn gwrthbwyso neu'n mynd y tu hwnt i'r rhai hynny a gollwyd. Nid yw'n ddefnyddiol cymharu rhestr o swyddi newydd a grëwyd gyda'r rhai hynny a gollwyd. Mae angen inni gymharu'r swyddi newydd a grëwyd gyda'r rheini a gollwyd. Fel arall, ceir sinigiaeth ac ni fydd neb yn credu ffigurau bellach. Mae sinigiaeth yn arwain at y ffaith nad yw llawer o bobl yn cymryd rhan mewn etholiadau. Mae British Telecom yn sicr wedi dysgu gwers inni ynglŷn â swyddi a addawyd, a restrwyd ac a hawliwyd, ond na ddaeth erioed i fodolaeth.

The last few years have been boom years in comparison to those of the early 1990s. Ominous signs of economic recession in the United States, which has in the past dragged the UK economy into recession, now loom. It is true that some financial experts say that this will not happen now and that if the UK were a fully signed-up member of the European currency that would, perhaps, be less likely. Nevertheless, as things stand, it looks as if there are storms ahead. The rural economy, for example, needs a real boost. Between 1997 and 2000, the number of jobs in agriculture, fisheries and forestry, fell from 20,000 to 17,000. Manufacturing jobs are draining away, with another 17,000 net jobs lost during those years. These figures come from employer surveys, and all these losses occurred during a time of relative growth. It is true that more jobs are being created in the service sector. On the whole they are non-unionised, less well paid and less stable. They cannot be the solution that we seek. The Assembly can and should act.

'Betterwales.com' contained a commitment to drawing up an employment strategy by December 2000. That did not happen. In response to pressure from the European Commission for such a plan, the Government agreed to include it in the national economic development strategy. However, the reference to it there is minimal. It cannot possibly be described as a strategy. We were represented at the Welsh seminar for the new European round of preparing national action plans for jobs, by a civil servant for whom employment issues constitute only a tiny part of his portfolio. That was unfair to him and definitely unfair to Wales.

Therefore, what can be suggested to attain fuller employment? First, I suggest that training and job-seeking support is more successful if it is locally based. An apparent trend towards centralisation should be resisted. It might seem cheaper in the short term, but it will not be cheaper if, as some evidence suggests, people in the areas of

Bu'r ychydig flynyddoedd diwethaf yn flynyddoedd o ffyniant o'u cymharu â'r rhai hynny ar ddechrau'r 1990au. Mae arwyddion anffodus o ddirwasgiad economaidd yn yr Unol Daleithiau, sydd yn y gorffennol wedi llusgo economi'r DU i ddirwasgiad, yn dod i'r golwg yn awr. Mae'n wir bod rhai arbenigwyr ariannol yn dweud na fydd hyn yn digwydd yn awr a phe bai'r DU yn aelod llawn o arian Ewrop, byddai hynny, efallai, yn llai tebygol. Serch hynny, o ystyried y sefyllfa bresennol, ymddengys fel pe bai stormydd o'n blaenau. Mae angen ffyniant gwirioneddol ar yr economi wledig, er enghraifft. Rhwng 1997 a 2000, gostyngodd nifer y swyddi mewn amaethyddiaeth, pysgodfeydd a choedwigaeth o 20,000 i 17,000. Mae swyddi gweithgynhyrchu yn diflannu'n raddol, gyda 17,000 clir o swyddi eraill a gollwyd yn ystod y blynyddoedd hynny. Daw'r ffigurau hyn o arolygon cyflogwyr, a chafwyd yr holl golledion hyn yn ystod cyfnod o dwf cymharol. Mae'n wir bod mwy o swyddi yn cael eu creu yn y sector gwasanaeth. Ar y cyfan, nid oes ganddynt undeb llafur, mae'r cyflog yn llai ac maent yn llai sefydlog. Mae'n sicr nad y rhain yw'r ateb yr ydym yn ei geisio. Gall y Cynulliad weithredu a dylai wneud hynny.

Yr oedd 'Gwelwales.com' yn cynnwys ymrwymiad i lunio strategaeth gyflogaeth erbyn Rhagfyr 2000. Ni ddigwyddodd hynny. Mewn ymateb i bwysau gan y Comisiwn Ewropeaidd am gynllun o'r fath, cytunodd y Llywodraeth i'w gynnwys yn y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol. Fodd bynnag, prin yw'r cyfeiriad ato yn honno. Nid oes modd ei ddisgrifio fel strategaeth. Fe'n cynrychiolwyd yn y seminar Cymreig ar y cylch Ewropeaidd newydd o baratoi cynlluniau gweithredu cenedlaethol ar gyfer swyddi gan was sifil, a dim ond rhan fach o'i bortffolio oedd yn ymwneud â materion cyflogaeth. Yr oedd hynny'n annheg ag ef ac yn sicr yn annheg â Chymru.

Felly, beth y gellir ei awgrymu er mwyn sicrhau mwy o gyflogaeth? Yn gyntaf, awgrymaf fod hyfforddiant a chymorth i chwilio am waith yn fwy llwyddiannus os caiff ei leoli'n lleol. Dylid ymwrthod â'r tueddiad ymddangosiadol tuag at ganoli. Efallai ei fod yn ymddangos yn rhatach yn y tymor byr, ond ni fydd yn rhatach os na fydd

greatest need do not receive it. People who are alienated from employment need a great deal of help to get back to work.

We must use the present European funds to their fullest potential. That is obvious. However, the target of job creation from the old Objective 2 and 5b funds by the end of 2001 was 31,870 jobs. The number of jobs created so far is 3,391. That is a long way from the target.

What lessons have been learnt and how are the lessons being transmitted to those who need to understand them? What percentage of the present European funds, for example, goes directly into frontline job creation, instead of propping up bureaucracy? I call on the Minister to publish those figures on administration and bureaucracy.

11:45 a.m.

Mick Bates *rose*—

The Presiding Officer: Order. Interventions are not usually taken during a short debate.

Janet Davies: If you wish to speak for a minute at the end of my speech, you may do so.

The Presiding Officer: Order. You were not given advance permission to speak. I do not chair short debates often but I remember the rules. As no advance permission was given, I can only allow Members to intervene during the Minister's winding-up speech.

Janet Davies: I will try to finish promptly.

We are told that the underspend on the economic development budget is now £54 million—a massive 22 per cent of the whole budget. We need money for contingencies, but not that much, particularly when the underspend on the education and health budgets is around £50 million for each. Those underspends are not just figures being waved about in a vacuum; among other losses, they mean jobs.

pobl yn yr ardaloedd mwyaf anghenus yn ei dderbyn—a hynny a awgrymir gan ambell ddarn o dystiolaeth. Mae angen cryn dipyn o gymorth ar y bobl sydd wedi eu hynysu o gyflogaeth, i'w helpu yn ôl i waith.

Rhaid inni ddefnyddio'r cronfeydd Ewropeaidd presennol i'w potensial mwyaf. Mae hynny'n amlwg. Fodd bynnag, y targed o ran creu swyddi o hen gronfeydd Amcan 2 a 5b erbyn diwedd 2001 oedd 31,870 o swyddi. Y nifer o swyddi a grëwyd hyd yma yw 3,391. Mae hynny'n bell oddi wrth y targed.

Pa wersi a ddysgwyd a sut y trosglwyddir y gwersi i'r rhai hynny sydd angen eu deall? Pa ganran o'r gronfa Ewropeaidd bresennol, er enghraifft, sydd yn mynd yn uniongyrchol tuag at greu swyddi yn y rheng flaen, yn hytrach na chynnal biwrocratiaeth? Galwaf ar y Gweinidog i gyhoeddi'r ffigurau hynny ar weinyddiaeth a biwrocratiaeth.

Mick Bates *a gododd*—

Y Llywydd: Trefn. Ni chymerir ymyriadau fel arfer yn ystod dadl fer.

Janet Davies: Os dymunwch siarad am funud ar ddiwedd fy araith, mae croeso ichi wneud hynny.

Y Llywydd: Trefn. Ni roddwyd caniatâd ichi siarad ymlaen llaw. Nid wyf yn cadeirio dadleuon byr yn aml ond yr wyf yn cofio'r rheolau. Gan na roddwyd caniatâd ymlaen llaw, dim ond pan fydd araith y Gweinidog yn dirwyn i ben y gallaf ganiatáu i Aelodau ymyrryd.

Janet Davies: Ceisiaf orffen yn brydlon.

Deallwn fod y tanwariant ar y gyllideb datblygu economaidd bellach yn £54 miliwn—swm anferthol o 22 y cant o'r gyllideb gyfan. Mae angen arian arnom ar gyfer treuliau annisgwyl, ond nid cymaint â hynny, yn enwedig o gofio bod y tanwariant ar y cyllidebau addysg ac iechyd tua £50 miliwn yr un. Nid ffigurau a gaiff eu taflu o gwmpas yn ddifeddwl yw'r tanwariant hwnnw; ymhlith colledion eraill, maent yn

We all recognise the need to put money aside for contingencies. Reasonable amounts should be allowed for in the budget. However, funding for major structural emergencies, such as the job losses at Corus, should be over and above our budget. Whatever may happen in the future, we are at present an integral part of the United Kingdom. There seems to be determination at some levels to maintain that union, accompanied by a failure to fund it.

Underspends are not the way to fund emergencies. How can we tolerate this when so many areas are crying out for training schemes? We could be putting money into an e-learning grid, for example, using technology to link up to educational institutions through the internet. That would be of vital assistance to rural areas and valleys, where public transport remains poor. Such software universities could help to stem the brain-drain to Cardiff and so allow for more even economic development in Wales.

On underspend on the health and education budgets, can you imagine how dispiriting it is for unemployed teachers and nurses—and I assure you that they exist—to hear constantly about the need for more teachers and nurses? However, money that could fund those jobs, and provide better public services, is not being used.

I am seriously perturbed by these underspends and the casual way to which they are referred. Current practice is sloppy and lets the people of Wales down, in terms of a possible lack of control of public spending and what they get at the end. Jobs for all may sound like a pipe dream. It is about time that we made reality out of dreams instead of boasting about triumphs, which are phantoms in the night—the long night of Lib/Lab rule.

Brian Gibbons *rose*—

golygu swyddi.

Yr ydym oll yn cydnabod yr angen i neilltuo arian ar gyfer treuliau annisgwyl. Dylid caniatáu ar gyfer symiau rhesymol yn y gyllideb. Fodd bynnag, dylai cyllid ar gyfer prif argyfyngau strwythurol, megis y swyddi a gollwyd yn Corus, fod yn fwy na'n cyllideb. Beth bynnag a allai ddigwydd yn y dyfodol, yr ydym, ar hyn o bryd, yn rhan integrol o'r Deyrnas Unedig. Ymddengys fel pe bai ymdeimlad penderfynol ar rai lefelau i gynnal yr undeb hwnnw, ynghyd â methiant i'w ariannu.

Ni ddylid defnyddio tanwariant i ariannu argyfyngau. Sut y gallwn oddef hyn pan welwn fod cymaint o ardaloedd yn ymbil am gynlluniau hyfforddi? Gallem gyfeirio arian at grid e-ddysgu, er enghraifft, gan ddefnyddio technoleg i gysylltu â sefydliadau addysgiadol drwy'r rhyngwrwd. Byddai hyn o gymorth hanfodol i ardaloedd gwledig a'r cymoedd, lle mae trafndiaeth gyhoeddus yn wael o hyd. Gallai prifysgolion meddalwedd o'r fath helpu i rwystro'r ymfudiad ymennydd i Gaerdydd gan ganiatáu felly am ddatblygiad economaidd mwy cyfartal yng Nghymru.

O ran tanwariant ar y cyllidebau iechyd ac addysg, a allwch ddychmygu digalondid yr athrawon a'r nyrsys di-waith—ac fe'ch sicrhaf eu bod yn bodoli—wrth glywed yn barhaus am yr angen am fwy o athrawon a nyrsys? Fodd bynnag, nid yw'r arian a allai ariannu'r swyddi hynny, a darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus, yn cael ei ddefnyddio.

Mae'r tanwariant hwn a'r ffordd ddidaro y cyfeirir ato yn fy mhryderu'n fawr. Mae'r arfer presennol yn esgeulus ac mae'n siomi pobl Cymru o ran diffyg rheolaeth bosibl ar wariant cyhoeddus a'r hyn sydd ar gael iddynt yn y diwedd. Mae'n bosibl bod swyddi i bawb yn swnio fel breuddwyd gwrrach. Mae'n hen bryd inni wireddu ein breuddwydion yn hytrach na brolio am lwyddiannau, sydd yn ddrychiolaethau yn y nos—noson hir o lywodraeth y Democratiaid Rhyddfrydol a Llafur.

Brian Gibbons *a gododd*—

The Presiding Officer: Order. Janet offered to take interventions at the beginning of the debate, but nobody took her up on that offer.

Brian Gibbons: We did not know what she was going to say.

The Presiding Officer: The point is to protect the time—[*Interruption.*] Order. I do not need help on this. I remember the rules of procedure for short debates, although I may not have chaired them recently. Therefore, I will call on the Minister to reply and, if Members wish to intervene, I am sure that he will be generous.

The Deputy First Minister and Minister for Economic Development (Michael German): Thank you for your indulgence, Llywydd. I will be happy to take interventions and answer questions on specifics that relate to my portfolio.

The title of the debate, 'Jobs for All', makes you wonder whether we have gone 50 or 60 years back in time. It is important that we know what can be done within our powers to turn our economy around, and that we are clear about what is within our range and what is not. Some powers that Janet mentioned are not within the National Assembly's competence, although we can campaign for them. I thank Janet for introducing this debate because it is important that we know and understand what is happening.

We are all aware of the problem, which economic forecasts for Wales have highlighted. As Janet said, there are great differences in terms of job opportunities around Wales. Such wide disparities in unemployment are illustrated in the fact that the current unemployment rate in Blaenau Gwent is 7.7 per cent, yet it is only 2.4 per cent in Powys and 2.3 per cent in Monmouthshire.

Brian Gibbons: It is important that we do not allow ourselves to be misinformed on what is happening. For example, Janet said that the real level of unemployment is many times higher than the claimant count. However, if you look at the International Labour Organisation survey, which, I believe,

Y Llywydd: Trefn. Cynigiodd Janet gymryd ymyriadau ar ddechrau'r ddadl, ond nid ymatebodd unrhyw un i'r cynnig hwnnw.

Brian Gibbons: Nid oeddem yn gwybod yr hyn yr oedd yn mynd i'w ddweud.

Y Llywydd: Mae'r pwynt yn ymwneud â gwarchod yr amser—[*Torri ar draws.*] Trefn. Nid oes angen help arnaf ynglŷn â hyn. Cofiaf reolau'r gweithrediadau ar gyfer dadleuon byr, er nad wyf wedi eu cadeirio yn ddiweddar. Felly, galwaf ar y Gweinidog i ymateb ac, os bydd yr Aelodau yn dymuno ymyrryd, yr wyf yn siŵr bydd yn hael.

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Michael German): Diolch am eich goddefgarwch, Lywydd. Bydd yn bleser gennyf gymryd ymyriadau ac ateb cwestiynau ar bethau penodol sydd yn ymwneud â'm portffolio.

Mae teitl y ddadl 'Swyddi i Bawb' yn gwneud ichi feddwl a ydym wedi mynd 50 neu 60 o flynyddoedd yn ôl i'r gorffennol. Mae'n bwysig ein bod yn gwybod beth y gellir ei wneud o fewn ein pwerau i wella ein heconomi, a'n bod yn glir ynglŷn â'r hyn sydd o fewn a'r hyn nad yw o fewn ein cwmpas. Nid yw rhai o'r pwerau a grybwyllodd Janet o fewn gallu'r Cynulliad Cenedlaethol, er y gallwn ymgyrchu i'w cael. Diolchaf i Janet am gyflwyno'r ddadl hon oherwydd mae'n bwysig ein bod yn gwybod ac yn deall yr hyn sydd yn digwydd.

Yr ydym oll yn ymwybodol o'r broblem, a amlygwyd gan ragolygon economaidd ar gyfer Cymru. Fel y dywedodd Janet, ceir gwahaniaethau mawr o ran cyfleoedd swyddi o amgylch Cymru. Amlygir y gwahaniaethau eang mewn diweithdra yn y ffaith bod cyfradd bresennol diweithdra ym Mlaenau Gwent yn 7.7 y cant, eto dim ond 2.4 y cant yw'r gyfradd ym Mhowys a 2.3 y cant yn Sir Fynwy.

Brian Gibbons: Mae'n bwysig nad ydym yn caniatáu i ni ein hunain gael ein camarwain ynglŷn â'r hyn sydd yn digwydd. Er enghraifft, dywedodd Janet fod lefel wirioneddol diweithdra sawl gwaith yn uwch na nifer yr hawl wyr. Fodd bynnag, os edrychych ar arolwg y Sefydliad Llafur

most people agree is a fairly accurate assessment of unemployment levels and so forth, it is consistently about 40 to 50 per cent higher than the claimant count. Therefore, to say that unemployment is many times higher is not true. Equally, there has been no change in the claimant count since the Labour Party came to Government. The changes in the claimant count is counting like with like. We have seen a dramatic reduction in unemployment levels, and even the long-term unemployed, which are down by 50 per cent. It is true that some of the incoming jobs, particularly in the service industry, do not pay as well as jobs in the manufacturing sector, and it is important that we maintain a manufacturing base in Wales. However, the rate of take-home pay in Wales is increasing as rapidly as the—

The Presiding Officer: Order. This is a rather long intervention. It sounds like a speech to me.

Brian Gibbons: I will finish now. The rate of pay is increasing every bit as quickly as the rest of the United Kingdom, and in many quarters it is increasing at a faster rate than the United Kingdom. I do not think that in replying to this debate Mike needs to respond to the doom and gloom scenario that Janet has tried to present.

Michael German: The first thing that I was about to say was that we know about the current problems, but it is not as gloomy as people maintain. We know that we have lost 5 per cent of manufacturing jobs over the last two years, but it is 5 per cent and not some magical, mythical, huge figure beyond that, which people represent it to be, as if the haemorrhaging is so great. Manufacturing jobs are being created at the same time. Wales is under-represented in financial and business services and we need to improve our performance in that area and in the rate of growth of businesses.

Brian Hancock *rose—*

Michael German: I will come back to you,

Rhyngwladol, sydd, fe gredaf, yn asesiad gweddol gywir o lefelau diweithdra ac yn y blaen, ac mae llawer o bobl yn cytuno â hynny, mae'n 40 i 50 y cant yn gyson uwch na nifer yr hawlwy. Felly, nid yw dweud bod diweithdra sawl gwaith yn uwch yn wir. Yn yr un modd, ni fu unrhyw newid yn nifer yr hawlwy ers i'r Blaid Lafur ddod yn Llywodraeth. Mae'r newidiadau yn nifer yr hawlwy yn cyfrif tebyg am debyg. Gwelsom ostyngiad dramatig mewn lefelau diweithdra, a hyd yn oed y di-waith yn y tymor hir, sydd wedi gostwng 50 y cant. Mae'n wir nad yw rhai o'r swyddi newydd, yn enwedig yn y diwydiant gwasanaeth, yn talu cystal â swyddi yn y sector gweithgynhyrchu, ac mae'n bwysig ein bod yn cynnal sylfaen gweithgynhyrchu yng Nghymru. Fodd bynnag, mae cyfradd y cyflog sydd gan bobl Cymru yn eu pocedi yn cynyddu mor gyflym â—

Y Llywydd: Trefn. Mae'r ymyriad hwn braidd yn hir. Mae'n swnio fel araith i mi.

Brian Gibbons: Byddaf yn gorffen yn awr. Mae cyfradd y cyflogau yn cynyddu yr un mor gyflym â gweddill y Deyrnas Unedig, ac mewn llawer o ardaloedd mae'n cynyddu ar gyfradd gyflymach na'r Deyrnas Unedig. Ni chredaf, wrth ymateb i'r ddadl hon, fod angen i Mike ymateb i'r sefyllfa ddiflas y ceisiodd Janet ei chyflwyno.

Michael German: Y peth cyntaf yr oeddwn ar fin ei ddweud oedd ein bod yn gwybod am y problemau presennol, ond nid yw mor ddiflas â'r hyn y mae pobl yn ei haeru. Gwyddom ein bod wedi colli 5 y cant o swyddi gweithgynhyrchu dros y ddwy flynedd diwethaf, ond mae'n 5 y cant ac nid yn rhyw ffigur hudol, mytholegol, enfawr y tu hwnt i hynny, y mae pobl yn ei ddehongli felly, fel pe bai nifer y diswyddiadau mor fawr â hynny. Caiff swyddi gweithgynhyrchu eu creu ar yr un pryd. Caiff Cymru ei thangynrychioli mewn gwasanaethau ariannol a busnes ac mae angen inni wella ein perfformiad yn y maes hwnnw ac yng nghyfradd twf busnesau.

Brian Hancock *a gododd—*

Michael German: Deuaf yn ôl atoch, Brian,

if I may, Brian, when I am a bit further on. I have only got as far as the first two paragraphs of my notes so far.

It is not all doom and gloom, and I must make that clear. We are seeing increasing rates of change in job opportunities. Janet quite rightly said that jobs for life are no longer the mode of the day. That is universally and globally true. We must expect universal and global trends to affect Wales as well. In that revolving door, Wales has some good news. The total number of workforce jobs in Wales rose by just over half a million for the two years to December 2000. We are well on the way to meeting the target set for 2003. Claimant count unemployment in Wales—it is important that we measure like for like, and we can now go back to where it was like for like—is down from 4.4 per cent a year ago to 4 per cent, which is 52,500 claimants this year, as opposed to 57,500 last year. That is the lowest rate in Wales since 1975. We should proclaim that there are more people in employment than there were in 1975 and every year since then. Despite the apparent record on business failures, a higher percentage of businesses that started in the mid 1990s have survived the three-year test, which is better than the UK as a whole. There is some good news, therefore.

You will have seen the headlines this week about the Welsh Development Agency's figures for 2000-01. Its end of year results show that nearly 22,000 jobs, for which the Assembly has had a direct influence, have been safeguarded or created. That is the best result in the last 25 years. Sixty per cent of those jobs were in the priority areas of west Wales and the Valleys. The Assembly can intervene, therefore—for example, through our own agency, the WDA. That has led to the best results for 25 years. Our Finance Wales bank, if you want to call it a bank, will soon be up to speed. I am pleased to note that the European Commission's approval will probably come in September. Even though that will give us more money, we did invest more than £20 million in small companies last year. Through regional selective assistance, which is another area in which the

os gallaf, pan fyddaf rywfaint ymhellach ymlaen. Yr wyf ond wedi cyrraedd dau baragraff cyntaf fy nodiadau hyd yn hyn.

Nid yw'n ddu i gyd, a rhaid imi bwysleisio hynny. Yr ydym yn gweld cyfraddau newid cynyddol mewn cyfleoedd swyddi. Dywedodd Janet yn hollol gywir nad yw swyddi am oes yn gyffredin heddiw. Mae hynny'n wir yn gyffredinol ac yn fyd-eang. Rhaid inni ddisgwyl i dueddiadau cyffredinol a byd-eang effeithio ar Gymru hefyd. Yn y drws troi hwnnw, mae gan Gymru ychydig o newyddion da. Cododd cyfanswm swyddi'r gweithlu yng Nghymru ychydig dros hanner miliwn am y ddwy flynedd hyd at Ragfyr 2000. Yr ydym ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed a osodwyd ar gyfer 2003. Mae nifer yr hawlwyd di-waith yng Nghymru—mae'n bwysig ein bod yn mesur tebyg am debyg, a gallwn yn awr fynd yn ôl i'r cyfnod pan oeddem yn mesur tebyg am debyg—wedi gostwng o 4.4 y cant y llynedd i 4 y cant, sydd yn 52,500 o hawlwyd eleni, o'i gymharu â 57,500 y llynedd. Hon yw'r gyfradd isaf yng Nghymru ers 1975. Dylem ddatgan bod mwy o bobl mewn swyddi nag a oedd yn 1975 a phob blwyddyn ers hynny. Er gwaethaf yr enw gwael i bob golwg am fethiannau busnes, mae canran uwch o fusnesau a ddechreuodd yng nghanol y 1990au wedi goroesi'r prawf tair blynedd, sydd yn well na'r DU yn ei chyfanrwydd. Ceir rhywfaint o newyddion da, felly.

Byddwch wedi gweld y penawdau yr wythnos hon ynglŷn â ffigurau Awdurdod Datblygu Cymru ar gyfer 2000-01. Dengys ei ganlyniadau diwedd blwyddyn fod 22,000 o swyddi, yr oedd gan y Cynulliad ddylanwad uniongyrchol drostynt, wedi cael eu diogelu neu eu creu. Dyna'r canlyniad gorau yn y 25 mlynedd diwethaf. Yr oedd trigain y cant o'r swyddi ym mhrif ardaloedd gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Gall y Cynulliad ymyrryd, felly—er enghraifft, drwy ein hawdurdod ein hunain, y WDA. Arweiniodd hynny at y canlyniad gorau ers 25 mlynedd. Bydd ein banc Cyllid Cymru, os hoffech ei alw yn fanc, yn llwyr weithredol cyn bo hir. Mae'n bleser gennyf nodi y daw sêl bendith y Comisiwn Ewropeaidd, yn fwy na thebyg, ym mis Medi. Er y bydd hynny yn rhoi mwy o arian inni, buddsoddwyd £20 miliwn gennym mewn cwmnïau bach y llynedd.

Assembly can act, over 11,000 jobs have been secured, of which 49 per cent were from projects by overseas companies and 69 per cent overall were new jobs.

Trwy gyfrwng cymorth rhanbarthol dewisol, sef maes arall lle y gall y Cynulliad weithredu, diogelwyd dros 11,000 o swyddi, ac yr oedd 49 y cant ohonynt o brosiectau gan gwmnïau tramor a 69 y cant ar y cyfan yn swyddi newydd.

11:55 a.m.

Therefore, we have secured £751 million of private sector investment through RSA, 71 per cent of which came from overseas companies. WalesTrade International, which was established in April, four or five months earlier than planned, is important because if we do not trade outwardly we will never grow as a country. We have introduced three new initiatives this year: a sector mission programme so that we work collectively with the same sectors; a trade fair pavilion scheme so that we are able to give companies an opportunity to trade outwardly in trade fairs; and a trade fair grant scheme, which also helps to do that. Sixty-two companies have now been introduced to new export markets and 609 companies participated in those projects. Export opportunities worth £294 million were introduced and £27 million of export business was secured in the last year with the creation of 468 new jobs.

Felly, yr ydym wedi sicrhau £751 miliwn o fuddsoddiad sector preifat drwy gymorth rhanbarthol dewsiol, a daeth 71 y cant ohono oddi wrth gwmnïau tramor. Mae Masnach Cymru Rhyngwladol, a sefydlwyd ym mis Ebrill, bedwar neu bum mis yn gynharach na'r disgwyl, yn bwysig oherwydd os na fasnachwn yn allanol ni fyddwn byth yn tyfu fel gwlad. Cyflwynasom dair menter newydd eleni: rhaglen genhadaeth sector er mwyn inni weithio ar y cyd â'r un sectorau; cynllun pafiliwn ffair fasnach er mwyn inni allu rhoi cyfle i gwmnïau fasnachu'n allanol mewn ffeiriau masnach; a chynllun grant ffeiriau masnach, sydd hefyd yn helpu i wneud hynny. Cyflwynwyd 62 o gwmnïau erbyn hyn i farchnadoedd allforio newydd a chyfrannodd 609 o gwmnïau at y prosiectau hynny. Cyflwynwyd cyfleoedd allforio gwerth £294 miliwn a sicrhawyd £27 miliwn o fusnes allforio yn y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i greu 468 o swyddi newydd.

In the last year, the tourism industry, despite the problems with foot and mouth disease, has made significant progress with an investment ratio of approximately 30 to one. For public intervention rates, that is substantial. We have increased expenditure from overseas markets in Wales, which has created over 400 new jobs. Therefore, we are moving forward. However, there are challenges ahead.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r diwydiant twristiaeth, er gwaethaf y problemau gyda chlwy'r traed a'r genau, wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda chymhareb fuddsoddi o tua 30 i un. Ar gyfer cyfraddau ymyriad y cyhoedd, mae hynny'n sylweddol. Mae gennym fwy o wariant gan farchnadoedd tramor yng Nghymru, sydd wedi creu dros 400 o swyddi newydd. Felly, yr ydym yn symud ymlaen. Fodd bynnag, mae heriau o'n blaenau.

Brian Hancock: We are discussing manufacturing jobs and I am concerned that a glossy picture is being painted. Let us consider south-east Wales. In my constituency of Islwyn, there are not many manufacturing industries. However, one of them, Solectron, is making representations to you about the loss of 500 jobs because of the fact that its technology is not considered high enough for some jobs, which are going to Ireland, or too high for other jobs, which are

Brian Hancock: Yr ydym yn trafod swyddi gweithgynhyrchu ac yr wyf yn poeni ein bod yn rhoi darlun rhy ddilychwin. Gadewch inni ystyried de-ddwyrain Cymru. Yn fy etholaeth i yn Islwyn, nid oes llawer o ddiwydiannau gweithgynhyrchu. Fodd bynnag, mae un ohonynt, Solectron, yn gwneud sylwadau ichi ynglŷn â cholli 500 o swyddi yn sgîl y ffaith nad ystyrir bod ei dechnoleg yn ddigon uchel ar gyfer rhai swyddi, sydd yn mynd i Iwerddon, neu'n rhy uchel ar gyfer swyddi

going to the eastern bloc. I want to know what action you are taking to safeguard those 500 jobs.

Islwyn is sandwiched between Corus in the north, in Ebbw Vale, and Corus in the south in Newport. We know that many jobs are being lost in Corus. In addition to those, I will throw in Alcan in Rogerstone, GE, Gossards and so on. We are losing our manufacturing base and we are not seeing new jobs being developed. Manufacturing jobs, as Brian agreed, are high-paid jobs. We are losing the technology and infrastructure that creates jobs. I am concerned about the figures that we were discussing on the number of claimants and so on. Redundancy payments obscure the figures, particularly when people are in their early to mid 50s and have had 25 to 30 years' service. I am concerned about—

The Presiding Officer: Order. This is a rather long intervention. I am sure that people do not go on as long as this when the Deputy Presiding Officer chairs these short debates.

Brian Hancock: May I make two small points?

The Presiding Officer: I do not think so.

Brian Hancock: Oh, go on.

The Presiding Officer: Order. That would not be fair. The principle of the short debate is that time is given to the Member who is holding the debate, to those other Members who have given prior notice to that Member that they wish to speak, and to the Minister, who then provides us with his or her wisdom in response. I cannot allow time in the short debate to be taken up by Members who have not been successful in the ballot, making speeches.

Michael German: I think that his two questions were mumbled under his breath anyway. In the last twelve months RSA received the largest number of applications ever. It is good news that more people are

eraill sydd yn mynd i'r bloc dwyreiniol. Yr wyf am wybod pa gamau yr ydych yn eu cymryd i ddiogelu'r 500 o swyddi hynny.

Mae Islwyn wedi'i leoli rhwng Corus yn y gogledd, yng Nglyn Ebwy, a Corus yn y de yng Nghasnewydd. Gwyddom fod llawer o swyddi'n cael eu colli yn Corus. Yn ychwanegol at y rhai hynny, crybwyllaf Alcan yn Rogerstone, GE, Gossards ac yn y blaen. Yr ydym yn colli ein sylfaen weithgynhyrchu ac nid ydym yn gweld swyddi newydd yn cael eu datblygu. Mae swyddi gweithgynhyrchu, fel y cytunodd Brian, yn swyddi â chyflog uchel. Yr ydym yn colli'r dechnoleg a'r seilwaith sydd yn creu swyddi. Yr wyf yn pryderu am y ffigurau yr oeddem yn eu trafod ynglŷn â nifer yr hawl wyr ac yn y blaen. Mae taliadau diswyddo yn cuddio'r ffigurau, yn enwedig pan fydd pobl yn eu 50au cynnar neu yng nghanol eu 50au ac wedi cael 25 i 30 mlynedd o wasanaeth. Yr wyf yn pryderu am—

Y Llywydd: Trefn. Mae hwn yn ymyriad gweddol hir. Yr wyf yn siŵr nad yw pobl yn traethu am gyfnod mor hir pan fydd y Dirprwy Lywydd yn cadeirio'r dadleuon byr hyn.

Brian Hancock: A gaf wneud dau bwynt byr?

Y Llywydd: Na chewch.

Brian Hancock: O, dewch ymlaen.

Y Llywydd: Trefn. Ni fyddai hynny'n deg. Diben y ddadl fer yw rhoi amser i'r Aelod sydd yn arwain y ddadl, i'r Aelodau eraill hynny sydd wedi rhoi rhybudd ymlaen llaw eu bod am siarad, ac i'r Gweinidog, sydd yna'n rhannu ei ddoethineb ef neu hi mewn ymateb. Ni allaf ganiatáu i Aelodau na fu'n llwyddiannus yn y bleidlais i wastraffu amser yn y ddadl fer, yn gwneud areithiau.

Michael German: Credaf iddo fwmial ei ddau gwestiwn o dan ei anadl beth bynnag. Yn y deuddeg mis diwethaf cafwyd y nifer uchaf o geisiadau erioed am gymorth rhanbarthol dewisol. Mae'n newyddion da

taking up opportunities available through public support in Wales. I do not want to repeat the figures that I have just given, although, of course, as jobs are lost, jobs are also created. The manufacturing industry has lost 5 per cent of its jobs. I have explained that and we all know the reasons behind that. However, it would be wrong to state that everything is going out and nothing is coming in. It is also wrong to say that more people are out of work. Fewer people are out of work now than at any time over the last 25 years. We must make that clear.

There is a way forward and Janet alluded to it. We are consulting on a national economic development strategy. We do not currently have a national economic plan. Four regional meetings have taken place and many people have presented their proposals. The deadline for submitting ideas is 7 July, so we are still waiting for some people to respond. I have given the Economic Development Committee the timetable for that response. However, there are some key tasks that we need to undertake. First, we must focus on new ideas. If we do not consider that innovation and change is driving us forward, we can never succeed. Sometimes in that revolving door, we must—

Pauline Jarman *rose*—

Michael German: I will go on, as I must get to what I want to say. I will return to you later.

The Presiding Officer: Order. The intention is that interventions be on the basis of prior notice. That is in the guidance. I refer you to Standing Orders No. 6.1 and No. 6.37(iii).

Michael German: I will abide by your ruling and follow on from what I was about to say on new ideas.

In that revolving door of change, if we do not ascribe to new ideas, the country will not move forward. That is why I was so pleased when we relaunched the WDA centre of excellence programme, during the last year.

fod mwy o bobl yn manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael drwy gymorth cyhoeddus yng Nghymru. Nid wyf am ailadrodd y ffigurau a roddais yn gynharach, er, wrth gwrs, wrth golli swyddi, caiff swyddi eu creu hefyd. Mae'r diwydiant gweithgynhyrchu wedi colli 5 y cant o'i swyddi. Eglurais hynny ac yr ydym oll yn gwybod y rhesymau am hynny. Fodd bynnag, byddai'n anghywir datgan bod popeth yn mynd allan ac nad oes unrhyw beth yn dod i mewn. Mae hefyd yn anghywir dweud bod mwy o bobl yn ddi-waith. Mae llai o bobl yn ddi-waith yn awr nag a oedd yn ystod unrhyw gyfnod dros y 25 mlynedd diwethaf. Rhaid inni bwysleisio hynny.

Mae ffordd ymlaen a chyfeiriodd Janet ati. Yr ydym yn ymgynghori ar strategaeth datblygu economaidd genedlaethol. Nid oes gennym gynllun economaidd cenedlaethol ar hyn o bryd. Cynhaliwyd pedwar cyfarfod rhanbarthol a chyflwynodd llawer o bobl eu cynigion. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno syniadau yw 7 Gorffennaf, felly yr ydym yn dal i aros i rai pobl ymateb. Yr wyf wedi rhoi'r amserlen i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar gyfer yr ymateb hwnnw. Fodd bynnag, ceir rhai tasgau allweddol y mae'n rhaid inni ymgymryd â hwy. Yn gyntaf, rhaid inni ganolbwyntio ar syniadau newydd. Os nad ystyriwn fod dyfeisgarwch a newid yn ein gyrru ymlaen, ni fyddwn byth yn llwyddo. Weithiau, yn y drws troi hwnnw, rhaid inni—

Pauline Jarman *a gododd*—

Michael German: Af ymlaen, oherwydd bod rhaid imi ddweud yr hyn yr wyf am ei ddweud. Dychwelaf atoch yn nes ymlaen.

Y Llywydd: Trefn. Y bwriad yw y ceir ymyriadau ar sail rhybudd blaenorol. Mae hynny yn y canllawiau. Cyfeiriau at Reolau Sefydlog Rhif 6.1 a Rhif 6.37 (iii).

Michael German: Glynaf wrth eich dyfarniad a pharhaf â'r hyn yr oeddwn ar fin ei ddweud am syniadau newydd.

Yn y drws troi hwnnw o newid, os na fabwysiadwn syniadau newydd, ni fydd y wlad yn symud ymlaen. Dyna'r rheswm yr oeddwn mor falch pan ail-lansiwyd rhaglen canolfan ragoriaeth y WDA gennym, yn

Twenty new centres of excellence were identified. I assure you that when the national economic development strategy appears in full, it will include new structures that bring new ideas together for management of money. It will be driven by the public sector, but with the private sector leading.

The entrepreneurship action plan endorsed by the Assembly has been given £1.5 million additional funding for this financial year. Some worthy Objective 1 projects have already been approved and others are awaiting approval. We must also create the right environment to attract business and to make business grow in Wales. We must ensure, as Janet said, that we have an appropriately skilled workforce. Work is currently in progress with ELWa to ensure that. We must have the correct infrastructure. That is not merely about transport, although it is important if we are to attract more business to our priority areas. We need the right information and communications broadband technology in place. We are currently considering how to improve access to broadband technology. I am particularly encouraged by events in Pembrokeshire and the opportunities to develop this with the local authority and the Ministry of Defence.

You cannot undertake a programme under Objective 1 that has been running since last October, and identify jobs at this stage. As I explained to the Economic Development Committee, we have established a new evaluation head of department in the Welsh European Funding Office, and the unit will be ready to identify on the ground. However, to recruit staff and to develop a unit takes time. These projects are at the introductory stage. I know that from personal experience. I was in Caerphilly last night and I saw the building whose foundation stone I had laid, an Objective 1 project of a business development centre, that now has a roof and will open its doors soon. I have also opened a factory in Anglesey that was being occupied and 27 new jobs were being created. That was a factory created through money and support from Objective 1.

ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nodwyd ugain o ganolfannau rhagoriaeth newydd. Fe'ch sicrhaf pan fydd y strategaeth datblygu economaidd newydd yn ymddangos yn llawn, y bydd yn cynnwys strwythurau newydd a fydd yn dod â syniadau newydd ynghyd o ran rheoli arian. Y sector cyhoeddus fydd yn ei gweithredu, ond o dan arweiniad y sector preifat.

Rhoddyd £1.5 miliwn o arian ychwanegol i'r cynllun gweithredu entrepreneuriaeth a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Cymeradwywyd rhai prosiectau Amcan 1 teilwng ac mae eraill yn aros i gael eu cymeradwyo. Rhaid inni hefyd greu'r amgylchedd iawn i ddenu busnes ac i sicrhau bod busnes yn tyfu yng Nghymru. Rhaid inni sicrhau, fel y dywedodd Janet, fod gennym weithlu â'r sgiliau priodol. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gydag ELWa i sicrhau hynny. Rhaid inni gael y seilwaith cywir. Nid yw hynny'n ymwneud â thrafnidiaeth yn unig, er ei bod yn bwysig os ydym am ddenu mwy o fusnes i'n hardaloedd â blaenoriaeth. Mae angen y dechnoleg wybodaeth a chyfathrebu band llydan cywir arnom. Ar hyn o bryd, yr ydym yn ystyried sut i wella mynediad i dechnoleg band llydan. Yr wyf yn arbennig o obeithiol ynglŷn â'r digwyddiadau yn Sir Benfro a'r cyfleoedd i ddatblygu hyn gyda'r awdurdod lleol a'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Ni allwch ymgymryd â rhaglen o dan Amcan 1 a fu'n rhedeg ers mis Hydref diwethaf, a nodi swyddi ar y cam hwn. Fel yr eglurais wrth y Pwyllgor Datblygu Economaidd, yr ydym wedi sefydlu pennaeth adran gwerthuso newydd yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, a bydd yr uned yn barod i nodi ar lawr gwlad. Fodd bynnag, mae'n cymryd amser i recriwtio staff ac i ddatblygu uned. Mae'r prosiectau hyn ar y cam cychwynnol. Gwn hynny o brofiad personol. Yr oeddwn yng Nghaerffili neithiwr a gwelais yr adeilad y gosodais ei garreg sylfaen, sef prosiect Amcan 1 ar gyfer canolfan datblygu busnes, sydd bellach â tho ac a fydd yn agor ei drysau yn fuan. Yr wyf hefyd wedi agor ffatri ar Ynys Môn a oedd yn cael ei defnyddio ac yr oedd 27 o swyddi newydd yn cael eu creu. Yr oedd honno'n ffatri a grëwyd drwy arian a chymorth Amcan 1.

We are beginning to bite. However, we are at the introductory stage, and have not yet felt the full benefits. Matters are moving, but it is important to balance the good changes in the Welsh economy with the bad. The measures that we are incorporating should allow us to be in a position to attract the right type of investment. That would bring highly-paid, high added-value employment to Wales and create many jobs over the coming years.

Janet mentioned in her opening speech that local means are important when making and developing job opportunities. You will be pleased to note the Assembly's major priority contained in its groundbreaking Communities First programme. This long-term commitment will renew the most disadvantaged communities in Wales. Over £83 million in specific grant has been pledged to the programme over the coming three years. This will make a real difference to people most in need in Wales, and to the unemployed in particular. Too many of our Welsh communities have experienced social and economic decline over many years.

The Presiding Officer: Order. We are now beyond the half-hour allocated for this debate. I am grateful to the Minister and all Members for abiding by Standing Orders and guidance.

Diolch yn fawr i'r Aelodau. Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

Yr ydym yn dechrau gwneud gwahaniaeth. Fodd bynnag, yr ydym ar y cam cychwynnol, ac nid ydym wedi profi'r manteision llawn eto. Mae materion yn symud yn eu blaen, ond mae'n bwysig ein bod yn gwrthbwysu'r newidiadau da yn economi Cymru yn erbyn y rhai gwael. Dylai'r mesurau sydd yn cael eu hymgorffori gennym ein galluogi i fod mewn sefyllfa lle y gallwn ddenu'r math cywir o fuddsoddiad. Byddai hynny'n dod â gwaith â chyflog uchel, a gwerth ychwanegol uchel i Gymru gan greu llawer o swyddi dros y blynyddoedd nesaf.

Yn ei haraith agoriadol, crybwyllodd Janet fod dulliau lleol yn bwysig wrth wneud a datblygu cyfleoedd swyddi. Byddwch yn falch o nodi prif flaenoriaeth y Cynulliad a gynhwysir yn ei raglen arloesol, Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Bydd yr ymrwymiad hirdymor hwn yn adnewyddu'r cymunedau o dan yr anfantais fwyaf yng Nghymru. Neilltuwyd dros £83 miliwn fel grant penodol ar gyfer y rhaglen dros y tair blynedd nesaf. Gwnaiff hyn wahaniaeth gwirioneddol i'r bobl sydd fwyaf anghenus yng Nghymru, ac i'r di-waith yn arbennig. Mae gormod o'n cymunedau yng Nghymru wedi profi dirywiad cymdeithasol ac economaidd dros flynyddoedd lawer.

Y Llywydd: Trefn. Yr ydym yn awr wedi mynd y tu hwnt i'r hanner awr a neilltuwyd ar gyfer y ddadl hon. Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog ac i'r holl Aelodau am gadw at y Rheolau Sefydlog a'r canllawiau.

Thank you to the Members. That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 12.04 p.m.
The session ended at 12.04 p.m.*